



Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE



Adroddiad Blynyddol
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi
dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru
2007-2008

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2007-2008

Cyflwynwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng yng Nghymru i Weinidogion Cymru o dan adran 21 Deddf Addysg 2005 ac adran 86 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Cyhoeddwyd gan Estyn ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ar y materion a godwyd yn yr adroddiad yma. Anfonwch e-bost at prif-arolygydd@estyn.gsi.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2009: Cewch aildefnyddio'r ddogfen yma am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei haildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Rhagair

Pleser yw cael cyflwyno fy ail Adroddiad Blynyddol fel Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.



Dr William Maxwell
Prif Arolygydd Ei
Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru

Diben yr adroddiad yw rhoi golwg cyffredinol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn bron pob un o'r sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n tynnu'n bennaf ar dystiolaeth yr arolygiadau'r ydyn ni wedi'u cynnal dros y flwyddyn academiaidd sydd newydd fynd heibio. Mae'n tynnu hefyd, pan mae hynny'n briodol, ar ddata allweddol arall ynglŷn â chanlyniadau perfformiad. Mae'n edrych y tu hwnt i flwyddyn unigol mewn rhai achosion, er mwyn rhoi'r darlun yr adeiladon ni'r llynedd yng nghyd-destun ehangach rhai tueddiadau tymor hir rydyn ni wedi'u gweld yn datblygu dros nifer o flynyddoedd.

Mae rhywfaint o newid ym mhatrwm yr adroddiad, o gymharu â'r adroddiad y cyhoeddais i'r llynedd.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'n cynnwys adolygiadau o waith yr holl sectorau'r ydyn ni'n eu harolygu, sector wrth sector. Mae'n cyfleu prif negeseuon y gwahanol agweddau ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant mae Estyn yn ei harolygu. Mae'r adran olaf, eto fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn grynodedd o'r gwaith arolwg thematig yr ydyn

ni wedi'i gwblhau eleni mewn ymateb i'n 'llythyr cylch gwaith' blynyddol gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae'n dangos y testunau'r ydyn ni wedi ymchwilio iddyn nhw, mae'n crynhoi'r prif ganfyddiadau ac mae'n nodi sut mae llywodraeth y Cynulliad wedi ymateb i'n cyngor.

Mae'r newid pwysicaf i'w weld yn yr adran gyntaf. Yn yr adran yma, mae'r adroddiad yn disgrifio'r heriau allweddol mae'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru'n eu hwynebu. Heriau trawsbynciol ydyn nhw sy'n berthnasol yn fras ar draws cyfnodau a sectorau. Rwy'n credu y bydd llwyddo i fodloni'r heriau yma'n allweddol yn y gwaith o gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u gosod yn *Y Wlad sy'n Dysgu a Chymru'n Un*. Nid yw'r heriau'n rhai unigryw i Gymru o bell ffordd. Ond rwy'n credu bod yr heriau'n arbennig o berthnasol i berfformiad ein system addysg ar hyn o bryd. Rhaid i ni fynd ati'n benderfynol ac yn bendant i roi sylw i'r heriau yma os ydyn ni am ofalu bod ein system yn cystadlu gyda'r systemau gorau yn y byd.

Mae'r adroddiad yn clodfori llwyddiant. Fy nod drwy'r adroddiad cyfan yw tynnu sylw at feysydd o arfer dda a dangos yn glir y gwelliannau mae arolygwyr yn eu gweld ar draws Cymru. Rwy'n falch o ddweud bod llawer o'r fath negeseuon cadarnhaol i'w cofnodi.

At ei gilydd, rydyn ni'n gweld bod safonau cyflawni ym mhob sector yn dda o leiaf. Lle mae'n bosib cymharu, rydyn ni'n gweld bod y darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu chwe blynedd yn ôl wedi gwella.

Rydyn ni'n gweld gwelliannau sylweddol yn y gwaith o gydlynu'r system ar gyfer y dysgwr. Er enghraifft, mae'r gefnogaeth a'r arweiniad da sydd ar gael i ddisgyblion ysgol yn eu helpu i drosglwyddo'n haws o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mewn ysgolion arbennig, rydyn ni'n gweld bod ansawdd dysgu ac addysgu'n uchel. Cafodd 92% o'r gwersi mewn ysgolion arbennig a gynhelir eu dyfarnu'n dda neu well.

Rydyn ni wedi gweld rhai cryfderau go iawn hefyd yn y sectorau ôl-16. Eleni, er enghraifft, rydyn ni'n adrodd bod arweinyddiaeth a rheolaeth darparwyr dysgu yn y gwaith yn dal i wella, ac mae tystiolaeth glir fod hyn yn digwydd er lles dysgwyr. Rydyn ni wedi gweld cryfderau yn yr arweinyddiaeth yn y sector addysg bellach hefyd. Fe wnaethon ni ddyfarnu bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n dda iawn ym mhob un o'r darparwyr addysg bellach y gwnaethon ni eu harolygu eleni.

Rwy'n sicr fy meddwl mai'r ffordd i sicrhau bod darparwyr yn parhau i wella yw datblygu trefniadau cadarn a systematig ar gyfer hunanarfarnu yn y tymor hir. Calonogol felly yw gweld bod y rhan fwyaf o arweinwyr a rheolwyr mewn ysgolion a gynhelir yn adnabod cryfderau a gwendidau'u sefydliadau yn dda erbyn hyn. Yn gyffredinol, mae gan ddarparwyr addysg bellach systemau sydd wedi gwreiddio'n dda i sicrhau a monitro ansawdd eu haddysgu a'u safonau.

Er hynny, mae gwendidau i'w gweld mewn rhai agweddau allweddol ar addysg a hyfforddiant, ac mae gofyn gwneud mwy o waith i sicrhau gwelliant. Fel yr wyf i wedi crybwyll yn barod, rydyn ni wedi tynnu sylw yn adran 1 at nifer bach o heriau pwysig. Mae'r rhain yn ymwneud â materion fel torri cylch anfantais gymdeithasol a thangyflawni, ymestyn

disgyblion mwy galluog, gwella dwyieithrwydd, cryfhau gweithio mewn partneriaethau, ac ategu mwy fyth ar allu dysgwyr i sicrhau eu gwelliant parhaus eu hunain.

Mae'n hynod o bwysig i awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid strategol ac ysgolion i ofalu bod dysgwyr yn gallu mynd at y gwasanaethau maen nhw eu hangen. Fe welon ni enghreifftiau eleni o awdurdodau lleol sydd wedi gwneud cynnydd arbennig o gadarn. Yn yr awdurdodau yma, fe welon ni fod ansawdd arweinyddiaeth yr uwch swyddogion a'r aelodau'n uchel iawn ac yn galluogi'r cynghorau i wneud penderfyniadau anodd, fel y penderfyniad angenrheidiol i leihau lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion. Ond mae llawer o awdurdodau lleol yn dal yn mynd ati'n rhy araf i herio arweinyddiaeth a rheolaeth wan mewn ysgolion. Maen nhw hefyd yn rhy araf wrth ofalu bod meysydd gwasanaeth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael y cymorth a'r addysg maen nhw eu hangen.

Yn y sector ysgolion, mae rhai ysgolion yn methu bodloni'r disgwyliadau y mae gan eu disgyblion yr hawl i'w disgwyl. Mae nifer yr ysgolion sy'n cael eu rhoi yn y categorïau ffurfiol *angen gwelliant sylweddol* a *mesurau arbennig* yn tystio i hyn. Eleni, er bod y niferoedd yn fach, mae ychydig yn fwy o ysgolion wedi cael eu rhoi yn y categori gwelliant sylweddol. Roedd nifer yr ysgolion a gafodd eu nodi fel rhai lle'r oedd angen gweithredu mesurau arbennig yr un fath â'r llynedd, ond cynyddodd y rhai lle mae angen gwelliant sylweddol o 11 y llynedd i 16 eleni. Gweld llawer o ddarpariaeth wan yn ystod arolygiadau o unedau cyfeirio disgyblion sy'n rhannol gyfrifol o leiaf am y cynnydd yma. Eleni, rydyn ni wedi enwi tair uned cyfeirio disgyblion lle mae angen gwelliant sylweddol.

Ym mhob agwedd ar ein gwaith, mae arolygwyr Estyn yn gwrando'n astud ar yr hyn mae dysgwyr yn ei ddweud wrthym am ansawdd addysg a hyfforddiant. Er enghraifft, mae disgyblion ysgol ar [Lwybrau Dysgu 14-19](#) yn dweud yn gyson eu bod nhw'n mwynhau dysgu yn y coleg ac mewn lleoliadau galwedigaethol. Rydyn ni'n gweld yn aml hefyd fod annog disgyblion i gyfrannu at fywyd yr ysgol yn effeithio'n gadarnhaol ar yr ysgol. Yn yr ysgolion sy'n rhoi blaenoriaeth i wrando ar ddisgyblion, mae'r addysgu wedi gwella. Mewn gwasanaethau cymorth ieuencid, mae dysgwyr yn dweud eu bod nhw'n mwynhau cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwasanaethau. Ond, yn rhy aml, nid yw oedolion yn dilyn nac yn gweithredu ar yr ymrwymadau sy'n cael eu gwneud.

I gloi, rwy'n gobeithio fod effaith yr Adroddiad Blynyddol yma'n gadarnhaol a'i fod yn mynd yn sail i'r gwaith o ddatblygu polisïau, ac yn lledaenu arfer dda. Gobeithio hefyd y bydd yn ateb ei brif ddiben, sef disgrifio perfformiad y system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Gan edrych i'r dyfodol, rwy'n benderfynol o gynyddu effaith Estyn trwy sicrhau gwelliannau i ddysgwyr a thrwy fod yn fwy effeithiol fyth yng nghyswllt pob un o ddibenion craidd gwaith arolygu.

Gyda'r nod o wella'n heffaith a'n heffeithiolrwydd, mae Estyn eisoes yn:

- gweithio gydag arolygiaethau, rheoleiddwyr a chyrrff archwilio eraill i adolygu'n dull o arolygu gwasanaethau i blant a phobl ifanc;
- gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gadarnhau'r cyswllt rhwng arolygu a [Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion](#) a [Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd](#) y Cynulliad; ac yn

- gofalu bod y medrau gan ein gweithlu addysg a hyfforddiant i ymateb i'r hinsawdd mae'r polisïau presennol yn ei chreu.


O 2010 ymlaen, byddwn ni'n newid ein dull o arolygu pob sector. Rydyn ni eisoes yn cymryd rhan mewn proses eang o ymgynghori cyhoeddus ynglŷn â'r newidiadau yma.

Mae'n bendant y byddwn ni'n dal i ganolbwyntio ar arsylwi safonau addysg a dysgu'n uniongyrchol, a byddwn ni'n cyfateb arolygiadau i'r angen i ymyrryd a chynorthwyo. Ein nod yw cynnwys ymarferwyr presennol yn gadarnach yn y broses arolygu, ac adeiladu'n fwy uniongyrchol ar asesiadau darparwyr o'u perfformiad eu hunain. Byddwn ni'n dal i roi sylw i farn dysgwyr a rhieni ynglŷn â'u haddysg a'u hyfforddiant.

[Rwy'n eich annog i'n helpu i wella'n harolygiadau trwy gyfrannu'n uniongyrchol at yr ymgynghoriad.](#)

Yn y cyfamser, rwy'n gobeithio y byddwch chi'n teimlo bod yr adroddiad hwn yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol.

Mae pob croeso i chi gysylltu â mi ar prif-arolygydd@estyn.gsi.gov.uk os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr adroddiad yma.



Dr Bill Maxwell

*Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*

Gwybodaeth am Estyn	1	Ysgolion cynradd	19
Adran 1: Yr heriau allweddol wrth wella addysg a hyfforddiant yng Nghymru	4	Safonau	19
Gwneud yn siŵr bod dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais yn gallu cyrraedd eu potensial	5	Ansawdd addysg a hyfforddiant	22
Gwneud yn siŵr bod darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i atal anfantais	7	Arweinyddiaeth a rheolaeth	25
Gwneud yn siŵr bod mwy o ddisgyblion yn cyrraedd y safonau uchaf o gyflawni	8	Ysgolion uwchradd	27
Gwneud yn siŵr ein bod ni'n diwallu anghenion dysgwyr dwyieithog	10	Safonau	27
Gwneud yn siŵr bod dulliau hunanarfarnu a gwella effeithiol ar waith ar draws pob sector	12	Ansawdd addysg a hyfforddiant	33
Gwella'r data perfformiad sydd ar gael a gwella'r defnydd ohono	14	Arweinyddiaeth a rheolaeth	35
Datblygu medrau ar gyfer gweithio mewn partneriaethau	16	Ysgolion arbennig (gan gynnwys ysgolion a cholegau arbennig annibynnol)	37
Adran 2: Addysg a hyfforddiant	17	Safonau	37
Cynnydd wrth wella ansawdd ym mhob un o'r sectorau rydyn ni'n eu harolygu	17	Ansawdd addysg a hyfforddiant	38
Addysg i blant dan bump oed mewn lleoliadau ac ysgolion na chynhelir	17	Arweinyddiaeth a rheolaeth	39
Safonau	17	Unedau cyfeirio disgyblion	40
Ansawdd addysg a hyfforddiant	18	Safonau	40
Arweinyddiaeth a rheolaeth	18	Ansawdd addysg a hyfforddiant	41
		Arweinyddiaeth a rheolaeth	42

Rheolaeth awdurdodau lleol o swyddogaethau addysg	42	Dysgu oedolion yn y gymuned	58
Rheolaeth strategol gwasanaethau addysg awdurdodau lleol	44	Safonau	58
Gwella ysgolion	45	Ansawdd addysg a hyfforddiant	59
Mynediad a threfniadaeth ysgolion	46	Arweinyddiaeth a rheolaeth	60
Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	47	Addysg bellach	61
Hyrwyddo cynhwysiant a lles cymdeithasol	48	Safonau	61
Perfformiad ysgolion ar draws yr holl awdurdodau lleol	49	Ansawdd addysg a hyfforddiant	62
Ysgolion sy'n peri pryder	50	Arweinyddiaeth a rheolaeth	63
Cymariaethau TGAU	52	Dysgu yn y gwaith	64
Gwasanaethau cymorth ieuenctid	54	Safonau	64
Safonau	54	Ansawdd addysg a hyfforddiant	65
Ansawdd addysg a hyfforddiant	54	Arweinyddiaeth a rheolaeth	66
Arweinyddiaeth a rheolaeth	55	Yr Adran Gwaith a Phensiynau	67
Y system cyfiawnder ieuenctid	56	Safonau	68
Safonau	56	Ansawdd addysg a hyfforddiant	68
Ansawdd addysg a hyfforddiant	57	Arweinyddiaeth a rheolaeth	69
Arweinyddiaeth a rheolaeth	57		

Dysgu oedolion sy'n troseddu	69	Adran 3: Addysg a hyfforddiant – a yw'n addas i'r diben?	78
Safonau	69	Canfyddiadau arolygon ar gyfer y flwyddyn	
Ansawdd addysg a hyfforddiant	70	Arfer orau mewn medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3	78
Arweinyddiaeth a rheolaeth	70	Cau'r bwch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion	79
Cwmnïau Gyrfa Cymru	71	Diwallu anghenion dysgu plant a phobl ifanc sy'n troseddu	79
Safonau	71	Addysg mewn cartrefi plant	80
Ansawdd addysg a hyfforddiant	72	Cymryd rhan – diwallu anghenion dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu cymedrol mewn canolfannau adnoddau sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd	80
Arweinyddiaeth a rheolaeth	72	Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE): effaith mwy o alw	81
Ysgolion annibynnol (heb gynnwys ysgolion arbennig annibynnol)	73	Defnyddio data perfformiad mewn awdurdodau lleol ac ysgolion	81
Safonau	73	Pobl ifanc, cyfranogiad a chynghorau ysgol	82
Ansawdd addysg a hyfforddiant	74	Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn lleoliadau dysgu oedolion yn y gymuned a lleoliadau gwaith ieuencid	83
Arweinyddiaeth a rheolaeth	75	Cynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion ar waith	83
Hyfforddiant cychwynnol athrawon	76	Strategaethau effeithiol i weld dysgwyr yn cyflawni medrau allweddol o fewn fframweithiau cymwysterau	84
Safonau	76		
Ansawdd addysg a hyfforddiant	76		
Arweinyddiaeth a rheolaeth	77		

Bwyd a ffitrwydd – pa mor dda y mae ysgolion yn annog ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn iach ac yn weithgar	84	Geirfa	92
Uno'r ffiniau mewn dysgu oedolion yn y gymuned	85	Atodiadau	108
Effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ddatblygu'r cwricwlwm	85	Atodiad 1: Darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru	108
Pontio'r bwlch – cynllunio'r cyfnod pontio	86	Atodiad 2: Canlyniadau arolygiadau Estyn 2007-2008;	
Effaith RAISE ('Gwella cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg')	86	a: Graddau a gafodd eu dyfarnu i bob darparwr a gafodd ei arolygu yn ystod y flwyddyn yma	118
Ysgolion sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau sy'n canolbwyntio ar gymunedau	87	b: Graddau a gafodd eu dyfarnu i bob gwern a gafodd ei harolygu, fesul pwnc neu faes dysgu	150
Dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14-19 oed	88		
Arolygiadau ardal	88		
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr 14-19 oed	89		
Cefnogi Llwybrau Dysgu 14-19 – Gyrfa Cymru	90		
Addysg gwyddoniaeth i ddysgwyr 14-19 oed	90		
Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4	91		

Gwybodaeth am Estyn

- 1 Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu Estyn, ond rydyn ni'n annibynnol ar y Cynulliad. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- 2 Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:
 - ysgolion a lleoliadau meithrin sy'n cael eu cynnal neu eu hariannu gan awdurdodau lleol (ALLau);
 - ysgolion cynradd;
 - ysgolion uwchradd;
 - ysgolion arbennig;
 - unedau cyfeirio disgyblion;
 - ysgolion annibynnol;
 - addysg bellach;
 - dysgu oedolion yn y gymuned;
 - gwasanaethau cymorth ieuencid;
 - hyfforddiant ieuencid a gwaith cymunedol;
 - awdurdodau lleol;
 - addysg a hyfforddiant athrawon;
 - dysgu yn y gwaith;
 - cwmnïau gyrfa;
 - dysgu troseddwy; ac
 - elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi sy'n cael eu hariannu gan yr [Adran Gwaith a Phensiynau](#).
- 3 Cyfeiriwch at atodiad 1 i gael mwy o wybodaeth am y [darparwyr](#) hyn.
- 4 Nod uniongyrchol ein gwaith arolygu yw codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant ar draws Cymru. Mewn nifer o sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill i arolygu darpariaeth. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth ag [Ofsted](#) i arolygu tri choleg arbennig yng Nghymru a darpariaeth dysgu yn y gwaith sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae ein harolygwyr yn cysylltu ag [AGGCC](#) i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel [awdurdodau lleol](#). Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau, dan arweiniad [Arolygiaeth Prawf EM](#), [timau troseddau ieuencid](#) (TTI) yng Nghymru, ac rydyn ni'n ymuno ag [Arolygiaeth Carchardai EM](#) ac Ofsted i arolygu sefydliadau ar gyfer [troseddwy ifanc](#) yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o bobl ifanc o Gymru. Hefyd, rydyn ni'n cynnwys arolygwyr o [Swyddfa Archwilio Cymru](#) pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol.
- 5 Am y tro cyntaf eleni, Estyn yw'r arweinydd yng Nghymru ar gyfer arolygu dysgu i droseddwy. Rydyn ni wedi arolygu'r dysgu mewn tri o garchardai Cymru a phob un o'r pedwar maes [prawf](#).
- 6 Rydyn ni hefyd yn rhoi cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i gylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae ein cyngor yn cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisiau a mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

- 7 Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Eleni fe gynhalion ni dair cynhadledd fawr ar y Llwybrau Dysgu 14-19, llythrennedd a [chynhwysiant](#). Gallwn ni edrych ar safonau ac ansawdd ar draws pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru o safbwynt unigryw ac annibynnol, ac mae hyn yn cyfrannu at y polisiau ar gyfer addysg a dysgu gydol oes sydd wedi'u cyflwyno ar draws Cymru.
- 8 Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dull o weithio, dilynwch y ddolen yma: www.estyn.gov.uk
- 9 Pan fyddwn ni'n arolygu rydyn ni'n defnyddio'n Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru (ac eithrio ar gyfer arolygiadau o wasanaethau awdurdod addysg lleol). Mae saith o gwestiynau allweddol wedi'u trefnu o dan y penawdau sy'n dilyn.

Safonau

- 1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Ansawdd addysg a hyfforddiant

- 2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?
- 3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?
- 4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?
- 6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?
- 7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?
- 10 Pan fyddwn ni'n cynnal ein harolygiadau, rydyn ni'n defnyddio'r raddfa pum pwynt sy'n dilyn fel arwydd o'n barn (ac eithrio ar gyfer arolygiadau o wasanaethau awdurdod addysg lleol).

Gradd 1	Da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	Llawer o ddiffygion pwysig

- 11 Mewn gwasanaethau awdurdod addysg lleol, rydyn ni'n defnyddio'r graddau sy'n dilyn fel arwydd o'n barn mewn perthynas â dau gwestiwn:

Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?	
Gradd 1	Da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	Diffygion mewn meysydd pwysig

A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?	
Gradd 1	Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, gyda gwelliannau sylweddol eisoes ar waith
Gradd 2	Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, heb unrhyw rwystrau pwysig
Gradd 3	Rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig
Gradd 4	Llawer o rwystrau pwysig at wella

- 12 Mae'r siartiau yn atodiad 2a yn dangos y graddau a gafodd eu dyfarnu ar sail pob cwestiwn allweddol yn y 474 o ddarparwyr y gwnaethon ni eu harolygu a'u hailarolygu yn ystod 2007-2008. Mae'r holl wybodaeth yma ar gael yn barod yn ein hadroddiadau arolygu sydd wedi'u cyhoeddi a gallwch eu gweld nhw ar ein gwefan.

Y cylch arolygu

- 13 Dechreuodd y cylch arolygu yma yn 2004-2005. Mae'n gylch chwe blynedd a fydd yn dod i ben ym mis Awst 2010.

Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau

- 14 Y geiriau a'r ymadroddion yng nghlofn chwith y tabl sy'n dilyn yw'r rheini'r ydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy cywir.

Bron bob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	agos at 50%
Lleiafrif	o dan 40%
Ychydig	o dan 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

- 15 Mae ffigurau yn y siartiau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Mae'n bosib na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% felly.

Adran 1: Yr heriau allweddol wrth wella addysg a hyfforddiant yng Nghymru

- 16 Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad clir i gyflawni safonau uchel mewn addysg a hyfforddiant er mwyn gwneud yn siŵr y gall dinasyddion Cymru wireddu'u potensial llawn. Yn [Cymru'n Un](#), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer Cymru ffyniannus a hyderus lle mae dysgu'n broses gydol oes a lle mae gan bob dinesydd hawl i fynd at y dysgu a'r hyfforddiant y mae eu hangen amyn nhw.
- 17 Yn 2001, roedd 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn amlinellu agenda uchelgeisiol ar gyfer gweddnewid addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r ddogfen a ddaeth ar ei hôl yn 2006, [Gweledigaeth ar Waith](#), yn cadarnhau'r uchelgais yma a rôl allweddol dysgu gydol oes. Mae'n cynnwys mesurau sy'n ceisio lleihau tlodi ac anfantais a rhoi'r gweithlu i Gymru sy'n angenrheidiol ar gyfer yr 21ain ganrif. Ers cyhoeddi'r dogfennau yma, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi canolbwyntio ar roi dewis o strategaethau allweddol ar waith a rhoi arweiniad i ddarparwyr gyda'r nod o ofalu y gall pob dysgwr yng Nghymru gyfrannu'n effeithiol at fywyd y wlad. Ymhlith y prif strategaethau a'r polisiau y mae:
- [Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau](#);
 - [Ymestyn Hawliau](#);
 - [Cynhwysiant a chynorthwyo disgyblion](#);
 - [Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion](#);
 - [Y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd](#) ar gyfer dysgu ôl-16;
 - [Iaith Pawb](#);
 - [Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru](#);
- [Llwybrau Dysgu 14-19](#); a'r
 - [Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru](#).
- 18 Mae hwn yn agenda eang a heriol sy'n ceisio dod â newid sylweddol yn ansawdd addysg a hyfforddiant i ddysgwyr yng Nghymru, a gwelliant sylweddol yn y canlyniadau y maen nhw'n eu cyflawni. Eleni'n benodol, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'i bwriad i ddatblygu Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd cyfochrog ar gyfer dysgu ôl-16. Mae'n rhy gynnar i roi barn ynglŷn â'u heffaith, ond mae darparwyr yn dechrau ystyried y fframweithiau yma wrth gynllunio.
- 19 Yn yr adran yma, rydyn ni'n tynnu sylw at rai o'r prif heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw'n llwyddiannus os yw'r weledigaeth yma ar gyfer gweddnewid addysg a hyfforddiant yng Nghymru i gael ei chyflawni. Rydyn ni'n tynnu ar rai themâu allweddol sy'n codi o'n dadansoddiad o berfformiad darparwyr addysg a hyfforddiant yn 2007-2008, ac ar y broses o ddadansoddi'r dystiolaeth o'n gwaith arolygu a'n cylch gwaith ar draws yr holl sectorau. Rydyn ni'n ceisio edrych mewn ffordd integredig ar bob un o'r sectorau'r ydyn ni'n eu harolygu. Yn nes ymlaen yn yr adroddiad rydyn ni'n cynnig sylwadau mwy penodol ynglŷn â'r cynnydd mae darparwyr addysg a hyfforddiant a'u partneriaid yn ei wneud wrth geisio cyflawni rhai o'r heriau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u hamlinellu.


Gwneud yn siŵr bod dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais yn gallu cyrraedd eu potensial

- 20 Mae cyswllt cadarn a pharhaus rhwng tlodi a [chyrhaeddiad](#) addysgol isel. At ei gilydd, mae plant o deuluoedd tlodach yn fwy tebygol o lawer o gyflawni ar lefelau is na disgyblion eraill. Oherwydd hyn, mae'n aml yn anoddach i'r disgyblion yma gael swyddi sy'n gofyn am fedrau ar lefel uchel neu i symud ymlaen at addysg bellach neu addysg uwch. Mae plant o gefndiroedd heb fedrau bum gwaith yn llai tebygol na'r rheini o gefndiroedd cefnog o fynd ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch.¹ Hefyd, mae pobl ifanc o gefndiroedd dan anfantais yn ganran anghyfartal o uchel o bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ([NEET](#)).
- 21 Mae llawer o ffactorau'n cyfuno i gynnal y cysylltiad negyddol parhaus yma rhwng anfantais gymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol. Efallai fod plant yn byw mewn tai gorlawn ac annigonol. Efallai mai prin oedd cyswllt eu rhieni ag addysg ac mae diffyg modelau da a chadarnhaol yn gallu gwneud disgwyliadau'r plant eu hunain yn isel. Mae merched o gartrefi tlawd yn fwy tebygol o fynd yn feichiog yn eu harddegau ac mae bechgyn o gartrefi tebyg yn fwy tebygol o droseddu. Gallai fod yn frwydr i'r plant yma fynd at adnoddau, gweithgareddau a chyfleoedd yn yr ysgol a'r tu allan iddi.
- 22 Mae'r gyfran o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn un dangosydd procsi defnyddiol o anfantais gymdeithasol. Mae bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi'i seilio'n uniongyrchol ar incwm isel yn y cartref. Yn 2006-2007, roedd gan 17.4% o ddisgyblion (67,559) o oed ysgol statudol hawl i gael prydau ysgol am ddim.
- 23 Ym mhob [cyfnod allweddol](#), mae'r garfan o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gryn dipyn yn waeth na gweddill y disgyblion, o'u cymharu yn erbyn dewis o ddangosyddion perfformiad.
- 24 Er enghraifft, yn 2007, enillodd 27% o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ac sydd ym mlwyddyn olaf addysg orfodol (Blwyddyn 11) bump neu fwy [TGAU](#) graddau A* i C. Mae hyn yn cymharu â 56% o ddisgyblion sydd heb hawl i gael prydau ysgol am ddim. Dim ond 16% o'r garfan prydau ysgol am ddim a enillodd y [dangosydd pwnc craidd](#) ar ddiwedd Blwyddyn 11 o gymharu â 41% o'r rheini sydd heb hawl i gael prydau ysgol am ddim.

¹ 'Mynd i'r Afael â Thlodi Ymysg Plant yng Nghymru: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion', Dileu Tlodi Plant Cymru a Phlant yng Nghymru, 2006

Siart 1: Cyfran y dysgwyr 16 oed sy'n methu ennill 5+ TGAU a data lefel ysgolion ar brydau ysgol am ddim

Er bod y bylchau wedi mynd yn llai yn ystod yr 1990au hwyr, mae cyswllt cryf o hyd rhwng canlyniadau TGAU ac amddifadedd



25 Wrth geisio cau'r bwloch yma, mae'n hanfodol na ddylai tlodi neu anfantais gymdeithasol fyth arwain at ddisgwyliadau is neu addysgwyr yn derbyn yn oddefol mai tynged unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc yw tangyflawni. Er bod y cyswllt yma'n gadarn, rydyn ni'n gwybod y gall plant o gefndiroedd cymharol dlawd gyflawni ar y lefel uchaf, a bod rhai yn llwyddo i gyflawni. Ar ben hynny, mae ysgolion sy'n gwasanaethu cymdogaethau dan anfantais hefyd yn gallu perfformio'n well nag ysgolion sydd â dalgyloedd cymharol gefnog.

26 I godi safonau a gwella tegwch yng Nghymru, mae'n hanfodol bod pob darparwr yn dysgu o'r arfer fwyaf llwyddiannus. Rhaid hybu llwyddiant addysgol dysgwyr sydd dan anfantais gymdeithasol, a chau'r bwloch rhwng eu cyflawniadau a chyflawniadau'r rheini o gefndiroedd â mwy o fantais.

27 Eleni, wrth arfarnu menter RAISE Llywodraeth Cynulliad Cymru, fe welon ni rywfaint o arfer effeithiol sydd yn amlwg yn fuddiol i'r disgyblion sy'n cael eu targedu o gartrefi dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mewn llawer o achosion, llwyddod y disgyblion a gafodd eu targedu i wella ansawdd eu gwaith, ac i wella'u hymddygiad a'u hagwedd trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau RAISE.

28 Er hynny, fe wnaethon ni ganfod hefyd nad oedd ysgolion a gymerodd rhan yn y prosiect yn rhoi digon o sylw'n aml i olrhain pa mor dda yr oedd eu disgyblion dan anfantais gymdeithasol yn perfformio o gymharu â gweddill y garfan. Roedden nhw'n tueddu i ganolbwyntio gormod ar is-set o ddisgyblion a oedd yn amlwg yn perfformio ar lefel isel yn addysgol. Oherwydd y pwyslais yma ar ddisgyblion y mae eu cyrhaeddiad yn isel iawn, roedd mwy o fechgyn na merched yn y grwpiau RAISE, er bod tua'r un gyfran o ferched a bechgyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nid yw ysgolion yn canolbwyntio'n ddigon aml ar hybu cyrhaeddiad merched sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim os ydyn nhw'n barod yn perfformio ar lefel gymedrol o leiaf, er y gallai hynny olygu cryn dipyn o dangyflawni i'r unigolion dan sylw.

29 Mae angen, felly, i ysgolion ac awdurdodau lleol wella o ran adnabod dysgwyr dan anfantais gymdeithasol o bob gallu a allai fod yn tangyflawni, a gwneud mwy i'w helpu. Rhaid gwneud defnydd gwell o'r [data perfformiad](#) a'r mathau eraill o wybodaeth am gefndiroedd disgyblion sydd ar gael iddyn nhw. Mae'n bryd i ysgolion gydnabod dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais gymdeithasol fel grŵp sy'n agored i niwed ac sy'n fwy tebygol o lawer o dangyflawni o gymharu â dysgwyr eraill. Rhaid iddyn nhw roi llawer mwy o sylw i'r grŵp nag sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

Gwneud yn siŵr bod darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i atal anfantais

30 Mae'n bwysig cydnabod hefyd, wrth gwrs, na all ysgolion ddatrys holl broblemau anfantais gymdeithasol ar eu pennau'u hunain. Mae angen iddyn nhw weithredu ar y cyd ag asiantaethau cymorth lleol eraill sy'n gweithio gyda phlant, teuluoedd a chymunedau. Yn rhy aml, rydyn ni'n gweld fod ysgolion RAISE yn gweithio ar wahân i'w gilydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, rydyn ni'n gweld nad yw ysgolion RAISE yn ymwneud yn ddigon gweithredol â gwasanaethau awdurdod lleol eraill, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol i ddylanwadu ar amgylchedd y cartref a'i wella. Mae ein harolygiadau o wasanaethau cymorth ieuencid yn gweld hefyd nad yw gwasanaethau i helpu'r plant a'r bobl ifanc yma wedi'u cydlynu'n dda. Nid yw darparwyr yn gweithio'n strategol gyda'i gilydd yn aml i gynllunio sut mae cyflwyno gwasanaethau. Rydyn ni'n gweld yn aml mai golwg weddol gul sydd gan ysgolion ac adrannau awdurdodau addysg lleol o waith

amlasiantaeth. Yn benodol, maen nhw'n tueddu i fod heb drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer gweithio mewn partneriaethau gyda gwasanaethau iechyd cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol.

31 Mae llawer o'n harolygiadau, er enghraifft arolygiadau o wasanaethau cymorth ieuencid, unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth i droseddwr ifanc, yn dangos hefyd nad yw dysgwyr o gefndiroedd tlawd yn aml yn cymryd mantais lawn o'u hawl i addysg. Y ffactorau economaidd-gymdeithasol yr amlinellon ni'n gynharach yw'r rheswm am hyn. Er gwaetha'r gwaith da mewn mentrau a phrosiectau penodol, yn aml nid oes llawer o gefnogaeth i'r dysgwyr yma. Fel hyn, mae dysgwyr o gartrefi incwm isel, [plant sy'n derbyn gofal](#), teithwyr, rhieni ifanc a throseddwr ifanc yn disgyn drwy'r bylchau yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant.

32 Mae gwasanaethau sydd â phwyslais cymunedol a chyfleusterau mewn ysgolion wedi ehangu'r dysgu y tu allan i oriau ysgol sydd ar gael mewn llawer o ardaloedd ar draws Cymru. Ond gan mai nod y fenter yw adeiladu ar arfer dda bresennol, mae ei heffaith yn fylchog. Nid oedd y fenter [ysgolion bro](#) yn targedu ysgolion lle mae amddifadedd yn ddrwg yn y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Canlyniad hyn yw nad yw'r fenter wedi gwneud digon i leihau'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrrhaeddiad addysgol isel.

33 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru nawr wedi gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i lunio [Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc](#) (CPPI). Y nod yw ceisio dod â'r holl strategaethau cymunedol, y cynlluniau datblygu lleol a'r strategaethau iechyd, gofal

cymdeithasol a lles sy'n effeithio ar bobl ifanc 0 i 25 oed, dan un fframwaith strategol, cyffredinol.

- 34 Mae cydweithredu ar draws ffiniau sefydliadol traddodiadol i wella dewis, ansawdd a phriodoldeb darpariaeth yn parhau'n un o'r ffactorau allweddol wrth geisio helpu pobl ifanc i ymwneud mwy. Er enghraifft, mae hanner y bobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd (rhyw 6,000 o bobl ifanc) wedi bod yn gysylltiedig fel arfer ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ryw bwynt. Mae 'Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn nodi mai "cynladwyedd y dewisiadau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar gyfer y bobl ifanc hynny y mae angen i ni ei wella, yn genedlaethol ac yn lleol".
- 35 Mae'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd yn newid yn araf o ganlyniad i'r mentrau sy'n llifo o'r Llwybrau Dysgu 14-19. Mae dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd galwedigaethol naill ai yn eu hysgol eu hunain, mewn coleg addysg bellach lleol neu gyda darparwr dysgu yn y gwaith. Mae'r mentrau yma'n cymryd gormod o amser i sefydlu'n llawn mewn llawer o awdurdodau lleol. Ond maen nhw'n bwysig os yw pobl ifanc i gael cwricwlwm sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn ac sy'n helpu i fynd i'r afael â materion dadrithio ac ymddieithrio sydd yn aml yn eu cymell i adael neu osgoi cyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Gwneud yn siŵr bod mwy o ddisgyblion yn cyrraedd y safonau uchaf o gyflawni

- 36 Mae'n amlwg bod tlodi a ffactorau niweidiol eraill yn gallu effeithio'n ddrwg ar gyflawni a'u bod nhw'n arwain at niferoedd sylweddol

o ddisgyblion yn cyflawni ar lefelau isel iawn yn unig. Ond mae ffurfiau llai amlwg o dangyflawni hefyd. Efallai nad yw plant sy'n edrych fel pe baen nhw'n cyflawni'n gymharol dda bob amser yn cyflawni i'w llawn botensial.

- 37 Mae mwy a mwy o dystiolaeth arolygu a thystiolaeth ystadegol yn dangos fod problem benodol gan system addysg Cymru i fynd i'r afael â hi mewn perthynas â'r ffurf lai amlwg yma o dangyflawni. Mae'r broblem yma'n golygu bod rhy ychydig o ddisgyblion Cymru'n cyrraedd y safonau cyflawni uchaf wrth iddyn nhw symud drwy'r system ysgol.
- 38 Mae nifer o ddadansoddiadau o ddata cyrhaeddiad sy'n canolbwyntio ar y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni safonau sy'n uwch na'r disgwyl ar gyfer disgyblion o'r un oed², yn darlunio'r broblem yna'n glir.
- 39 Mae adroddiad cenedlaethol Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2006³ ar gyflawniad plant 15 oed yn dangos fod cyfran y myfyrwyr yng Nghymru y dangoswyd eu bod ar y lefelau cyflawniad uchaf, islaw'r cyfartaledd ar gyfer gwledydd y [Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd](#) mewn darllen a mathemateg.
- 40 Mewn asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae disgwyl i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 neu uwch, ac mae disgwyl i ddisgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

² Mae disgwyl i'r rhan fwyaf o blant gyflawni lefel 4 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ond mae'n bwysig cofio y bydd plant gwahanol yn cyflawni ar gyflymder gwahanol. I rai plant, gall perfformiad islaw'r lefel ddisgwyliedig fod yn gyflawniad anferthol, a gellid disgwyl i blant eraill gyflawni gryn dipyn yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig.

³ [Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr](#) 'Cyflawniad plant 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2006'

Siart 2: Canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch yn y pynciau craidd yn 2005 a 2008

	Lefel 5 neu uwch (%)		
	2005	2008	Gwahaniaeth
Saesneg	31.4	28.5	-2.9
Cymraeg	25.8	23.6	-2.2
Mathemateg	31.6	30.0	-1.6
Gwyddoniaeth	34.3	31.7	-2.6

41 Ers dechrau'r cylch arolygu yma yn 2005, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi gostwng ym mhob un o'r pynciau craidd.


42 Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae disgwyl i ddisgyblion gyrraedd lefel 5 neu uwch, ac mae disgwyl i ddisgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu uwch.

Siart 3: Canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 sy'n cyrraedd lefel 6 neu uwch yn y pynciau craidd yn 2005 a 2008

	Lefel 6 neu uwch (%)		
	2005	2008	Gwahaniaeth
Saesneg	31.8	32.4	0.6
Cymraeg	39.8	35.1	-4.7
Mathemateg	48.2	43.6	-4.6
Gwyddoniaeth	38.7	38.1	-0.6

- 43 Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 neu uwch wedi cynyddu ychydig mewn Saesneg ac wedi gostwng ychydig mewn gwyddoniaeth. Ond mae wedi gostwng yn sylweddol, o bron i bum pwynt canran, mewn Cymraeg a mathemateg.
- 44 Mae cymharu'r ganran o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sy'n cyflawni un lefel neu fwy uwchlaw'r lefel sy'n cael ei disgwyl yng Nghymru a Lloegr yn 2008⁴ yn dangos fod canran is o ddisgyblion mwy galluog yng Nghymru'n cyflawni'r lefelau uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth na grwpiau tebyg o ddisgyblion yn Lloegr.

Siart 4: Canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 6 neu uwch mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yng Nghymru a Lloegr



⁴ Lefelau profion diwedd cyfnod allweddol 3 yw'r ffigurau ar gyfer Lloegr. Lefelau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yw'r ffigurau ar gyfer Cymru.

- 45 Pan edrychwn ni ar gyrhaeddiad mewn arholiadau ffurfiol, rydyn ni'n gwybod fod cyrhaeddiad mewn TGAU a [Safon Uwch](#) yng Nghymru wedi cynyddu'n gyffredinol. Rhwng 2004 a 2007, mae canran yr ymgeiswyr TGAU sy'n ennill Graddau A* i C wedi cynyddu o 60% i 65%. Mae canran yr ymgeiswyr Safon Uwch sy'n ennill graddau A i C wedi codi o 74% i 76%. Er hynny, dros yr un cyfnod, dim ond o un pwynt canran, i 19%, y mae'r gyfran o ymgeiswyr sy'n ennill y graddau uchaf (A*/A ar gyfer TGAU ac A ar gyfer Safon Uwch) wedi cynyddu ar gyfer TGAU, ac mae wedi gostwng o un pwynt canran i 24% ar gyfer Safon Uwch.
- 46 Wrth edrych yn benodol ar sut y mae awdurdodau lleol yn datblygu strategaethau i gyfoethogi profiadau dysgu dysgwyr mwy galluog a dawnus, fe welon ni mai dim ond hanner yr awdurdodau a gafodd eu harolygu eleni sydd â strategaethau da neu dda iawn ar waith. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gan ychydig o awdurdodau lleol gysylltiadau â cholegau i ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn cynnig mwy o bynciau y tu allan i'r cwricwlwm cenedlaethol, fel y gyfraith, economeg a seicoleg.
- 47 Nid oes unrhyw fentrau gan ychydig o awdurdodau i ofalu bod disgyblion mwy galluog a dawnus yn gallu datblygu'u galluedd yn llawn. Mae angen rhoi sylw i hyn fel mater o flaenoriaeth.
- 48 Ar lefel genedlaethol, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n pennu safonau ansawdd⁵ mewn cylchlythyr diweddar er mwyn gwella'r ffordd y mae darparwyr yn diwallu anghenion disgyblion mwy galluog

a dawnus. Mae'n rhy gynnar i bwysu a mesur effaith y safonau ansawdd yma, ond byddwn ni'n parhau i fonitro ac i adrodd ar y cynnydd, gan fod hwn yn fater pwysig.

Gwneud yn siŵr ein bod ni'n diwallu anghenion dysgwyr dwyieithog

- 49 Mae datblygu system addysg a hyfforddiant sy'n addas ar gyfer gwlad ddwyieithog yn cynnig cyfleoedd ac yn codi heriau. Mae hwn yn parhau'n faes sy'n gofyn am ganolbwyntio'n gadarn er mwyn gyrru gwelliant yn ei flaen.
- 50 Mewn arolygiadau, rydyn ni'n gweld bod darpariaeth rhyw ddwy ran o dair o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn dda o ran datblygu dwyieithrwydd disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg. Dim ond mewn rhyw hanner yr ysgolion uwchradd y mae darpariaeth dda. Yn y sectorau addysg a hyfforddiant eraill, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dwyieithrwydd dysgwyr wedi datblygu gymaint.
- 51 Mae safonau mewn dwyieithrwydd yn dda mewn ychydig dros hanner yr holl ysgolion y buon ni'n eu harolygu eleni, ond maen nhw wedi gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae disgyblion yn dal i gyrraedd safonau is mewn dwyieithrwydd o gymharu â [medrau allweddol](#) eraill yn yr ysgolion hynny lle mae Cymraeg yn cael ei addysgu fel ail iaith.
- 52 Ar draws y wlad yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 yn

⁵ Ymateb i'r Her: Safonau Ansawdd Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Dawnus' – Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 006/2008; dyddiad cyhoeddi: Mai 2008

parhau â'u haddysg yn Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Ond, mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae gormod o ddisgyblion sy'n cael addysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn dewis peidio â pharhau ag addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.

- 53 Mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, mae llawer o wendidau hefyd yn y ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg. Yn benodol, does dim digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio Cymraeg mewn pynciau eraill, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Y diffyg mwyaf cyffredin mewn llawer o ysgolion cynradd yw nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn Cymraeg wrth iddyn nhw symud o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2.
- 54 Mewn ysgolion uwchradd, mae perfformiad Cymraeg fel ail iaith yn dal yr un mor wan ag yn y blynyddoedd blaenorol, ac mae'n waeth nawr nag yr oedd yn y gorffennol. Fe wnaethon ni adrodd y llynedd bod rhai diffygion pwysig gan bron i hanner y gwaith. Eleni, mae diffygion pwysig mewn dwy ran o dair o waith disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae'r addysgu mewn Cymraeg fel ail iaith yn waeth o lawer nag mewn pynciau eraill.
- 55 Mae 84% o ddisgyblion uwchradd yng Nghymru yn astudio Cymraeg fel ail iaith, ond mae nifer y disgyblion sy'n astudio'r cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg fel ail iaith yn dal i ostwng. Nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud gystal ag y gallen nhw mewn Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 am nad ydyn nhw'n cael digon o amser addysgu, ac mae ansawdd yr addysgu'n wael yn gyffredinol. Mae gormod o ddisgyblion yn methu ennill cymhwyster

cydnabyddedig mewn Cymraeg fel ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Dim ond 76% o'r rheini sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith a gofrestrodd ar gyfer arholiad yn 2007. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud digon i helpu ysgolion i osod targedau ac i ddatblygu strategaethau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4.

- 56 Ers dechrau'r cylch arolygu yn 2004-2005, mae cynnydd wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Yn 2007-2008, roedd 15.7% o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf. Roedd cyfradd gyffredinol y disgyblion a lwyddodd i ennill TGAU mewn Cymraeg fel iaith gyntaf yn 2007-2008 yn dal yn uchel, gyda'r holl ddisgyblion bron yn llwyddo, a bron i dri chwarter o ddisgyblion yn ennill gradd A*-C.
- 57 Mae rhai elfennau strwythurol wir yn rhwystro ehangu darpariaeth Gymraeg. Mae'n anodd i ysgolion a darparwyr eraill gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg am fod diffyg athrawon sy'n gallu addysgu yn Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyrsiau ar gyfer dysgwyr 16-19 oed. Yn y cyd-destun yma, siom yw gweld nad yw 1,113 o staff yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg er eu bod yn gymwys i wneud hynny.⁶ Hefyd, mae llawer o hyfforddeion sy'n dilyn eu cwrs hyfforddiant athrawon cychwynnol trwy gyfrwng y Gymraeg yn dewis peidio â mynd ymlaen i addysgu yn Gymraeg. Mae'r 'cynllun sabothol' yn helpu i wella'r sefyllfa yma. Ond dim ond niferoedd bach o ddarparwyr addysg bellach a dysgu yn y gwaith sydd wedi manteisio ar y cynllun yma.

⁶ Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2008. Mae'r data yma'n cynnwys ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir.

- 58 O ran darpariaeth ôl-16, mae problemau'n bodoli o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn nifer o'r rhannau o Gymru.
- 59 Mae dau ddarparwr addysg bellach y gwnaethon ni eu harolygu eleni'n gwneud cynnydd da iawn o ran cyflwyno cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys helpu [ysgolion cyfrwng Cymraeg](#) lleol i gyflwyno cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Er hynny, at ei gilydd, mae'r nifer o gyrsiau yn y sector addysg bellach lle mae myfyrwyr yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn fach o hyd. Dim ond lleiafrif o'r darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg. Prin iawn yw'r cyfleoedd i Gymru Cymraeg ddysgu trwy'r Gymraeg o hyd yn y ddarpariaeth i droseddwy.
- 60 Mae patrwm tebyg mewn dysgu oedolion yn y gymuned ac yn y gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned yr arolygon ni dros y ddwy flynedd diwethaf yn gwneud cynnydd araf wrth ymestyn yr hyn maen nhw'n ei gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw tri chwarter o ddarparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid yn gwneud digon i gynnig gweithgareddau sy'n helpu pobl ifanc i ddefnyddio a gwella'u medrau yn y Gymraeg.
- 61 Mae rhan allweddol gan bartneriaethau lleol, fel y rheini sy'n cydlynu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, i helpu darparwyr i weithio gyda'i gilydd i ymestyn darpariaeth yn y Gymraeg. Ond nid yw digon o'r partneriaethau yma'n gwneud digon i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar draws yr ardaloedd maen nhw'n eu gwasanaethu. Oherwydd hyn, nid ydyn nhw mewn sefyllfa i osod targedau nac i gynllunio gyda'i gilydd i fynd i'r afael

â materion fel prinder staff dwyieithog. Does dim strategaeth ar lefel genedlaethol i gymorthwyo'r gwaith o osod targedau lleol clir ar gyfer ymestyn addysg a hyfforddiant yn y Gymraeg, ac i fonitro cynnydd yn eu herbyn.

Gwneud yn siŵr bod dulliau hunanarfarnu a gwella effeithiol ar waith ar draws pob sector

- 62 Mae mwy a mwy o ddisgwyliadau bod darparwyr ym mhob sector wedi rhoi trefniadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella effeithiol ar waith. Mewn rhai sectorau, mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i '[ddiwygio ar dair lefel](#)', lle mae darparwyr, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyd yn cyfrannu gyda'i gilydd at y gwaith o yrru gwelliannau mewn ansawdd a safonau yn eu blaen.
- 63 Mae Estyn wedi gwneud llawer dros y blynyddoedd i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu dulliau hunanarfarnu ym mhob un o'r sectorau. Mae ein harolygiadau'n gweld nawr bod y rhan fwyaf o sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru wedi sefydlu prosesau hunanarfarnu sydd wedi'u datblygu'n dda, ac sy'n tynnu'n aml ar Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.
- 64 Mewn ysgolion a gynhelir, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn adnabod cryfderau a gwendidau'u sefydliadau'n dda. Yn gyffredinol, mae gan reolwyr weithdrefnau systematig ar gyfer monitro perfformiad cyffredinol disgyblion yn erbyn dangosyddion cenedlaethol, fel y ganran gyffredinol sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd. Maen nhw'n defnyddio canlyniadau hunanarfarnu i bennu blaenoriaethau'r

- cynllun datblygu ysgol. Mae arsylwi gwersi'n rheolaidd yn cyfrannu'n fawr at systemau hunanarfarnu effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau o arfer dda, mae arweinwyr a rheolwyr yn dadansoddi data ynglŷn â chanlyniadau'n ofalus er mwyn adnabod tanberfformio.
- 65 Mae meysydd amlwg i'w gwella o hyd, hyd yn oed ymhlith y darparwyr gorau. Er enghraifft, rydyn ni'n dal i weld yn aml nad yw rheolwyr yn gwneud digon o ddefnydd o ddata ynglŷn â pherfformiad grwpiau allweddol o ddysgwyr a allai fod yn tangyflawni, fel grwpiau o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais.
- 66 Mae hunanarfarnu'n wannach mewn rhai mathau eraill o ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion arbennig annibynnol a [lleoliadau na chynhelir](#) i blant dan bump oed, nid yw rheolwyr yn defnyddio digon o dystiolaeth uniongyrchol i bennu'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae gan rai ysgolion annibynnol brosesau anffurfiol defnyddiol sy'n galluogi arweinwyr a rheolwyr i bennu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella, ond yn aml iawn nid yw eu trefniadau hunanarfarnu'n ddigon cynhwysfawr na chadarn. Mewn unedau cyfeirio disgyblion, nid yw rheolwyr yn mynd ati'n ddigon cadarn i ganfod yr elfennau sydd angen eu gwella ac i osod targedau ar gyfer gwella.
- 67 Mae'r cwmni gyrfaedd y gwnaethon ni ei arolygu eleni'n enghraifft werthfawr o ganlyniadau da'n deillio o systemau rhagorol o reoli a sicrhau ansawdd, gan gynnwys dull hunanasesu cynhwysfawr a chadarn.
- 68 Yn ddigon tebyg, mae darparwyr addysg bellach yn canolbwyntio'n dda ar wella safonau ac ansawdd, ac mae ganddyn nhw systemau da iawn ar gyfer monitro a gwella ansawdd a safonau. Mae llawer ohonyn nhw'n meincnodi perfformiad o fewn consortia rhanbarthol. Mae'r holl staff bron yn chwarae rhan yn hunanasesiadau rheolaidd y coleg, ac maen nhw'n cyfrannu'n dda at y broses. Maen nhw'n defnyddio adroddiadau hunanasesu i bennu diffygion ac i weithredu'n briodol i wella ansawdd a safonau.
- 69 Mae ansawdd hunanarfarnu mewn dysgu yn y gwaith wedi gwella'n fawr dros y blynyddoedd diweddar. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr bellach yn defnyddio dewis eang o dystiolaeth i ddatblygu adroddiadau hunanasesu a chynlluniau gweithredu trylwyr a llawn gwybodaeth. Ond mae ychydig o ddarparwyr yn dal i'w chael hi'n anodd asesu'u gwaith eu hunain yn feirniadol ac yn arfarnol. Mae darlun tebyg yn narpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r rhan fwyaf o staff yn arfarnu safonau'n briodol ac maen nhw wedi ymrwymo i ddiwylliant o welliant parhaus. Er hynny, mae llawer o'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio'n rhy gul ar faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio, ac nid ydyn nhw'n edrych yn ddigon cyffredinol ar ddulliau o wella safonau ac ansawdd.
- 70 Mae hunanarfarnu o fewn partneriaethau'n her arbennig. Lle mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, er enghraifft mewn [Rhwydweithiau 14-19](#) ac mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, rydyn ni'n gweld fod partneriaid yn aml yn ei chael hi'n anodd barnu ar y cyd ac asesu eu cynnydd eu hunain fel grŵp. Er enghraifft, mae diffygion pwysig mewn sicrhau ansawdd gwasanaethau cymorth ieuencid. Mae adroddiadau hunanasesu'n rhy ddisgrifiadol,

ac nid yw darparwyr yn defnyddio hunanarfarnu na data ynglŷn â chyflawniadau dysgwyr, er mwyn sicrhau gwelliant. Nid yw partneriaid yn defnyddio'u harbenigedd hunanarfarnu ei gilydd i helpu i bennu'r meysydd i'w datblygu mewn ffyrdd cydweithredol. Prosesau huanasesu anaeddfed sydd gan ddarparwyr prawf hefyd. Yn aml, mae'r darparwyr yma'n mesur presenoldeb yn unig, yn hytrach na'r canlyniadau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni.

- 71 Yn y lleoliadau i gyd, dylai hunanarfarniadau a'r gwaith o wella ym mhob sector gael eu seilio ar farn y dysgwyr. Mae angen i rai sectorau wneud llawer mwy o waith datblygu yn hyn o beth. Mae colegau ac ysgolion a gynhelir yn tueddu i ddefnyddio barn dysgwyr yn weddol dda i gyfrannu at y gwaith o hunanarfarnu. Ond mae sectorau eraill yn gofyn i ddysgwyr mewn ffordd llai sysematig i roi eu barn fel sail i brosesau sicrhau ansawdd.

Gwella'r data perfformiad sydd ar gael a gwella'r defnydd ohono

- 72 Mae'r data sydd ar gael ynglŷn â chanlyniadau dysgu, a'r defnydd sy'n cael ei wneud o'r data hwnnw, yn un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu'n drwm ar ansawdd prosesau hunanarfarnu a gwella mewnlol. Yn ei dro hefyd, mae'n dylanwadu ar gwmpas monitro perfformiad yn allanol, a'r angen amdano.
- 73 Mae llawer o enghreifftiau o ddarparwyr yn defnyddio data perfformiad yn effeithiol yn y rhan fwyaf o sectorau. Ond mae diffygion cyffredinol hefyd yn y ffordd mae darparwyr yn defnyddio data, ac yn y gwahanol fathau o data sydd ar gael.

- 74 At ei gilydd, mae ysgolion yn defnyddio data perfformiad yn dda i adnabod eu cryfderau a'u gwendidau ar draws carfannau o ddisgyblion yn gyffredinol, yn enwedig yn y sector uwchradd. Ond fel y soniwyd yn gynharach yn yr adran yma, mae angen i ysgolion ddefnyddio dadansoddiadau o ddata sydd wedi'u targedu'n fwy effeithiol i fonitro gwelliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, fel dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, dysgwyr dan anfantais gymdeithasol a'r rheini y mae perygl iddynt beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae lle hefyd i ddefnyddio data'n well wrth farnu llwyddiant cynlluniau gweithredu. Mae rheolwyr yn aml yn dibynnu gormod ar dystiolaeth anecdotaidd i arfarnu a yw newidiadau yn rhai cadarnhaol i ddysgwyr. Er enghraifft, yn achos mentrau byw'n iach, rydyn ni'n gweld fod y rhan fwyaf o ysgolion yn monitro a yw camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio'n cael eu rhoi ar waith. Ond prin iawn yw'r rhai sydd â systemau cadarn ar gyfer arfarnu effaith eu gwaith i greu newidiadau go iawn yn ymddygiad ac iechyd y disgyblion.
- 75 Mae angen i staff ddefnyddio data asesiadau dysgwyr yn fwy cyson i arwain y gwaith o gynllunio ar gyfer gwella, ac i helpu dysgwyr i ddeall lle mae angen iddyn nhw weithio'n well. Mae diffygion yn yr asesu mewn traean o ysgolion uwchradd. Yn yr achosion yma, nid yw dysgwyr yn gyffredinol yn gwybod sut mae gwella'u gwaith eu hunain. Nid ydyn nhw'n cael digon o adborth o ran sut mae mynd ati i wella. Lle mae disgyblion yn cymryd rhan drwyadl mewn asesiadau gan gyfoedion dan arweiniad athrawon, mae eu perfformiad yn gwella. Mae hwn yn amlwg yn faes pwysig i'w ddatblygu mewn ysgolion, ond mae hefyd yn effeithio ar ychydig o ddarparwyr mewn sectorau eraill. Mae diffygion gan hanner y lleoliadau i blant dan bump oed, er enghraifft, yn y ffordd mae staff yn asesu cynnydd disgyblion, ac yn pennu eu camau gweithredu nesaf.

- 76 Mae'r diffyg data dibynadwy a chadarn ynglŷn â chyrhaeddiad dysgwyr yn fater arall y mae angen rhoi sylw iddo mewn ychydig o sectorau, yn enwedig yn y sector cynradd. Ar hyn o bryd, nid yw asesiadau athrawon yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn ddigon cyson ar draws Cymru. Ar yr ochr gadarnhaol, mae gweithdrefnau ar waith gan y rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol i helpu athrawon i fod yn gyson pan fyddan nhw'n asesu gwaith disgyblion yn y gwahanol bynciau. Mae llawer o athrawon ysgolion cynradd yn cwrdd â'u hysgolion uwchradd partner i drafod a chytuno ar lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol maen nhw'n eu dyfarnu i waith disgyblion. Gan fod hwn yn mynd yn ofyn statudol o fis Medi 2008 ymlaen, dylai hwn gynorthwyo a chryfhau mwy fyth ar asesiadau athrawon. Er hynny, er mwyn sicrhau bod modd gwneud cymariaethau cadarn ar draws awdurdodau lleol neu ar lefel genedlaethol, mae angen system safoni gryfach i wneud yn siŵr bod barn athrawon yn gyson ar draws clystyrau o ysgolion, ardaloedd awdurdodau lleol a Chymru gyfan.
- 77 Mae defnyddio data i gynorthwyo trosglwyddo'n effeithiol i lwybrau dysgu 14-19 yn faes arall y mae angen ei ddatblygu'n sylweddol eto. Er bod cwmnïau Gyrfa Cymru i gyd yn cynhyrchu gwybodaeth o ansawdd da am y farchnad lafur leol a chyrchfannau disgyblion, nid yw pob ysgol na Rhwydweithiau 14-19 yn defnyddio'r wybodaeth yma fel sail i'w gwaith cynllunio. Mae ychydig o ysgolion a rhwydweithiau'n gwneud hyn yn dda, ac mae'r ddealltwriaeth newydd wedi helpu ychydig o awdurdodau lleol i hybu cynnydd yn eu hysgolion, er enghraifft, trwy ymyrryd i gynorthwyo grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae un ysgol yn arbennig wedi defnyddio data ynglŷn â chyrchfannau'n dda i lunio'i chwricwlwm ôl-14, fel bod disgyblion yn cael eu hyfforddi yn ôl tueddiadau'r farchnad lafur leol. Er hynny, fe allai'r rhan fwyaf o ysgolion wneud mwy o ddefnydd o'r data yma.
- 78 Dylai defnydd effeithiol o ddata gyfrannu at gynlluniau partneriaethau ar y lefelau strategol uchaf. Yn yr ychydig o'r partneriaethau lleol mwyaf effeithiol, mae arweinwyr a rheolwyr da'n defnyddio data i bennu'r meysydd mae angen rhoi sylw iddyn nhw ac i flaenoriaethu'r ffordd orau o ddefnyddio'u hadnoddau i wneud gwelliannau ar gyfer dysgwyr. Mae angen i fwy o bartneriaethau wneud hyn. Mae ein dadansoddiad o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc drafft yn dangos mai dim ond rhyw draean o awdurdodau lleol sydd wedi defnyddio dadansoddiad cynhwysfawr o'r data sydd ar gael yn sail i'w cynlluniau a'u blaenoriaethau. Nid yw partneriaethau eraill, fel y rheini sy'n cydlynu dysgu oedolion yn y gymuned, yn aml yn defnyddio data'n effeithiol chwaith i'w helpu i farnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn eu hardal.
- 79 Mewn rhai sectorau, mae diffyg unrhyw ddata cadarn i fonitro cynnydd dysgwyr neu i gymharu perfformiad darparwyr â'i gilydd yn amlwg yn rhwystro unrhyw gynnydd.
- 80 Mewn gwasanaethau cymorth ieuencid ac yn y gwasanaeth ieuencid statudol, ychydig o gynnydd sydd wedi bod o ran tynnu data cenedlaethol neu leol ynghyd ynglŷn â chanlyniadau dysgwyr. Nid yw'n syndod, felly, nad yw'r sectorau yma'n gwneud y defnydd gorau o ddata fel sylfaen ar gyfer gwella ac i dargedu gwelliannau at y man lle mae'r angen fwyaf.

81 Mae cael data cadarn ynglŷn â chanlyniadau ôl-16 wedi bod yn broblem sylweddol yn ddiweddar. Mae data [Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru](#) yn dechrau gwella fel ffordd ddefnyddiol o fonitro safonau ac ansawdd mewn addysg bellach ac mewn addysg oedolion. Dylai hwn fod yn sail ar gyfer defnyddio data'n fwy effeithiol i arfarnu ac i feincnodi perfformiad ar draws y sector.

Datblygu medrau ar gyfer gweithio mewn partneriaethau

82 Mae'r mater olaf sy'n cael ei godi yn yr adran yma'n ymwneud yn uniongyrchol â'r her o weld yr holl ddarparwyr yn datblygu gweithio mewn partneriaethau. Mae'n debyg y bydd hwn yn mynd yn un o nodweddion pwysicaf y ddarpariaeth yn y blynyddoedd nesaf. I weithio fel partneriaethau fod yn effeithiol, mae angen ffyrdd newydd o weithio ac mae angen medrau newydd ar staff.

83 Gan ystyried hyn, rhywbeth y bydd rhaid i ddarparwyr roi sylw iddo wrth greu eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yw datblygiad parhaus gweithwyr proffesiynol y sector iechyd. Ond mae nifer o gynlluniau naill ai heb gynnwys unrhyw dargedau ar gyfer datblygu staff, neu maen nhw'n rhoi prin ddim sylw i'r agwedd bwysig yma. Yn gyffredinol, mae darparwyr yn cynllunio'n well ar gyfer datblygiad staff sy'n diwallu eu hanghenion trefniadol eu hunain nag y maen nhw am weithio mewn partneriaethau i ddiwallu anghenion cyffredinol eu hardal ar sail dadansoddiad o'r bylchau a'r gofynion o ran medrau.

84 Ar lefel y darparwr unigol, mae prosesau da gan y rhan fwyaf ohonyn nhw i gynnal datblygiad staff ac i sefydlu hyfforddiant addas. Er enghraifft, mae llawer o hyfforddwyr mewn dysgu yn y gwaith yn well nawr o ran helpu dysgwyr i wella'u medrau allweddol o ganlyniad i hyfforddiant â ffocws. Mae athrawon mewn ysgolion cynradd yn addysgu addysg gorfforol yn fwy effeithiol oherwydd y cymorth maen nhw wedi'i gael gan y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion. Yn ddigon tebyg, mae gwasanaethau awdurdodau addysg lleol a rheolwyr ysgol yn gwneud defnydd da yn gyffredinol o'r [Gronfa Ysgolion Gwell](#) i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i athrawon er mwyn helpu i wella medrau yn yr ystafell ddosbarth a medrau cwricwlwm.

85 Eleni, rydyn ni wedi gweld mwy o ymrwymiad i gydweithredu ar lefel strategol. Mae gwaith cynlluniau peilot Byrddau Gwasanaethau Lleol ac ysgogiad y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc newydd wedi arwain at ychydig o awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gwneud newidiadau amlwg i'w dulliau gweithio. Er hynny, mae angen i lawer o arweinwyr a rheolwyr ddatblygu medrau ac agweddau arwain newydd ar gyfer gwaith partneriaeth. Mae angen iddyn nhw ddeall mwy am fanteision cydweithredu, cyllidebau wedi'u cyfuno a pherchnogaeth ar y cyd o ganlyniadau i ddysgwyr.

Adran 2: Addysg a hyfforddiant


Cynnydd wrth wella ansawdd ym mhob un o'r sectorau rydyn ni'n eu harolygu

Addysg i blant dan bump oed mewn lleoliadau ac ysgolion na chynhelir

86 Eleni fe wnaethon ni arolygu 96 o'r 772 o leoliadau ac ysgolion na chynhelir yng Nghymru.

Safonau

Siart 5: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau a gafodd eu cyflawni gan blant dan bump oed mewn lleoliadau na chynhelir⁷ 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

87 Mae bron pob un o'r plant mewn ysgolion a lleoliadau na chynhelir (lleoliadau) yn parhau i gyflawni safonau digonol o leiaf yn yr holl feysydd dysgu, ac mae llawer o blant yn cyflawni safonau da. Mae rhywfaint o amrywio o ran ansawdd rhwng ysgolion a lleoliadau. At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth mewn ysgolion yn gryfach yn gyffredinol.

- 88 Mae'r gwaith da y gwelon ni mewn ysgolion a lleoliadau wedi cynyddu ers y llynedd, er bod llai o blant yn cyflawni safonau rhagorol. Fe wellodd canran y plant sy'n cyflawni safonau da o 10 pwynt canran, ond gostyngodd canran y plant sy'n cyflawni safonau rhagorol o chwe phwynt canran.
- 89 Mae'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion a llawer o blant mewn lleoliadau'n gwneud cynnydd da o ran gwella'u medrau iaith. Mae plant yn gwrando'n astud ar storïau addas, maen nhw'n mwynhau dysgu rhigymau a chaneuon, ac maen nhw'n magu hyder wrth ddysgu darllen.
- 90 Mewn ychydig iawn o ysgolion a lleiafrif o leoliadau, mae diffygion mewn defnydd plant o'r Gymraeg ar draws pob maes dysgu. Er enghraifft, nid yw plant yn gwybod llawer o rigymau a chaneuon cyfrif yn Gymraeg.
- 91 Mewn ysgolion, mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio mathemateg yn dda yn eu gweithgareddau bob dydd, ac maen nhw'n defnyddio'u medrau rhif yn dda i ddatrys problemau. Mae safonau plant mewn mathemateg a'u gwybodaeth am y byd a'u dealltwriaeth ohono wedi gwella ers y llynedd. Ond y rhain yw'r meysydd dysgu gwannaf o hyd. Mae ychydig o blant yn methu cyfrif, didoli a chydweddu pethau'n ddigon cywir. Nid ydyn nhw'n deall sut mae defnyddio arian wrth chwarae, ac maen nhw'n amharod i ganfod pethau drostyn nhw'u hunain.

⁷ Mae'r safonau mae dysgwyr dan bump oed wedi'u cyflawni mewn ysgolion wedi'u cynnwys yn y siart ar dudalen 19.

- 92 Mewn lleoliadau, mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau creadigol a chorfforol. Mae'r plant yma'n symud yn hyderus mewn mannau agored, yn dangos rheolaeth dda wrth ddefnyddio pensiliau ac offer bach, ac yn rhoi cynnig ar ddefnyddio paent, creonau a chollage mewn ffyrdd creadigol i wneud lluniau a gwrthrychau.
- 93 Mae'r holl blant bron mewn ysgolion a lleoliadau fel ei gilydd yn dal i gyflawni safonau uchel yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

- 94 Mewn llawer o ysgolion a lleoliadau, mae staff yn siarad llawer â phlant ac maen nhw'n dda o ran gofyn cwestiynau sy'n gwneud iddyn nhw feddwl yn ofalus am yr hyn maen nhw'n ei wneud.
- 95 Yn y nifer mawr o ysgolion a lleoliadau lle mae staff yn llwyddo i helpu plant ddysgu'n effeithiol:
- mae ganddyn nhw ddisgwyliadau uchel o'r hyn y mae plant yn gallu'i wneud;
 - maen nhw'n darparu amgylchedd diogel, ond heriol, sy'n annog y plant i fod yn annibynnol;
 - maen nhw'n gwneud defnydd da o asesu a chynllunio i gynorthwyo ac ymestyn medrau plant, yn enwedig eu medrau siarad a gwrando;
 - maen nhw'n darparu digon o brofiadau uniongyrchol, perthnasol i blant; ac
 - maen nhw'n defnyddio adnoddau, gan gynnwys adnoddau yn yr awyr agored, yn greadigol.

- 96 Mewn rhyw draean o leoliadau, mae diffygion yng ngwaith cynllunio'r staff. Y rheswm pennaf am yw nad yw staff bob amser yn dangos yn ddigon clir yr hyn maen nhw'n awyddus i'r plant ei ddysgu o weithgareddau wedi'u cynllunio.
- 97 Mewn rhyw hanner o'r lleoliadau, mae diffygion yn y ffordd mae staff yn asesu cynnydd plant neu'n defnyddio asesu i bennu'r camau nesaf yn eu dysgu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 98 Mewn llawer o ysgolion a lleoliadau, mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer plant dan bump oed yn dda. Yn gyffredinol, mae arweinwyr a rheolwyr yn seilio unrhyw benderfyniadau ar werthoedd ac egwyddorion cadarn, ac mae ganddyn nhw ymrwymiad pendant i weithio mewn tîm.
- 99 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae hunanarfarnu'n aml wedi'i sefydlu'n dda. Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr gorau yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i wella safonau ac ansawdd.
- 100 Mewn lleiafrif o leoliadau, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio hunanarfarnu i adnabod ffyrdd o wella. Er bod arweinwyr a rheolwyr wedi'u hyfforddi i gynllunio ar gyfer datblygiadau fel y Cyfnod Sylfaen, nid yw staff eraill yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau newydd drwy hyfforddiant. Hefyd, mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn gwirio gwaith staff yn ddigon aml.


- 101 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau'n defnyddio'r lle sydd ar gael a'u hoffer yn dda i hyrwyddo dysgu'r plant. Mewn ychydig iawn o ysgolion ac mewn rhyw draean o leoliadau, nid yw adnoddau yn yr awyr agored yn cael eu defnyddio'n iawn i ddatblygu medrau plant. Er enghraifft, ychydig iawn o gyfleoedd y mae plant yn eu cael i ddefnyddio'r awyr agored i ganfod pethau drostyn nhw'u hunain neu i ymarfer eu medrau corfforol.
- 102 I ddarllen mwy am yr ysgolion a'r lleoliadau y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Ysgolion cynradd

- 103 Eleni fe wnaethon ni arolygu 255 o'r 1,509 o ysgolion cynradd yng Nghymru.

Safonau

Siart 6: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd (canran y gwersi) 2007-2008




- 104 Dros y tair blynedd diwethaf, mae ysgolion cynradd wedi perfformio'n well na'r targed y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod iddyn nhw ar gyfer 2010. Nod y targed yw i ansawdd dysgu, yn ôl y farn mewn arolygiadau, fod yn foddhaol o leiaf mewn 98% o ddosbarthiadau'n gyffredinol. Yn yr ysgolion meithrin a'r ysgolion cynradd y gwnaethon ni eu harolygu eleni, roedd safonau mewn 99% o wersi yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn foddhaol neu'n well. Cynyddodd y gwaith da neu dda iawn i 84%, i fyny pedwar pwynt canran o gymharu â'r llynedd.
- 105 Eleni, mae'r mwyafrif o ysgolion cynradd y gwnaethon ni eu harolygu'r un fath â'r ysgolion cynradd yr arolygon ni yn 2001-2002. Chwe blynedd yn ôl, dim ond 60% o wersi a gyflawnodd y ddwy radd uchaf wrth asesu safonau. Mae'r gwaith da wedi cynyddu o 24 pwynt canran dros y chwe blynedd. Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd canran y gwersi â'r ddwy radd isaf o 3% i ychydig dros 1%. Yn 2001-2002, roedd canran y gwersi lle'r oedd disgyblion yn cyflawni safonau da yn is ar gyfer y rhai 7-8 oed na'r rhai 10-11 oed. Yn yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni, ychydig iawn o wahaniaeth sydd i'w weld ym mherfformiad disgyblion y gwahanol grwpiau blwyddyn.
- 106 At ei gilydd, mae'n amlwg bod disgyblion yn cyflawni safonau gwell ym mhob pwnc nag y gwnaethon nhw chwe blynedd yn ôl.


- 107 Eleni, mae'r disgyblion yn cyflawni'r safonau uchaf mewn technoleg gwybodaeth a thechnoleg dylunio, gyda hanes yn dilyn yn agos. Mae'r gyfran leiaf o waith da neu dda iawn i'w weld mewn Cymraeg fel ail iaith o hyd, lle mae diffygion yn gorbwyso nodweddion da mewn dros draean o'r gwaith a welwyd. Mae disgyblion yn cyflawni safonau gwell mewn Saesneg a mathemateg nag mewn Cymraeg fel iaith gyntaf. Mewn Cymraeg fel iaith gyntaf, mae diffygion mewn dros chwarter o'r gwaith a welwyd.
- 108 Chwe blynedd yn ôl, roedd cyflawniadau disgyblion yn gymharol wan mewn technoleg dylunio, technoleg gwybodaeth, daearyddiaeth ac addysg grefyddol. Ond mae safonau yn y pynciau yma wedi gwella'n fawr. Er hynny, nid yw'r gwaith sy'n cael ei ddarparu yn y rhan fwyaf o ysgolion yn herio digon ar y disgyblion mwyaf galluog a dawnus o hyd. Mae'r tasgau sy'n cael eu gosod yn aml yn methu datblygu medrau allweddol a gwybodaeth y disgyblion yma, i'w galluogi i gyrraedd eu potensial llawn.
- 109 Mae siartiau 54 a 55 yn atodiad 2b yn dangos y graddau ar gyfer y pynciau yn yr ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu yn 2007-2008 yn ôl pob cyfnod allweddol.
- 110 Mae mwyafrif o'r disgyblion yn parhau i ddatblygu medrau allweddol da. Ond mae diffygion mewn safonau mewn dros draean o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu. Mewn ysgolion lle mae Cymraeg fel ail iaith yn cael ei addysgu, mae disgyblion yn dal i gyflawni safonau is mewn dwyieithrwydd nag mewn medrau allweddol eraill. Dim ond mewn ychydig dros hanner yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni y mae safonau dwyieithrwydd yn dda.
- 111 Mae safonau mewn dwyieithrwydd yn is na safonau mewn Cymraeg fel ail iaith. Prin iawn yw cynnydd tua hanner y disgyblion o ran datblygu medrau dwyieithog, yn enwedig siarad.
- 112 I ddarllen mwy am ddwyieithrwydd, [dilynwch y ddolen yma](#).
- 113 Mae safonau ymddygiad yn dal i fod yn dda neu'n dda iawn mewn dros naw o bob 10 ysgol y gwnaethon ni eu harolygu'r llynedd. Mae'r dysgwyr i gyd bron yn ymddwyn yn dda, mae ganddyn nhw agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac maen nhw'n datblygu medrau personol a chymdeithasol da.
- 114 Mae presenoldeb yn is na 90% mewn ychydig o dan hanner yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu. Ar gyfartaledd, mae'r disgybl yn absennol am 7% o'r sesiynau hanner diwrnod bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys sesiynau wedi'u hawdurdodi, sesiynau heb eu hawdurdodi a phresenoldeb hwyr. Mae hwn yn ostyngiad bach mewn absenoldebau ysgol o 2005-2006, ac mae tua'r un fath â'r ffigurau ar gyfer 2006-2007. Mae mwy o rieni'n mynd â'u plant ar wyliau yn ystod amser tymor, ac mae teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn arbennig yn dewis cymryd gwyliau estynedig. Mae absenoldebau cyson yn digwydd ar sail presenoldeb gwael plant o ychydig o deuluoedd, am nad ydyn nhw'n gwneud digon i ofalu bod eu plant yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae presenoldeb disgyblion yn waeth o lawer mewn ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais gymdeithasol ac economaidd. Mewn ysgolion â'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd absenoliaeth yn 9% yn 2007, ond dim ond ychydig dros 5% oedd absenoliaeth yn yr ysgolion â'r cyfrannau isaf o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

- 115 Yng nghyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 o leiaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd wedi aros rhwng 80% ac 81% er 2004. Eleni, 80.7% yw canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ar gyfer y dangosydd pwnc craidd. Mae hwn yn gynydd bach iawn o gymharu â 2007. Mae'r canlyniadau mewn pynciau unigol eleni'n debyg iawn i rai 2007. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y pynciau i gyd, ac mewn Saesneg (9.7 pwynt canran) y mae'r gwahaniaeth mwyaf. Mewn gwyddoniaeth (3.6 pwynt canran) y mae'r gwahaniaeth lleiaf.
- 116 Yng nghyfnod allweddol 2, fe gyrhaeddodd 75.5% o ddisgyblion lefel 4 o leiaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd. Mae hyn bedwar a hanner pwynt canran yn well nag yn 2004, ac mae'n gynydd o un a hanner pwynt canran ar 2007. Mewn Cymraeg fel iaith gyntaf oedd y gwelliant mwyaf o bell ffordd, lle'r oedd cynnydd dros bedwar pwynt canran yn nifer y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4 o gymharu â 2007. Mae merched yn dal i berfformio'n well na bechgyn yn y pynciau i gyd, ac mewn Saesneg a Chymraeg fel iaith gyntaf (dros 10 pwynt canran) y mae'r gwahaniaeth mwyaf. Mewn gwyddoniaeth a mathemateg (llai na phedwar pwynt canran) y mae'r gwahaniaeth lleiaf.
- 117 Mae siartiau 7 ac 8 sy'n dilyn yn dangos y lefelau a gafodd eu cyflawni gan y disgyblion i gyd mewn pynciau craidd ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2.

Siart 7: Lefelau cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1



Siart 8: Lefelau cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2



118 Wrth adolygu pob ysgol, mae arolygwyr yn ystyried a yw ysgolion yn methu rhoi safon addysg dderbyniol i'w disgyblion. Hyd at eleni, ychydig o newid oedd dros y chwe blynedd flaenorol yn nifer yr ysgolion yr oedd angen gweithredu **mesurau arbennig** ynddyn nhw. Ond eleni, cynyddodd nifer yr ysgolion o ddwy i chwech. Yn ystod y flwyddyn, cafodd un o'r ysgolion yma'i chau gan yr awdurdod lleol,


a thynnwyd un arall o'r categori. Mae hyn yn golygu mai dim ond pedair ysgol gynradd sy'n dal yn y categori mesurau arbennig ar ddiwedd y flwyddyn academaidd yma.

- 119 Mewn ysgolion y barnwyd bod angen **gwelliant sylweddol** ynddyn nhw, nid yw disgyblion yn cyrraedd eu potensial llawn, ond maen nhw'n cyflawni'n well na'r holl ysgolion bron sydd yn y categori mesurau arbennig. Yn aml, mae diffygion pwysig yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgolion yma. Mae arolygiadau'n dangos nad yw staff yn yr ysgolion yma'n arfarnu'u perfformiad yn ddigon da. O ganlyniad, nid ydyn nhw wedi gweld eu gwendidau ac maen nhw'n methu cynllunio'n dda ar gyfer gwelliant. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd angen gwelliant sylweddol mewn 11 o ysgolion.
- 120 I ddarllen mwy am ysgolion sy'n peri pryder, **dilynwch y ddolen yma**.


Ansawdd addysg a hyfforddiant

- 121 Eleni, mae ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r asesu'n dda neu'n dda iawn mewn 83% o ysgolion cynradd. Mewn 16% o'r gwersi a gafodd eu harolygu, roedd nodweddion da, sy'n gynydd bach ar y llynedd (dau bwynt canran). Dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r addysgu a'r asesu da a da iawn wedi gwella dros 26 pwynt canran, fel y mae siart 9 yn dangos.

Siart 9: Canran y graddau da iawn a'r graddau da a gafodd eu dyfarnu ar gyfer addysgu ac asesu yn 2001-2002 a 2007-2008



Siart 10: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer addysgu ac asesu yn y gwersi a gafodd eu harolygu yn 2007-2008



122 Mae nodweddion yr addysgu da a rhagorol a nodwyd yn y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys:


- ✓ disgwyliadau uchel o gyflawniad disgyblion trwy osod gwaith heriol yn gyson;
- ✓ defnyddio'r dull cwestiynu'n effeithiol i herio'r disgyblion i feddwl;
- ✓ perthnasoedd gweithio cryf a chadarnhaol rhwng athrawon, disgyblion a staff cymorth dysgu;
- ✓ defnydd amrywiol o ddewis eang o adnoddau ysgogol, gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol;
- ✓ gwybodaeth dda am bwnc a chynllunio gwersi ystyriol; a
- ✓ defnydd effeithiol o asesiadau athrawon a chymheiriaid i wella perfformiad.

123 Mae diffygion yn ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r asesu mewn rhyw chweched ran o'r ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✗ diffyg cyflymder a her mewn gwersi a thasgau sy'n methu'n gyson ag ymestyn meddwl disgyblion mwy galluog;
- ✗ sesiynau sy'n dibynnu gormod ar weithgareddau'n cael eu harwain gan yr athro, yn hytrach na dysgu'n annibynnol;
- ✗ amcanion gwersi nad oes ffocws digon clir iddyn nhw; a
- ✗ diffyg adolygiadau rheolaidd o ddysgu mewn sesiynau llawn.

124 O'r addysgu a gafodd ei arolygu eleni yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, cyflawnodd y rhan fwyaf o bynciau tua'r un ganran o addysgu da a da iawn â'r llynedd. Yr addysgu mewn technoleg dylunio a thechnoleg gwybodaeth yw'r addysgu mwyaf effeithiol. Ond mae addysgu Cymraeg fel ail iaith yn wannach nag mewn unrhyw bwnc arall.

Siart 11: Dosbarthiad graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer addysgu dwyieithog 2005-2006, 2006-2007, 2007-2008



125 Mae'r addysgu dwyieithog da a da iawn ar draws y cwricwlwm wedi gostwng yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae'n amlwg bod hyn yn effeithio ar y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni. Lle mae arolygwyr yn gweld safonau da neu dda iawn mewn dwyieithrwydd, maen nhw'n deillio fel arfer o addysgu wedi'i gynllunio'n dda sy'n datblygu siarad, darllen ac ysgrifennu disgyblion mewn amgylchedd ysgogol. Nid yw'r athrawon gorau'n cyfieithu geiriau ac ymadroddion i'r Saesneg yn syth. Yn lle hynny, maen nhw'n annog disgyblion i feddwl am, i ddeall ac i siarad Cymraeg yn hyderus ar eu pennau'u hunain. Yn yr ysgolion hynny lle mae diffygion pwysig, mae'r athrawon yn aml yn brin o arbenigedd a brwdfrydedd i godi hyder disgyblion.

126 Mae asesu'n dal i gael graddau is mewn arolygiadau nag addysgu. Er hynny, lle mae gradd uchel wedi'i roi i'r asesu, mae athrawon effeithiol yn gwirio gwaith disgyblion yn erbyn safonau'r cwricwlwm cenedlaethol ac yn cymharu'u barnau â'r rheini mewn ysgolion cyfagos eraill er mwyn gwneud yn siŵr bod asesiadau'n gyson ac yn gywir. Maen nhw hefyd yn annog disgyblion i fynd ati eu hunain i wirio pa mor dda maen nhw'n gwneud, ac i osod eu targedau eu hunain ar gyfer gwelliant. Hefyd, mae athrawon effeithiol yn dadansoddi canlyniadau profion ac asesiadau athrawon o gynnydd blaenorol disgyblion er mwyn gwella'u cynllunio.

- 127 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cwricwlwm sy'n diwallu gofynion y cwricwlwm cenedlaethol, ac sy'n cynnwys dewis helaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n datblygu medrau allweddol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau y maen nhw'n eu darparu, o fewn oriau ysgol a thu allan i oriau ysgol, yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion, dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang a chynladwyedd, a'u dealltwriaeth o fyd gwaith. Mae'r ysgolion yma'n gwneud defnydd da o aelodau'r gymuned leol ac ymwelwyr eraill i wella dysgu disgyblion. Hefyd, mae eu [cynghorau ysgol](#) yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar lawer o agweddau ar fywyd ysgol, gan gynnwys ailgylchu a bwyta'n iach.
- 128 Yn yr ychydig o ysgolion sydd â diffygion wrth gynllunio'r cwricwlwm, nid yw staff yn cynllunio'n ddigon systematig i roi sylw llawn i'r cwricwlwm cenedlaethol a'r medrau allweddol. Mewn ychydig o ysgolion yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r amser addysgu wythnosol yn bodloni'r gofynion sylfaenol mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu nodi yn y canllawiau addysgu.
- 129 Mae gan bron pob un o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni strategaethau clir ac effeithiol i ddelio ag ymddygiad gwael, gan gynnwys bwlio. Mae ysgolion llwyddiannus yn gwobrwyo ymddygiad da ac yn cydnabod cyflawniadau disgyblion yn rheolaidd er mwyn hybu ymddygiad da, ac ymddygiad da iawn yn aml.
- 130 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn falch iawn o'r ffordd y maen nhw'n hyrwyddo diogelwch a lles eu disgyblion, ac mae ganddyn nhw weithdrefnau clir ar gyfer gofalu amdany'n nhw. Yn yr ysgolion yma, mae pob aelod o staff yn ymwybodol o bolisiau'r ysgol ac yn eu dilyn yn ofalus.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 131 Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgolion cynradd yn dda neu'n well mewn ychydig dan dri chwarter o'r ysgolion. Mae hwn yn ddarlun tebyg i'r llynedd. Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn nodwedd ragorol mewn bron i un o bob pump o ysgolion cynradd. Mewn ysgolion lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well:
- ✓ mae'r staff i gyd yn deall ac yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion yr ysgol;
 - ✓ mae athrawon sydd â chyfrifoldebau pwnc a chyfrifoldebau ysgol gyfan yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol iawn, ac maen nhw'n aml yn gofalu am nifer o feysydd;
 - ✓ mae systemau rheoli perfformiad yn gosod targedau realistig a heriol;
 - ✓ mae datblygiad staff yn cael blaenoriaeth, ac mae cysylltiad cadarn rhwng addysg a hyfforddiant mewn swydd â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol;
 - ✓ mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyflawni'u cyfrifoldebau'n effeithiol; ac
 - ✓ mae'r cynllunio ariannol yn cael ei fonitro'n ofalus a'i gydweddu â thargedau a blaenoriaethau'r ysgol.

- 132 Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae diffygion pwysig yn ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth:
- X nid yw'r athrawon a'r staff cymorth i gyd yn deall yn llawn yr hyn y dylen nhw ei wneud i sicrhau gwelliant;
 - X mae gormod o dargedau a meysydd i'w datblygu yng nghynllun datblygu'r ysgol, ac nid yw'n glir sut mae mynd ati i'w cyflawni;
 - X mae staff yn rhoi cynnig ar fentrau, ond nid ydyn nhw'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus a phrin yw eu heffaith ar godi safonau; ac
 - X prin iawn hefyd yw effaith yr uwch reolwyr ar wella safonau ac ansawdd.
- 133 Mae ansawdd hunanarfarnu'n weddol debyg i'r llynedd. Mewn bron i saith o bob 10 ysgol, mae arweinwyr yn gwybod am yr hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn dda, ac maen nhw'n gwybod yn iawn pa feysydd y mae angen eu gwella.
- 134 Mewn ysgolion sydd â dulliau effeithiol, mae adroddiadau hunanarfarnu'n aml yn gryno, yn gynhwysfawr ac yn glir. Maen nhw'n cofnodi cryfderau a meysydd lle mae angen gwelliannau, ac yn nodi'r dystiolaeth sy'n ategu'r farn a ffurfiwyd. Hefyd, mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio canlyniadau hunanarfarnu i osod blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.
- 135 Mae llawer o ysgolion cynradd yn gwella'u haddysgu a'u dysgu trwy ddefnyddio adnoddau'n dda. Maen nhw'n gwneud defnydd da neu dda iawn o fedrau staff, adnoddau dysgu, a'r lle sydd ar gael y tu fewn i'r ysgol a thu allan. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae swydd-ddisgrifiadau manwl gan staff sy'n amlinellu'u rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae systemau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff ac ar gyfer nodi anghenion hyfforddi staff. Mae'r systemau yma'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ac anghenion datblygu staff unigol. Yn yr ysgolion yma, mae'r staff i gyd yn cael datblygiad proffesiynol rheolaidd sydd wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n effeithio'n gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Mae staff yn aml yn defnyddio'u medrau arbenigol yn dda i addysgu grwpiau oed gwahanol ac i godi safonau yn eu pynciau.
- 136 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae systemau ar gyfer sicrhau bod athrawon yn cael amser i [baratoi](#), [cynllunio ac asesu](#) wedi'u sefydlu'n dda erbyn hyn. Mae athrawon yn defnyddio'r amser yma'n effeithiol. Mewn llawer o ysgolion, mae staff cymorth yn dod yn fwy a mwy medrus wrth lanw i mewn yn ystod sesiynau paratoi, cynllunio ac asesu. Dan arweiniad gofalus yr athrawon, maen nhw'n cyflwyno agweddau ar y cwricwlwm lle mae ganddyn nhw feysydd arbenigedd.
- 137 Yn yr ychydig o ysgolion sydd â diffygion, nid yw ysgolion yn monitro i ba raddau y mae eu gwario'n gwella dysgu disgyblion ac nid ydyn nhw'n defnyddio amser athrawon a staff cymorth yn ddigon effeithlon. Prin yw'r cyfleoedd hyfforddi, ac nid yw'r systemau rheoli perfformiad wedi'u datblygu'n dda. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r adnoddau, yn enwedig llyfrau, yn hen ac yn wael eu safon.
- 138 At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu [gwerth am arian](#) sy'n dda neu'n rhagorol. Yn yr ysgolion yma, mae arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol, yn cysylltu'u penderfyniadau gwario â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol, ac maen nhw'n monitro ac yn adolygu gwariant yn drylwyr er mwyn cyflawni gwerth am arian.

139 I ddarllen mwy am yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni, dilynwch y ddolen yma.

Ysgolion uwchradd

140 Eleni, fe wnaethon ni arolygu 35 o'r 224 o ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

Safonau

141 Mae siartiau 12-15 sy'n dilyn yn dangos y proffiliau graddau ar gyfer y gwersi yr arolygon ni eleni.

Siart 12: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn ysgolion uwchradd (canran y gwersi) 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

Siart 13: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yng nghyfnod allweddol 3 (canran y gwersi)




■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

Siart 14: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yng nghyfnod allweddol 4 (canran y gwersi)



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

Siart 15: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn y chweched dosbarth (canran y gwersi)



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

142 Cyfran y gwersi sydd â mwy o nodweddion da na diffygion yw 97%. Mae hyn ychydig o dan y targed, sef 98%, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod ar gyfer 2010. Ychydig o wahaniaeth sydd yn y safonau rhwng cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ond mae safonau'n well o lawer yn y chweched dosbarth.

- 143 Mae disgyblion sy'n cyflawni safonau rhagorol yn gwneud cynnydd da iawn o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol. Maen nhw'n ymddwyn yn dda iawn, mae ganddyn nhw agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maen nhw'n gweithio'n galed i gynyddu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Yn y chweched dosbarth, mae'r disgyblion sy'n gwneud orau yn dangos medrau uchel wrth wneud ymchwil bersonol sy'n cynnwys dadansoddi gwybodaeth yn ofalus ac yn feirniadol.
- 144 Lle mae safonau'n waeth, mae hyn yn aml yn golygu nad oes gan y disgyblion y medrau sydd eu hangen i wella'u perfformiad eu hunain. Yn aml, dydyn nhw ddim yn gwybod digon am yr hyn maen nhw'n ei wneud yn dda neu'n wael, a'r hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud i wella.
- 145 Fe wnaethon ni arolygu 213 o adrannau pwnc eleni. Mae safonau'n dda neu'n well mewn rhyw dri chwarter ohonyn nhw, ac mae hyn yn weddol debyg i'r hyn yr adroddon ni yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae cyfran yr adrannau sydd â diffygion pwysig wedi parhau i ddisgyn, ac mae bellach yn 2%.
- 146 Mewn Saesneg, mae darllen disgyblion yn aml yn well na'u hysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 3, mae diffygion pwysig mewn ychydig dros chwarter yr ysgrifennu. Ond yn y chweched dosbarth, mae darllen ac ysgrifennu myfyrwyr yn well o lawer nag yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Mae'r holl fyfyrwyr bron yn y chweched dosbarth yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda.

- 147 Mewn Cymraeg, nid yw darllen nac ysgrifennu disgyblion gystal ag y maen nhw mewn Saesneg. Yn benodol, yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae diffygion pwysig mewn ysgrifennu Cymraeg mewn bron i hanner o'r ysgolion a gafodd eu harolygu.
- 148 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ac addysg grefyddol y mae disgyblion yn cyflawni'r safonau uchaf. Mae'r pynciau sydd â'r cyfrannau isaf o raddau 1 a 2 yn weddol debyg hefyd i'r blynyddoedd blaenorol. Y pynciau yma yw ieithoedd tramor modern, gwyddoniaeth ac, yn arbennig, Cymraeg fel ail iaith. Mae perfformiad gwan Cymraeg fel ail iaith yn parhau o'r blynyddoedd blaenorol ac mae wedi dirywio eto eleni. Mae diffygion pwysig mewn dwy ran o dair o'r gwaith mewn Cymraeg fel ail iaith.

Siart 16: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau medrau dwyieithog disgyblion




■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

- 149 Dim ond mewn ychydig dros hanner yr ysgolion y mae gallu dwyieithog disgyblion yn dda neu'n well. Mae diffygion pwysig yn yr ysgolion eraill, gan gynnwys un o bob wyth ysgol lle mae gallu dwyieithog disgyblion yn wael.


- 150 Mae medrau rhifedd disgyblion yn dda mewn llawer o ysgolion, ond mae diffygion pwysig mewn rhyw bumed o ysgolion. Mae medrau TGCh disgyblion wedi gwella'n fawr dros y blynnyddoedd diweddar. Erbyn hyn, mae medrau TGCh yn well na medrau rhifedd, ac maen nhw'n dda neu'n well mewn naw o bob 10 o ysgolion. Mae medrau da iawn mewn gweithio gydag eraill gan ddisgyblion pob un bron o'r ysgolion uwchradd, a medrau da wrth ddatrys problemau. Ond dim ond mewn dwy ran o dair o ysgolion y mae eu medrau gwella'u dysgu a'u perfformiad eu hunain yn dda neu'n well.
- 151 Mae siart 17 yn dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 5) neu'n uwch mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. O gymharu â'r llynedd, mae cynnydd wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 o leiaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Er hynny, roedd hyn yn dilyn gostyngiad yn y ddau bwnc yn 2007, ac mae'r ganran ar gyfer 2008 ychydig yn uwch na'r ganran ar gyfer 2006. Roedd cynnydd bach yn y ganran mewn Saesneg, a gostyngiad bach mewn Cymraeg. Mewn Saesneg a Chymraeg, mae'r perfformiad mewn siarad, gwrando a darllen yn well nag mewn ysgrifennu. Mae'r ganran ar gyfer y dangosydd pwnc craidd bellach wedi cyrraedd y targed mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod ar gyfer 2007. Mae'r ganran bum pwynt canran islaw'r targed sydd wedi'i osod ar gyfer 2010.

Siart 17: Canran y disgyblion 14 oed sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 5) neu uwch mewn asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3



- 152 Yn ein harolygiadau, rydyn ni'n rhoi gradd gyffredinol ar gyfer cyflawniadau'r dysgwyr mewn ysgol benodol. Mewn rhyw dri chwarter o ysgolion, mae safonau naill ai'n dda neu'n well. Mewn 6% o ysgolion, mae diffygion pwysig mewn safonau. O gymharu â'r llynedd, mae dosbarthiad cyffredinol y graddau yn weddol debyg, er bod cyfran y gwaith sydd wedi cael gradd ragorol yn is. Nid yw'r amrywio yma dros un flwyddyn yn golygu o reidwydd bod safonau'n gostwng, am fod y sampl yn fach ac am ei bod yn newid bob blwyddyn.


Siart 18: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau mewn gwersi mewn ysgolion uwchradd a gafodd eu harolygu yn 2007-2008 ac yn 2001-2002



153 O'r 35 o ysgolion uwchradd y gwnaethon ni eu harolygu yn 2007-2008, fe arolygon ni 30 yn 2001-2002. Mae'r tabl uchod yn cymharu'r graddau y dyfarnon ni yn y 30 o ysgolion yma yn 2001-2002 ac yn 2007-2008. Mae'r graddau a gafodd eu dyfarnu'n dangos rhywfaint o welliant yn y ganran o wersi da, ac mae'r ganran o wersi rhagorol yr un fath bron.

154 Mae siart 19 yn dangos unwaith eto bod merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y pynciau i gyd. Mewn Saesneg a Chymraeg y mae'r bwlch mwyaf. Mewn mathemateg y mae'r bwlch lleiaf. Mae'r bylchau mewn Saesneg a Chymraeg yn fwy o lawer nag ar ddiwedd cyfnodau 1 a 2. Ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r bylchau'r un fath fwy neu lai â'r rheini ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2.

Siart 19: Gwahaniaeth mewn pwyntiau canran rhwng bechgyn a merched o ran cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw (lefel 5) neu'n uwch mewn asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3



Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion uwchradd

Canlyniadau arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth

Siart 20: Canran y dysgwyr 16 oed sy'n cyrraedd trothwy lefel 2, trothwy lefel 1 ac nad ydyn nhw'n ennill unrhyw gymhwyster

	Trothwy lefel 2 gan gynnwys llwyddo mewn TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf a mathemateg	Wedi cyrraedd trothwy lefel 2	Wedi cyrraedd trothwy lefel 1	Heb gyflawni cymhwyster lefel mynediad na chymhwyster cyfwerth â TGAU
2008	46%	58%	87%	2.5%
2007	44%	55%	86%	3.9%
2006	-	54%	86%	3.9%
2005	-	52%	85%	4.3%
2004	-	51%	85%	-

155 Eleni, roedd cynnydd o dri phwynt canran yn nifer y disgyblion yn cyrraedd trothwy lefel 2.

- 156 Mae trothwy lefel 2 yn ddangosydd sy'n debyg i, ac sy'n disodli pump neu fwy TGAU gradd A* i C, ond mae'n cynnwys dewis ehangach o gyrsiau galwedigaethol. Mae'r ffigurau ar gyfer y ddau ddangosydd yma wedi bod bron yr un fath yn y gorffennol. Ond gallan nhw fod yn wahanol os oes llawer o ddysgwyr yn ennill cymwysterau galwedigaethol yn y dyfodol.
- 157 Yn 2008, fe gyrhaeddodd 46% o'r disgyblion drothwy lefel 2, gan gynnwys gradd TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, a mathemateg. Mae hyn yn gynydd bach ar 2007. Ond mae'n dal i olygu nad oes digon o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel cymhwyster yma yn y pynciau allweddol Saesneg neu Gymraeg, a mathemateg.
- 158 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n galed i leihau absenoliaeth, ac mae eu hymdrechion yn arwain at fwy a mwy o lwyddiant. Roedd gostyngiad sylweddol yn lefel gyffredinol yr absenoliaeth mewn ysgolion uwchradd yn 2007-2008. Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oedd 9.1%, o gymharu â 9.4% yn y flwyddyn flaenorol. Mae absenoliaeth gyffredinol wedi lleihau'n fawr ers dechrau'r degawd, pan oedd dros 10%.
- 159 Er gwaethaf y gwelliant yma, mae lefelau absenoliaeth o ysgolion uwchradd yn dal yn rhy uchel ar draws Cymru. Maen nhw'n waeth o lawer nag yn Lloegr, lle'r oedd absenoliaeth mewn ysgolion uwchradd yn 2006-2007 yn 7.9%. Mae'r gwahaniaeth mewn lefelau absenoliaeth rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru yn fawr. Cyfradd yr awdurdod lleol lle mae absenoliaeth ar ei uchaf oedd 10.1%, a'r isaf oedd 7.5%.

- 160 Mae cysylltiad cryf rhwng y ganran o ddisgyblion y mae ganddyn nhw hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfradd absenoliaeth mewn ysgol. Yn y grŵp o ysgolion â llai na 10% o ddisgyblion y mae ganddyn nhw hawl i gael prydau ysgol am ddim, 7.5% oedd y lefel absenoliaeth gyffredinol. Mewn ysgolion â dros 30% o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd yn 12.7%. Mae merched yn absennol yn amlach na bechgyn. Mae ysgolion mewn rhai ardaloedd yn aml yn ei chael hi'n anodd goresgyn agweddau negyddol disgyblion ynglŷn â mynd i'r ysgol.
- 161 Mae siart 21 yn dangos y ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer nifer y gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru yn ystod 2006-2007. O ysgolion uwchradd y mae bron i naw o bob deg o'r gwaharddiadau parhaol.

Siart 21: Cyfanswm y gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru

	Gwaharddiadau parhaol	Gwaharddiadau cyfnod penodol
2006-2007	291	20,031
2005-2006	438	20,140
2004-2005	465	20,242
2003-2004	420	16,530

- 162 Roedd gostyngiad mawr o draean yn nifer y gwaharddiadau parhaol o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Y rheswm pennaf am y gostyngiad mawr yma oedd disgyblion yn trosglwyddo i ysgol arall cyn iddyn nhw gael eu gwahardd yn barhaol. Mae'r broses yma'n


helpu i gadw'r disgyblion yn addysg y brif ffrwd. Bechgyn yw rhyw dri chwarter o'r cyfanswm o hyd. Mae bron i naw o bob deg o'r gwaharddiadau parhaol o ysgolion uwchradd.

- 163 Mae nifer y gwaharddiadau parhaol yn amrywio gryn dipyn ar draws Cymru. Er enghraifft, doedd dim gwaharddiadau parhaol yn Rhondda Cynon Taf y llynedd, ond roedd 56 yng Nghaerdydd. Mae amrywio mawr hefyd yn y newidiadau o'r flwyddyn flaenorol. Er enghraifft, dangosodd bump o awdurdodau lleol ostyngiad mawr o'r flwyddyn flaenorol, ac mewn chwe awdurdod lleol arall, cododd nifer y gwaharddiadau parhaol. Gostyngodd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol ychydig yn 2006-2007 o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, ond mae'n dal ymhell uwchlaw'r ffigur ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2003-2004.
- 164 Ar ddechrau 2007-2008, roedd angen gweithredu mesurau arbennig mewn tair ysgol uwchradd o ganlyniad i arolygiadau yn y blynyddoedd blaenorol. Yn ystod y flwyddyn, gwelodd yr ysgolion yma ddigon i beidio â bod angen mesurau arbennig rhagor. Yn y tri achos, y ffactorau allweddol mewn gwelliannau oedd rheolaeth well o'r ysgol a chymorth wedi'i dargedu gan yr awdurdod lleol.
- 165 Yn ystod 2007-2008, nododd arolygwyr bum ysgol uwchradd arall yr oedd angen gwelliant sylweddol ynddyn nhw. Ym mhob un o'r pum ysgol, nid oedd disgyblion yn cyflawni gystal ag y gallen nhw. Hefyd, mewn dwy o'r ysgolion, nid oedd presenoldeb ac ymddygiad yn ddigon da, a dyma'r prif resymau dros y ffaith fod safonau'n rhy isel. Mewn ysgol arall, roedd gwendidau pwysig yng ngwaith uwchreolwyr a rheolwyr canol, ac yn ansawdd yr hunanarfarnu.

166 I ddarllen mwy am yr ysgolion sy'n peri pryder, [dilynwch y ddolen yma](#).

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 22: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer ansawdd addysgu mewn ysgolion uwchradd (canran y gwersi) 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

167 Mae gwelliant cyffredinol wedi bod yn yr addysgu yn yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni o gymharu â'r tro diwethaf y cawsant eu harolygu chwe blynedd yn ôl (2001-2002).

168 Eleni, fe wnaeth arolygwyr asesu bod ansawdd yr addysgu'n gyffredinol yn dda neu'n well mewn dros wyth o bob 10 o ysgolion. Ychydig o wahaniaeth o bwys oedd rhwng cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Ond mae'r addysgu'n well o lawer yn y chweched dosbarth, ac nid yw ansawdd cyffredinol yr addysgu'n llai na da mewn unrhyw achos. Mae canran yr ysgolion ag addysgu rhagorol yn debyg i gyfnodau allweddol 3 a 4.

169 At ei gilydd, mae ansawdd addysgu wedi parhau ar yr un lefel am y pum mlynedd diwethaf. Mae rhyw 75% o wersi'n dda neu'n well yn 2007-2008. Mae hyn yn dal islaw'r targed o 80% mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod ar gyfer 2010.

170 Un nodwedd ragorol mewn dros hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu yw'r ffordd y mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda disgyblion, ac mae'r rhain yn meithrin y dysgu. Mae nodweddion rhagorol neu dda cyffredin eraill yn cynnwys:

- ✓ gwybodaeth athrawon a'u brwdfrydedd am eu pwnc;
- ✓ cynllunio gwersi sy'n ystyried sut mae disgyblion yn dysgu;
- ✓ gweithgareddau bywiog sy'n annog cychwyn chwim;
- ✓ defnyddio dewis eang o adnoddau i gyflwyno gwersi mewn ffordd ysgogol; a
- ✓ defnyddio cwestiynau i annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach ac i ymateb yn y pen draw.

171 Mewn Cymraeg fel iaith gyntaf y mae'r ansawdd gorau o ran addysgu. Mae'n wannach mewn mathemateg, cerddoriaeth a gwyddoniaeth nag mewn pynciau eraill. Mae'r addysgu'n waeth o lawer mewn Cymraeg fel ail iaith ac mae'n adlewyrchu'r safonau gwan mewn Cymraeg fel ail iaith yr adroddwyd amdany'n nhw'n gynharach. Mae'r trefniadau anfodddhaol ar gyfer addysgu Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 yn parhau tuedd y tynnwyd sylw ati yn Adroddiad Blynyddol y llynedd.

172 Mae'r asesu'n dda o leiaf mewn dwy ran o dair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu, ond mae diffygion yn y gweddill. Yn yr ysgolion lle mae'r asesu'n dda, mae athrawon yn marcio gwaith yn fanwl ac yn dweud yn glir beth mae disgyblion yn ei wneud yn dda a sut mae gwella'u gwaith. Mae dealltwriaeth glir gan ddisgyblion o lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol a disgrifwyr graddau arholiadau. Maen nhw'n asesu

agweddau ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn amlach ac yn amlach. At ei gilydd, mae adroddiadau i rieni'n help garw, ond nid yw lleiafrif o ysgolion yn darparu digon o wybodaeth am y modd y gall disgyblion wella'u perfformiad ym mhob pwnc.

- 173 Mae ysgolion effeithiol yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad blaenorol disgyblion i osod targedau mewnol ar gyfer arholiadau, gwaith dosbarth ac aseiniadau yn ystod y flwyddyn. Mae athrawon yn monitro'r graddau sy'n cael eu dyfarnu mewn pynciau yn erbyn y targedau yma, ac maen nhw'n ymyrryd os nad yw disgyblion yn cyflawni gystal ag y gallen nhw.
- 174 Mae'r diffygion pwysicaf yn yr asesu'n digwydd pan na fydd athrawon yn esbonio meini prawf asesu'n glir i'r disgyblion, neu pan na fydd eu hadborth yn ddefnyddiol ar ôl marcio gwaith y disgyblion.
- 175 Eleni, mae cwricwlwm eang, cytbwys a chydlynus gan dri chwarter o'r ysgolion a gafodd eu harolygu, ac mae hyn yn galluogi disgyblion a myfyrwyr i astudio cyrsiau y maen nhw'n eu dewis. Yn yr ysgolion eraill, mae'r nodweddion da yn eu cwricwlwm yn gorbwyso diffygion.
- 176 Yn y tri chwarter o ysgolion gorau, mae nodweddion da cyffredin yn cynnwys:
- ✓ rhaglen drylwyr o addysg bersonol a chymdeithasol;
 - ✓ rhaglen amrywiol o weithgareddau allgyrsiol y mae pob disgybl yn gallu mynd yn rhwydd atyn nhw; a
 - ✓ rhaglen dda a chynhwysfawr o addysg ac arweiniad yn gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd, gan gynnwys profiad menter.

- 177 Mewn lleiafrif cynyddol o ysgolion, mae dewis cynyddol o lwybrau dysgu priodol ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhain yn cynnwys dewis da o gyrsiau galwedigaethol. Hefyd, mae cysylltiadau cryf â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill gan yr ysgolion yma'n aml, ac mae hyn yn eu helpu i ddarparu cyrsiau a phrofiadau priodol ar gyfer eu dysgwyr.
- 178 I ddarllen mwy am Lwybrau Dysgu 14-19, [dilynwch y ddolen yma](#).
- 179 Mae llawer o ysgolion yn datblygu ac yn monitro medrau allweddol disgyblion yn dda, ond mae diffygion mewn lleiafrif ohonyn nhw. Nid yw'r disgyblion yma'n cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh yn yr holl bynciau.
- 180 Mae'r diffygion sylweddol yn y cwricwlwm mae chwarter o'r ysgolion yn ei gynnig yn cynnwys:
- ✗ darpariaeth brin ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol;
 - ✗ methu bodloni'r gofynion statudol i'r holl ddysgwyr gael cyfle bob dydd i gydaddoli;
 - ✗ darpariaeth wan ar gyfer dysgwyr mwy galluog a dawnus; a
 - ✗ diffyg hyrwyddo dwyieithrwydd a'r [Cwricwlwm Cymreig](#).
- 181 Mae ansawdd y gofal a'r cymorth i ddysgwyr yn parhau'n nodwedd dda yn yr holl ysgolion bron. Mewn ychydig dros hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu, mae'r ddarpariaeth gofal a chymorth yn rhagorol.

- 182 Mae'r nodweddion rhagorol pwysicaf yn ymwneud â:
- ✓ chysylltiadau ag ysgolion cynradd, a'r trefniadau sefydlu a phontio ar gyfer disgyblion newydd;
 - ✓ strategaethau i fonitro presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad;
 - ✓ adnabod ac asesu disgyblion ag **anghenion dysgu ychwanegol**;
 - ✓ y cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys darparu cynorthwywyr cymorth dysgu; a
 - ✓ hyrwyddo cyfle cyfartal.
- 183 Mae partneriaethau effeithiol ag asiantaethau eraill gan lawer o ysgolion, er enghraifft: i helpu i wella presenoldeb, ymddygiad a gallu disgyblion i werthfawrogi amrywiaeth.
- 184 Ychydig iawn o ysgolion sydd â diffygion pwysig yn eu gofal a'u harweiniad. Yn y nifer bach iawn o'r ysgolion yma, mae'r diffygion pwysicaf yn cynnwys:
- ✗ dim digon o gynorthwywyr cymorth dysgu i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
 - ✗ mynediad gwael i ddisgyblion mewn cadeiriau olwyn neu ddisgyblion sy'n cael trafferth symud; a
 - ✗ dim digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'u medrau gwneud penderfyniadau trwy gyngor yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 185 Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yn nodweddion rhagorol mewn ychydig dros 20% o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni. Mewn 40% arall o'r ysgolion, mae nodweddion da a dim diffygion pwysig.
- 186 Yn yr ysgolion sy'n cael eu rheoli orau, mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ragorol fel arfer. Mae'r pennaeth yn arwain drwy esiampl, gan gymell staff a disgyblion i gyflawni safonau da. Mae teimlad o bwrpas cyffredin, perthnasoedd da, a gwerthoedd dysgu ac ymddygiad sy'n cael eu rhannu yn yr ysgolion yma. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn cynorthwyo'r penaethiaid yn gadarn fel arfer. Mae uwch reolwyr yn drefnwyr effeithiol, maen nhw'n cynnal amodau dysgu da, ac maen nhw i'w gweld o amgylch yr ysgol. Mae rheolwyr bugeiliol a rheolwyr academiaidd yn gweithio'n dda gyda'u timau i hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol.
- 187 Mae ysgolion llwyddiannus yn seilio cynlluniau gwella effeithiol ar hunanarfarnu da sy'n canolbwyntio'n gyson ar safonau, addysgu a dysgu. Mae ganddyn nhw weithdrefnau manwl ar gyfer monitro perfformiad disgyblion a gosod targedau. Maen nhw'n defnyddio cyllid yn briodol ac yn monitro'u gwariant yn ofalus. Mae cysylltiadau agos rhwng cynlluniau datblygu a chynllunio ariannol.
- 188 Mewn ysgolion sy'n cael eu rheoli'n dda, mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn gwneud gwaith monitro ac adolygu trylwyr. Mae'r gwaith yn cynnwys dadansoddiadau manwl ac onest o berfformiad arholiadau, gan ddefnyddio mesurau gwerth ychwanegol a

chymariaethau ag ysgolion eraill. Mae arsylwi gwersi'n rheolaidd yn cyfrannu'n gryf at welliant yr ysgolion ac at bennu anghenion hyfforddi. Mae mecanweithiau systematig ar gyfer casglu barn disgyblion a rhieni. Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio cynghorau ysgol yn dda i gasglu barn y disgyblion.

189 I ddarllen mwy am gynghorau ysgol, [dilynwch y ddolen yma](#).

190 Mewn ychydig dan 40% o ysgolion a gafodd eu harolygu, mae diffygion pwysig yn y rheolaeth. Mae nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion ym mhob un o'r ysgolion ac eithrio un. Y diffygion mwyaf cyffredin a nodwyd eleni yw:

X diffyg diben cyffredin a chyfathrebu gwael â staff;

X dim digon o gynllunio manwl, er enghraifft, wrth roi sylw i faterion pwysig ers yr arolygiad blaenorol;

X diffyg digon o bwyslais ar safonau gan uwch reolwyr ac adrannau pwnc; a

X safonau anghyson o ran arweinyddiaeth adrannau.

191 Mewn llawer o'r ysgolion yma, nid yw canlyniadau hunanarfarnu'n mynd yn sail i flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae cynlluniau'n aml yn aneffeithiol ac yn anodd eu monitro am fod diffyg canlyniadau y gellir eu mesur ynddyn nhw a diffyg graddfeydd amser. Mae trefniadau gwael yn aml ar gyfer arsylwi gwersi, ac mae sylwadau ar wersi'n tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach na'n arfarnol, a does dim digon o bwyslais ar safonau.

192 Mae llywodraethwyr yn bodloni'u cyfrifoldebau'n dda mewn dros dri chwarter o ysgolion. Mae nodweddion rhagorol mewn un o bob saith ysgol. Mae'r cyrff llywodraethol gorau'n adnabod eu hysgolion yn dda iawn. Maen nhw'n ymwneud yn agos â chynllunio strategol, monitro ac arfarnu, ac maen nhw'n cael adroddiadau gan benaethiaid adrannau. Mewn ychydig o ysgolion, maen nhw wedi datblygu cysylltiadau ag adrannau unigol ac maen nhw'n mynd i gyfarfodydd adran.

193 Mae diffygion yng ngwaith y cyrff llywodraethol mewn rhyw chwarter o ysgolion. Yn yr ysgolion yma, nid yw'r llywodraethwyr bob amser yn gofyn cwestiynau digon heriol ynglŷn â pherfformiad yr ysgol a'r adrannau gwael. Nid ydyn nhw'n gofalu bod yr ysgol yn bodloni gofynion cyfreithiol, fel darparu Cymraeg fel ail iaith ac addysg grefyddol i'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

194 Fe welodd arolygwyr bod y lefelau staffio yn yr ysgolion a gafodd eu harolygu'n dda yn gyffredinol. Mae staff cymorth yn aml yn gweithio'n effeithiol gydag athrawon i ddarparu adnoddau dysgu ac i helpu disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Mae systemau effeithiol gan dri chwarter o ysgolion ar gyfer datblygiad proffesiynol staff addysgu a staff nad ydyn nhw'n addysgu. Maen nhw'n monitro canlyniad ac effaith cyrsiau hyfforddi'n ofalus. Mae nodweddion da mewn datblygiad staff yn cynnwys cysgodi uwch gydweithwyr ac, mewn ychydig o ysgolion, rheolwyr canol yn ymuno â'r uwch dîm rheoli am gyfnodau penodol. Mae diffygion, gan gynnwys cyfleoedd prin ar gyfer datblygiad a hyfforddiant staff, mewn rhyw chwarter o'r ysgolion.

- 195 At ei gilydd, mae adnoddau dysgu'n ddigonol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi buddsoddi'n helaeth mewn TGCh ac mae ganddyn nhw gyfleusterau da. Er hynny, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfle i ddefnyddio cyfrifiaduron mewn chwarter o'r ysgolion.
- 196 Mae diffygion yn yr adeiladau mewn ychydig dros hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu eleni. Fe adroddon ni ffigurau tebyg y llynedd. Mae'r diffygion yma'n codi lle mae disgyblion yn gorfod gweithio mewn ystafelloedd dosbarth dros dro sydd o ansawdd gwael, neu mewn ystafelloedd dosbarth parhaol lle mae diffyg lle'n cyfyngu ar brofiadau dysgu disgyblion.
- 197 At ei gilydd, mae digon o adnoddau ac mae'r gwaith o'u rheoli i gyflawni gwerth am arian yn dda neu'n well mewn tri chwarter o ysgolion, gan gynnwys traean o ysgolion lle mae nodweddion rhagorol. Mae rhai diffygion mewn chwarter o ysgolion.
- 198 I ddarllen mwy am yr ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Ysgolion arbennig (gan gynnwys ysgolion a cholegau arbennig annibynnol)


- 199 Eleni, cafodd saith o ysgolion arbennig a gynhelir, a thair o ysgolion arbennig annibynnol arolygiad llawn. Hefyd, fe gynhalion ni arolygiadau monitro blynyddol mewn 13 o ysgolion arbennig annibynnol arall ac mewn un coleg arbennig. Mae 44 o ysgolion arbennig a gynhelir a 28 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru⁸.

⁸ Mae tair ysgol arall wrthi'n mynd trwy'r broses gofrestru.

- 200 Mae pob un o'r ysgolion arbennig annibynnol yn darparu llety preswyl i ddisgyblion naill ai yn yr ysgol neu mewn cartref cysylltiedig ar gyfer plant. Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion yma'n blant sy'n derbyn gofal.

Safonau

Siart 23: Dosbarthiad y graddau arolygu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn ysgolion arbennig (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol) (canran y gwersi) 2007-2008



- 201 At ei gilydd, mae'r safonau mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgolion arbennig a gynhelir y gwnaethon ni eu harolygu eleni wedi gwella ers i ni eu harolygu nhw ddiwethaf chwe blynedd yn ôl. Eleni, mae safonau'n dda neu'n well mewn 92% o wersi. Yn 2002, dim ond mewn 78% o wersi yr oedden nhw'n dda neu'n well.
- 202 Mae'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni'n dda o leiaf yn yr holl ysgolion arbennig bron y gwnaethon ni eu harolygu. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae rhai nodweddion rhagorol i'r safonau. Mae'r rhain yn cynnwys y cynnydd cyflym mae disgyblion ag amrywiaeth o anawsterau dysgu ac ymddygiad cymhleth yn ei wneud, yn enwedig wrth ddatblygu'u medrau allweddol. Mae'r

disgyblion yma'n ymateb yn dda iawn mewn gwersi, ac maen nhw'n canolbwyntio ac yn ymdrechu'n galed. Maen nhw'n gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu medrau personol a chymdeithasol, yn enwedig mewn cyfathrebu.

- 203 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn. Ar ymweliadau blynyddol, rydyn ni'n nodi gwelliannau da mewn ymddygiad disgyblion dros amser, a hynny o gychwyn gwael yn aml.
- 204 Yn yr holl ysgolion bron a gafodd eu harolygu, ein barn oedd bod presenoldeb yn dda ar ôl ystyried amgylchiadau meddygol difrifol disgyblion neu'u hamgylchiadau emosiynol. Yn yr holl ysgolion bron, mae presenoldeb yn gwella. Er hynny, yn yr holl ysgolion yr arolygon ni, mae presenoldeb islaw'r targedau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u gosod ar gyfer ysgolion y brif ffrwd.
- 205 Mewn ychydig o ysgolion sy'n dysgu disgyblion ag [anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad](#), prin yw cynnydd y disgyblion. Yn aml iawn, mae gan y disgyblion yma gofnod blaenorol gwael o ran presenoldeb yn yr ysgol a chyflawniadau. Nid yw'r ychydig o ysgolion sydd â diffygion yn esbonio'u disgwyliadau o ran gwaith ac ymddygiad yn ddigon clir i'r disgyblion nac yn creu cyfleoedd dysgu da. Nid ydyn nhw'n gwneud digon i wella presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad y disgyblion.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 24: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu ar gyfer ansawdd addysgu mewn ysgolion arbennig (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol) (canran y gwersi) 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

- 206 Mae nodweddion rhagorol i'r addysgu yn y mwyafrif o'r ysgolion arbennig y gwnaethon ni eu harolygu. Mae'r rhain yn cynnwys:
- ✓ gwersi effeithiol iawn sydd wedi'u cynllunio'n dda;
 - ✓ dosbarthiadau sy'n cael eu rheoli'n dda iawn, a disgwyliadau uchel o waith ac ymddygiad disgyblion;
 - ✓ asesiadau trylwyr o ddisgyblion y mae athrawon yn eu defnyddio'n effeithiol i osod targedau dysgu addas; a
 - ✓ clodfori cyflawniadau disgyblion yn rheolaidd, sy'n hwb i'w hunan-barch a'u hyder.
- 207 Mae'r addysgu o leiaf yn dda yn yr holl ysgolion arbennig bron. Mae pob un o'r ysgolion arbennig a gynhelir yn addysgu amrediad llawn o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n gweddu i anghenion disgyblion. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ymestyn eu dysgu trwy gysylltiadau ag ysgolion a cholegau'r brif ffrwd.

- 208 Mae ysgolion arbennig yn asesu anghenion dysgu unigol disgyblion yn dda iawn ac yn cynllunio rhaglenni unigol ar sail yr asesu hwnnw. Maen nhw'n olrhain cynnydd eu disgyblion yn rheolaidd er mwyn mynd ati bob blwyddyn i adolygu datganiadau eu disgyblion o anghenion addysgol arbennig, ac i osod targedau dysgu newydd.
- 209 Mae'r holl ysgolion arbennig annibynnol yn gwella'u cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau. Mae gan bron pob un o'r ysgolion arbennig gysylltiadau da â'u cymunedau lleol ac maen nhw'n cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion wneud profiad gwaith.
- 210 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn elwa ar gael staff addysgu a staff cymorth sy'n gweithio'n agos fel tîm, a chysylltiadau da rhwng staff ac arbenigwyr sy'n ymweld.
- 211 Yn yr ychydig iawn o ysgolion arbennig lle mae diffygion, y ffaith nad yw'r disgwyliadau o lefelau cyflawni disgyblion yn ddigon uchel sy'n gyfrifol am hyn. Nid yw gwersi bob amser yn dal sylw disgyblion, ac nid yw staff yn rheoli ymddygiad gwael yn dda.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 212 Mewn llawer o'r ysgolion arbennig y gwnaethon ni eu harolygu, mae arweinyddiaeth a rheolaeth ragorol gydag ychydig iawn o ddiffygion. Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgolion yma wedi gosod nodau clir, ac maen nhw'n gwneud cynlluniau gofalus i helpu'r ysgolion i wella. Maen nhw'n effeithiol o ran gofalu bod staff addysgu a staff gofalu'n cynllunio ac yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm. O ganlyniad, mae cysylltiadau da rhwng y cartref a'r ddarpariaeth ysgol, ac mae'r trefniadau o ddydd i ddydd yn effeithlon. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gwirio'n rheolaidd bod yr addysgu o ansawdd da, ac maen nhw'n gwneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant addas.
- 213 Mae'r holl ysgolion bron yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â materion a gafodd eu nodi mewn arolygiadau blaenorol.
- 214 Mae systemau hunanarfarnu rhagorol gan bron pob un o'r ysgolion arbennig a gynhelir. Yn yr ysgolion yma, mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio data asesu'n dda iawn i fonitro cynnydd disgyblion ac i gytuno targedau unigol priodol.
- 215 Yn y rhan fwyaf o ysgolion arbennig annibynnol, nid yw hunanarfarnu wedi datblygu gymaint ag yn y sector a gynhelir. Mae'n ddyddiau cynnar ar y systemau i adolygu staff ac i fonitro gwersi, ac nid yw rheolwyr yn defnyddio digon o dystiolaeth uniongyrchol i'w helpu i wella'u hysgolion. Oherwydd hyn, mae ansawdd yr addysgu'n amrywio gormod ac nid yw'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgolion yn ddigon clir.
- 216 Mae llawer o ysgolion arbennig annibynnol yn bodloni bron pob un o [Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol \(Cymru\) 2003](#). Maen nhw'n rhoi sylw buan i unrhyw faterion sy'n cael eu nodi yn ystod arolygiad. Mewn ychydig iawn o ysgolion arbennig annibynnol, nid yw trefniadau ar gyfer diogelwch y safle a goruchwyliaeth disgyblion yn ddigon da.
- 217 Mae trefniadau da iawn, sydd wedi'u sefydlu'n dda, yn yr holl ysgolion arbennig a gynhelir bron i reoli perfformiad staff. Mae staff yn gwybod ac yn deall eu cyfrifoldebau, ac mae targedau staff unigol yn cysylltu'n effeithiol â chynlluniau i wella'r ysgolion.


- 218 Mewn ysgolion arbennig annibynnol, mae'n ddyddiau cynnar yn y gwaith o ddatblygu systemau i reoli perfformiad staff, ond mae'r mwyafrif ohonyn nhw'n monitro staff ac yn cynnig cyfleoedd hyfforddi addas i wella'u perfformiad.
- 219 Mae diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ychydig o ysgolion arbennig, a hynny'n aml lle nad oes digon o staff neu lle mae gormod o newidiadau staff mewn cyfnod byr. Nid yw'r ysgolion yma'n monitro'u gwaith yn ddigon da nac yn rhoi digon o gyfleoedd i staff ddilyn hyfforddiant a gwella'u harbenigedd.
- 220 Mae bron pob un o'r ysgolion arbennig yn darparu llety addas, ond mae ansawdd yr adnoddau dysgu'n amrywio gormod. Mae nifer o ysgolion arbennig annibynnol bach yn cyfyngu ar gyfleoedd dysgu disgyblion am nad ydyn nhw'n darparu digon o lyfrau neu offer TGCh.
- 221 Y llynedd, fe wnaethon ni enwi un ysgol arbennig a gynhelir yr oedd angen gwneud gwelliant sylweddol ynddi. Fe wnaethon ni ailrolygu'r ysgol eleni, ond nid yw hi wedi gwella digon, ac mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddi erbyn hyn.
- 222 I ddarllen mwy am ysgolion sy'n peri pryder, [dilynwch y ddolen yma](#).
- 223 Mae'r holl ysgolion arbennig a gynhelir yn cynnig gwerth da am arian o leiaf o ran y ffordd maen nhw'n defnyddio adnoddau. Mae diffygion yn y ddarpariaeth adnoddau dysgu yn yr ysgolion arbennig annibynnol a gafodd eu harolygu, ac nid yw blaenoriaethau ar gyfer hyfforddi staff ac adnoddau ar gyfer pynciau'n cael eu hadnabod yn ddigon da.
- 224 I ddarllen mwy am yr ysgolion arbennig y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Unedau cyfeirio disgyblion

- 225 Eleni fe wnaethon ni arolygu saith o'r 63 a mwy o unedau cofrestredig ar gyfer cyfeirio disgyblion.
- 226 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob un o ganolfannau awdurdodau lleol ar gyfer plant nad ydyn nhw'n gallu mynd i un o ysgolion y brif ffrwd neu i ysgol arbennig yn cofrestru fel unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).⁹ Er hynny, nid yw pob rhan o'r ddarpariaeth yma wedi'i chofrestru, ac nid yw Estyn yn gallu arolygu unedau sydd heb eu cofrestru.

Safonau

Siart 25: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn unedau cyfeirio disgyblion (canran y gwersi)




- 227 Mae disgyblion mewn 84% o'r gwersi a gafodd eu harolygu'n cyflawni safonau sy'n dda neu'n well. Dim ond mewn ychydig iawn o wersi y mae diffygion pwysig.

⁹ Cylchlythyr Arweiniad [Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion](#) Cynhwysiant Cymdeithasol Cylchlythyr Rhif: 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tachwedd 2006

- 228 Mewn pedair o'r saith o unedau cyfeirio disgyblion y gwnaethon ni eu harolygu eleni, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da neu dda iawn yn eu dysgu. Maen nhw'n dod yn fwy awyddus i ddysgu ac i fod yn bresennol yn fwy rheolaidd. Mae disgyblion yn dysgu dilyn cyfarwyddiadau ac i weithio'n dda gyda phobl eraill. Oherwydd hyn, maen nhw'n dod yn fwy hyderus ac yn barod i fynd i'r afael â thasgau newydd. Mae'r agwedd well yma'n eu galluogi i ddatblygu'r medrau y mae eu hangen arnyn nhw i lwyddo i fynd yn ôl i'w hysgolion, neu i symud i addysg bellach neu waith. Mae llawer o ddisgyblion yn gwella'u medrau sylfaenol a'u medrau allweddol ac yn ennill cymwysterau defnyddiol.
- 229 Yn y tair uned arall, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn aml oherwydd presenoldeb gwael. Dim ond lleoliadau rhan-amser y mae llawer ohonyn nhw'n eu cael yn yr unedau, ac maen nhw'n wag am weddill yr wythnos. Nid ydyn nhw'n cael y cymorth amser llawn maen nhw ei angen i ddatblygu'r arferion cyffredinol i'w paratoi i gael a chadw swydd, neu i symud ymlaen at astudiaeth bellach. Nid yw disgyblion yn elwa ar yr amrywiaeth eang o brofiadau cwricwlwm a allai ddal eu diddordeb, fel profiad gwaith ac ymweliadau addysgol. Nid yw pob un o'r disgyblion mwy galluog yn cael y cyfle i astudio ar gyfer cymwysterau ar lefel uwch.
- 230 Mae ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ac yng nghyfnod allweddol 3 yn llwyddo i fynd yn ôl i'r ysgol. Anaml y mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn mynd yn ôl i'r ysgol, ond mae ychydig o gysylltiadau da â cholegau lleol a chwmnïau dysgu yn y gwaith sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion symud yn ôl i addysg a hyfforddiant y brif ffrwd.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 26: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer ansawdd addysgu, hyfforddi ac asesu mewn unedau cyfeirio disgyblion (canran y gwersi)



- 231 Yn yr holl unedau a gafodd eu harolygu, mae athrawon yn cyddynnu'n dda â'u disgyblion ac yn rhoi cefnogaeth personol da iddyn nhw. Mae'r addysgu'n dda neu'n dda iawn mewn pump o'r saith o unedau y gwnaethon ni eu harolygu, ac mewn 86% o'r gwersi. Mae'r athrawon yma'n cynllunio'u gwersi'n dda i ddiwallu anghenion a diddordebau disgyblion, ac maen nhw'n monitro'u cynnydd yn dda. Maen nhw'n disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed ac ymddwyn yn dda. Maen nhw'n asesu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn ofalus ac yn rhoi'r cymorth ychwanegol y mae ei angen arnyn nhw. Pan na fydd disgyblion yn ymddwyn yn dda, mae athrawon yn eu helpu i ddeall eu teimladau ac i ddelio â'u dicter. Yn y ddwy uned lle mae angen i'r addysgu wella, nid yw gwaith cynllunio'r athrawon yn ddigon da. Nid yw cynlluniau'n canolbwyntio digon ar yr hyn y dylai disgyblion ei gyflawni yn ystod eu gwersi, yn arbennig yng nghyswllt medrau allweddol. Nid yw athrawon yn datblygu digon ar fedrau disgyblion mewn Cymraeg nac ieithoedd tramor modern.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 232 Mewn tair o'r saith uned y gwnaethon ni eu harolygu, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n dda iawn. Yn yr unedau yma, mae staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac yn cytuno ar y nodau. Maen nhw'n deall yn union beth sy'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer eu disgyblion. Mae'r unedau yma'n gwneud defnydd da o ddata i benderfynu ble mae'n rhaid iddyn nhw wneud gwelliannau. Mae awdurdodau lleol yr unedau'n eu cefnogi'n dda iawn, ac mae eu pwyllgorau rheoli'n deall eu gwaith yn dda o ddydd i ddydd. Er hynny, nid yw'r pwyllgorau i gyd yn gwybod digon am addysgu a dysgu i helpu'r unedau i wella.
- 233 Mae tair o'r unedau a gafodd eu harolygu eleni yn peri pryder ac mae angen gwneud gwelliant sylweddol ynddyn nhw. Nid yw eu hawdurdodau lleol yn gofalu bod yr holl ddisgyblion yn cael manteisio'n llawn ar eu hawl i gael addysg a hyfforddiant. Mae cwricwlwm yr unedau yma'n rhy gul, mae eu hadeiladau'n anaddas, nid oes digon o oriau addysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4, ac mae diffyg cefnogaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol. Nid yw'r pedair uned lle mae diffygion yn mynd ati'n ddigon cadarn i ganfod beth sydd angen ei wella ac i osod targedau ar gyfer gwelliant. Mae'r targedau'n rhy amhendiant yn aml. Lle mae pwyllgorau rheoli, dydyn nhw ddim yn cymryd digon o ran yn y cynllunio ar gyfer gwaith yr uned yn y dyfodol, mewn penderfyniadau cyllideb nac o ran gwneud yn siŵr bod yr addysgu a'r dysgu o ansawdd uchel. Nid oes pwyllgor rheoli gan un uned. Nid yw tair o'r pedair uned yma wedi gwneud y gwelliannau eto a gafodd eu hargymell yn eu harolygiad diwethaf.

234 I ddarllen mwy am ysgolion sy'n peri pryder, [dilynwch y ddolen yma](#).

235 I ddarllen mwy am yr unedau y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Rheolaeth awdurdodau lleol o swyddogaethau addysg

- 236 Eleni, fe wnaethon ni arolygu gwasanaethau addysg mewn wyth awdurdod lleol (ALI). Fe wnaethon ni ganolbwyntio ar un neu fwy o brif wasanaethau ym mhob un o'r awdurdodau lleol yma. Fe arolygon ni 26 o wasanaethau ar draws yr wyth awdurdod.
- 237 Fe wnaethon ni arolygu:
- saith o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion dysgu ychwanegol;
 - wyth o wasanaethau sy'n hyrwyddo cynhwysiant a lles cymdeithasol;
 - pump o wasanaethau sy'n cefnogi mynediad ac aildrefnu ysgolion;
 - chwech o wasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau cymorth.
- 238 Yn yr achosion lle'r oedden ni'n arolygu tri neu fwy o wasanaethau, fe edrychom ni ar reolaeth strategol hefyd. Fe wnaethon ni arolygu rheolaeth strategol mewn chwe awdurdod lleol.
- 239 Aethon ni ati i farnu pa mor dda oedd pob gwasanaeth a beth oedd ei ragolygon o ran gwella. Mae'r barnau a'r graddau'r ydyn ni'n eu defnyddio ar [dudalen 3](#).

- 240 At ei gilydd, roedd proffil graddau gwell gan y gwasanaethau a gafodd eu harolygu eleni na'r rheini a gafodd eu harolygu'r llynedd. Er hynny, roedd diffygion pwysig mewn 12 o'r 26 o wasanaethau a gafodd eu harolygu. Roedd diffygion pwysig yn y rheolaeth strategol mewn dau awdurdod lleol.
- 241 Yn ychwanegol at ein harolygiadau ni o wasanaethau addysg awdurdodau lleol, mae mwy o wybodaeth gennym am berfformiad awdurdodau lleol drwy arolygiadau mewn sectorau eraill.
- 242 Fe welon ni bod nodweddion sy'n gwella mewn gwaith partneriaeth addysg, fel Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Rhwydweithiau 14-19, mewn rhyw draean o'r awdurdodau lleol. Mae gwasanaethau addysg yn fwy effeithiol o ran llenwi bylchau mewn gwasanaethau pan fyddan nhw'n gweithio'n dda gyda gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieuchyd. Lle mae gweithio da ar y cyd, mae gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn gwella. Mae aelodau partneriaethau, gan gynnwys y sector gwirfoddol, yn rhoi strategaethau sydd wedi'u cytuno ar waith er mwyn hybu cydweithredu ac i osgoi dyblygu gwasanaethau i gefnogi dysgwyr. Mae hyn yn golygu esbonio rôl pob un o'r partneriaid a phennu graddfeydd amser realistig ar gyfer y camau mae angen eu cymryd i wella.
- 243 Mae protocolau clir ar waith i wella'r ffordd mae awdurdodau lleol, colegau a Gyrfa Cymru'n gweithio gyda'i gilydd, er enghraifft, wrth ddatblygu strategaethau 'Cadw mewn Cysylltiad' lle mae asiantaethau partner yn rhannu gwybodaeth am bobl ifanc er mwyn eu cefnogi'n fwy effeithiol.
- 244 Er hynny, yn yr awdurdodau hynny sydd â diffygion pwysig mewn gwaith partneriaeth ar lefel strategol, roedd y diffygion yn cynnwys:
- ✗ gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr ieuchyd proffesiynol heb fod yn cyfrannu'n gyson at un dull cynhwysfawr o ddelio ag addysg a gofal pobl ifanc;
 - ✗ effaith brin y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i hyrwyddo ffordd well o gydlynu gwasanaethau;
 - ✗ darparwyr y gwahanol wasanaethau'n peidio â rhannu data am ddysgwyr sy'n oedolion, neu am blant a phobl ifanc, gyda'r nod o adnabod tueddiadau a phennu'r gefnogaeth sy'n ofynnol; a
 - ✗ diffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad gan awdurdodau lleol i dimau troseddau ieuenctid neu ddiffyg cyfrannu ar lefel ddigon uchel at fyrddau rheoli TTI.
- 245 Mae awdurdodau lleol yn anghyson o ran ansawdd a'r defnydd o'r cynlluniau strategol a'r systemau rheoli perfformiad yn eu gwasanaethau dysgu oedolion yn y gymuned, y ddarpariaeth dysgu yn y gwaith, timau troseddau ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid. Oherwydd hyn, nid yw uwch reolwyr a staff yn gwybod digon am y cryfderau na'r meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn rhwystro'r gwaith o gefnogi dysgwyr a chynnig hyfforddiant o safon iddyn nhw.

Rheolaeth strategol gwasanaethau addysg awdurdodau lleol

Siart 27: Graddau a ddyfarnwyd i wasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer rheolaeth strategol

A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?

Gradd 1			3, 4
Gradd 2	5	2, 6	
Gradd 3	1		
Gradd 4			

Gradd 4 Gradd 3 Gradd 2 Gradd 1

Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?

1 – Caerdydd	2 – Castell-nedd Port Talbot	3 – Casnewydd
4 – Sir Benfro	5 – Tor-faen	6 – Wrecsam

- 246 Eleni, fe welon ni fod rheolaeth strategol yn rhagorol mewn dau o'r chwe awdurdod a gafodd eu harolygu. Yn yr awdurdodau yma, mae uwch reolwyr ac aelodau'n cynnig arweinyddiaeth a chyfeiriad o safon uchel. Mae aelodau'n barod i wneud y penderfyniadau sy'n anodd, ond yn angenrheidiol, fel cwtogi ar y lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion.
- 247 Yn yr awdurdodau da, mae cynlluniau'n cynnwys amcanion a thargedau clir fel sail i'r gwaith o gynllunio gwasanaethau. Mae swyddogion yn rheoli cyllidebau gwasanaethau'n dda, ac mae'r broses o bennu cyllidebau'n golygu bod modd gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- 248 Mae systemau rheoli perfformiad yn rhai effeithiol. Maen nhw'n gwneud defnydd da o wybodaeth reoli i ddweud wrth uwch swyddogion ac aelodau pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yn gwneud. O ganlyniad, mae swyddogion ac aelodau'n gwybod yn dda am yr agweddau sydd angen eu gwella.
- 249 Y meysydd gwasanaeth gwannaf a gafodd eu harolygu yw trefniadaeth ysgolion a chynhwysiant. Mae'r meysydd gwasanaeth yma'n dal i berfformio ar lefel rhy isel am fod gormod o aelodau etholedig yn amharod i wneud y penderfyniadau anodd ac angenrheidiol i gwtogi ar nifer y lleoedd heb eu llenwi a lleoedd dros ben yn ysgolion eu hawdurdod. Hefyd, mae diffygion pwysig mewn gormod o ddarpariaeth gynlluniedig awdurdodau lleol ar gyfer y rheini sy'n cael addysg heblaw addysg yn yr ysgol. At ei gilydd, mae gormod o ddisgyblion, gan gynnwys troseddwr ifanc, heb fod yn cael darpariaeth addysgol lawn a phriodol.¹⁰ Mae amser llawn yn golygu addysg dan oruchwyliaeth neu weithgaredd arall sy'n gyfwerth â hynny sy'n cael ei gynnig gan ysgolion y brif ffrwd.

¹⁰ Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn darparu'r 25 awr yr wythnos sy'n cael eu hargymell ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4.

Gwella ysgolion

Siart 28: Graddau a gafodd eu dyfarnu i wasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer gwella ysgolion

A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?

Gradd 1			4	3
Gradd 2			1, 2, 6	
Gradd 3		5		
Gradd 4				

Gradd 4	Gradd 3	Gradd 2	Gradd 1
---------	---------	---------	---------

Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?

1 – Caerdydd	2 – Castell-nedd Port Talbot	3 – Casnewydd
4 – Sir Benfro	5 – Tor-faen	6 – Wrecsam

250 Yn y chwe gwasanaeth a gafodd eu harolygu eleni, dim ond un ohonyn nhw oedd â diffygion pwysig.

251 Fe ddangosodd dau wasanaeth nodweddion rhagorol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✓ rhaglenni llwyddiannus ar gyfer gwella ysgolion sydd wedi arwain at welliant y mae modd ei fesur yn safonau'r ysgolion;
- ✓ diwylliant o hunan-wella ymhlith ysgolion ac ymrwymiad i chwilio am ffyrdd o wella ac o ymateb i her; a
- ✓ swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio data'n dda i dargedu, herio ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n cael anawsterau.

Mynediad a threfniadaeth ysgolion

Siart 29: Graddau a gafodd eu dyfarnu i wasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer mynediad a threfniadaeth ysgolion

A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?	Gradd 1			4	
	Gradd 2		1		
	Gradd 3		2, 5	3	
	Gradd 4				
		Gradd 4	Gradd 3	Gradd 2	Gradd 1

Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?

1 – Caerdydd 2 – Castell-nedd Port Talbot
3 – Casnewydd 4 – Sir Benfro 5 – Wrecsam

- 252 Mae'r diffygion y gwelon ni eleni'r un fath â'r rheini yr adroddon ni amdany'n nhw y llynedd.
- 253 Er hynny, ar draws Cymru, mae awdurdodau lleol yn gyffredinol – yn arbennig y rheini sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig – yn dal yn rhy araf wrth fynd i'r afael â'r her lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion. Oherwydd hyn, mae awdurdodau lleol yn cynnal gormod o ysgolion sy'n rhy gostus i'w rhedeg. Mae cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn arbennig ar lefel ysgolion uwchradd, yn parhau'n wan yn ne-ddwyrain Cymru.
- 254 Am y tro cyntaf yn y cylch arolygu yma, fe welon ni nodweddion rhagorol mewn un awdurdod lleol yn y maes gwaith yma. Yn yr un awdurdod sydd â nodweddion rhagorol, mae swyddogion ac aelodau etholedig yn gwneud penderfyniadau anodd iawn ynghylch cau ac uno ysgolion er lles pennaf dysgwyr. Maen nhw'n defnyddio gwybodaeth ddiweddar am gyflwr, effeithlonrwydd ac addasrwydd adeiladau ysgol, ac yn defnyddio ffyrdd newydd i gynyddu ac i ail-fuddsoddi'r arian sydd ar gael.

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Siart 30: Graddau a gafodd eu dyfarnu i wasanaethau awdurdodau lleol sy'n cefnogi anghenion dysgu ychwanegol

A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?	Gradd 1		2, 7	3, 5	
	Gradd 2		1, 4	6	
	Gradd 3				
	Gradd 4				
		Gradd 4	Gradd 3	Gradd 2	Gradd 1

Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?

1 – Caerdydd	2 – Ceredigion	3 – Castell-nedd Port Talbot	
4 – Casnewydd	5 – Sir Benfro	6 – Tor-faen	7 – Wrecsam

255 Fe welon ni nodweddion rhagorol yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wrth wneud

ein harolygiadau eleni. Mewn dau arolygiad, mae'r nodweddion rhagorol sydd wedi gyrru gwelliant yn cynnwys:

- ✓ ysgolion lle mae lefel yr arian wedi'i gwarantu am dair blynedd ar y tro i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion;
- ✓ gostyngiad mawr yn nifer y datganiadau, sy'n golygu bod seicolegwyr addysgol yn treulio mwy o amser yn gweithio gyda staff, disgyblion a rhieni;
- ✓ cyngor a chefnogaeth o safon, sydd ar gael yn rhwydd i ysgolion, rhieni a disgyblion; a'r
- ✓ awdurdod, penaethiaid gwasanaethau ac ysgolion yn monitro'r canlyniadau ar gyfer disgyblion yn fwy effeithiol.

256 Canlyniad hyn yw bod ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer disgyblion ag ADY wedi gwella'n gyffredinol. Mae hyn wedi digwydd am fod yr awdurdodau lleol yma wedi rhoi'r adnoddau, y medrau a'r hyblygrwydd angenrheidiol i'r ysgolion i'w galluogi i ddiwallu anghenion dysgu'r gwahanol ddisgyblion yn llawnach.

257 Mae'r diffygion pwysig a gafodd eu nodi mewn gwasanaethau ADY eleni'n cynnwys:

- ✗ gwasanaethau seicoleg addysgol yn methu rhoi cefnogaeth a chyngor proffesiynol yn ddigon cynnar i ddisgyblion a'u teuluoedd;
- ✗ trefniadau gwan ar gyfer ymyrryd yn gynnar, gyda gormod o blant yn disgwyl yn rhy hir cyn bod eu hanghenion yn cael eu hadnabod; a
- ✗ rheolwyr gwasanaethau'n defnyddio data mewn ffordd annigonol i dargedu gwasanaethau lle mae'r angen pennaf.

Hyrwyddo cynhwysiant a lles cymdeithasol

Siart 31: Graddau a gafodd eu dyfarnu i wasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant a lles cymdeithasol

A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?

Gradd 1				
Gradd 2		2, 3, 4, 5	6, 7, 8	
Gradd 3	1			
Gradd 4				

Gradd 4 Gradd 3 Gradd 2 Gradd 1

Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?


1 – Caerdydd	2 – Ceredigion	3 – Gwynedd	4 – Castell-nedd Port Talbot
5 – Casnewydd	6 – Sir Benfro	7 – Tor-faen	8 – Wrecsam

- 258 Hwn oedd y maes gwasanaeth gwannaf yr arolygon ni eleni. Nid oedd darpariaeth ragorol yn y maes yma gan yr un o'r awdurdodau y gwnaethon ni eu harolygu.
- 259 Roedd diffygion pwysig gan bump o'r wyth gwasanaeth a gafodd eu harolygu. Nid yw'r gwasanaethau yma'n gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd i godi safonau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Hefyd, prin yw effaith eu strategaethau ar gyfer gwella presenoldeb ac ymddygiad. Canlyniad hyn yw nad yw cyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau cyfnod penodol a gwaharddiadau parhaol, yn gwella'n ddigon cyflym. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ychydig o ysgolion uwchradd.
- 260 At ei gilydd, mae gormod o blant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw addysg yn yr ysgol, gan gynnwys troseddwr ifanc, yn methu cael digon o oriau o addysg addas.
- 261 Yn y tri gwasanaeth da, mae'r nodweddion sy'n cyfrannu at welliant yn cynnwys:
- amrywiaeth eang o gymorth wedi'i dargedu a chymorth wedi'i gydlynu'n dda i helpu pob disgybl i gyflawni canlyniadau da ac i aros yn yr ysgol;
 - ffocws cryf wedi'i dargedu ar waith ataliol gyda phlant a phobl ifanc i gefnogi'u lles;
 - cydlynu rhaglenni galwedigaethol yn effeithiol er mwyn i bobl ifanc 14-16 oed gael dewis eang o gyfleoedd dysgu; a
 - phartneriaethau cadarn rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a phartneriaid eraill yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael.
- 262 I ddarllen mwy am yr awdurdodau lleol y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).


Perfformiad ysgolion ar draws yr holl awdurdodau lleol

263 Mae'r siartiau bawd sy'n dilyn yn dangos y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu i ysgolion ym mhob awdurdod lleol rhwng 2005 a 2008.

Siart 32: Dosbarthiad y graddau arolygu a gafodd eu dyfarnu i ysgolion ar gyfer pob cwestiwn allweddol ym mhob awdurdod lleol 2005-2008



- CwA1:** Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?
- CwA2:** Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?
- CwA3:** Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrrd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?
- CwA4:** Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?
- CwA5:** Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?
- CwA6:** Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?
- CwA7:** Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?



Mae'r siartiau bawd yn dangos y graddau a gafodd eu dyfarnu i hanner ysgolion Cymru mewn arolygiadau rhwng 2005 a 2008. Maen nhw wedi'u trefnu yn ôl awdurdodau lleol mewn siartiau bar sy'n nodi cyfran y graddau a gafodd eu dyfarnu i'r saith cwestiwn allweddol.

- 264 Ar draws Cymru, mae mwyafrif o'r ysgolion ym mhob awdurdod lleol yn rhoi gofal, cefnogaeth ac arweiniad da neu ragorol i ddisgyblion. Yn gyffredinol, ysgolion mewn ardaloedd trefol mawr fel Casnewydd, Wrecsam, Abertawe, Caerdydd a Bro Morgannwg sydd â'r gyfran uchaf o nodweddion rhagorol yn holl feysydd arolygiadau ysgolion hyd y cam yma yn y cylch arolygu. Mae hyn yn cynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth, darpariaeth y cwricwlwm, addysgu a dysgu.
- 265 Ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Phowys sydd â'r gyfran uchaf o ddiffygion pwysig yn holl feysydd arolygiadau ysgolion. Hefyd, mae cyfran uchel o ysgolion yng Nghonwy, Ynys Môn a Rhondda Cynon Taf sydd â diffygion pwysig yn y ffordd y maen nhw'n arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau. Mae hyn yn lleihau gallu'r ysgolion i wella ansawdd addysgu a dysgu disgyblion.

Ysgolion sy'n peri pryder

- 266 Ar bob arolygiad o ysgolion a gynhelir, mae arolygwyr yn ystyried a yw ysgolion yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion. Rhaid i arolygwyr ystyried a oes angen gweithredu mesurau arbennig neu a oes angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol. Mae'r ysgolion yma'n cael eu diffinio fel 'ysgolion sy'n peri pryder'.
- 267 Yn y tair blynedd diwethaf, mae arolygwyr wedi nodi 46 o ysgolion fel rhai sy'n peri pryder (hynny yw, yn un o'r categorïau uchod neu yn y categori blaenorol [gwendidau difrifol](#)). Mae hyn yn 5% o gyfanswm yr ysgolion a gafodd eu harolygu.
- 268 Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yma, roedd 20 o ysgolion yn dal ar y rhestr o ysgolion sy'n peri pryder o'r blynyddoedd blaenorol. Yn ystod y flwyddyn, nododd arolygwyr 21 o ysgolion eraill fel rhai sy'n

peri pryder. Fe wnaethon ni hefyd dynnu 16 ysgol oddi ar y rhestr. Cyfeiriwch at siart 33 sy'n dilyn.

Siart 33: Nifer yr ysgolion a gafodd eu rhoi mewn categori yn 2007-2008

Wedi'u rhoi mewn categori	2007-2008				
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	UCD	Cyfanswm
Mesurau arbennig	4	0	1	0	5
Gwelliant sylweddol	8	5	0	3	16
Cyfanswm	12	5	1	3	21

- 269 Nid oedd newid o'r llynedd yn nifer yr ysgolion sydd wedi'u nodi fel rhai y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddyn nhw. Ond roedd cynnydd, o 11 y llynedd i 16 eleni, yn nifer yr ysgolion lle mae angen gwelliant sylweddol.
- 270 Mewn ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddyn nhw, mae'r diffygion pwysicaf yn y meysydd arweinyddiaeth a rheolaeth, a pha mor dda mae disgyblion yn cyflawni. Mae llawer o ddiffygion pwysig yn eu gallu i farnu pa mor dda maen nhw'n gwneud ac yn eu gallu i gynllunio sut mae gwella. Yn ystod 2007-2008, dyfarnodd arolygwyr radd 4 neu 5 mewn o leiaf tri chwestiwn allweddol ym mhob un o'r ysgolion bron a gafodd eu rhoi yn y categori mesurau arbennig.

- 271 Nid yw'r un o'r ysgolion lle mae angen gwelliant sylweddol yn perfformio gystal â'r disgwyl, a hynny'n o bell ffordd. Roedd diffygion pwysig mewn un neu fwy o'r cwestiynau allweddol gan dros hanner o'r ysgolion yma. Mae disgyblion yn yr ysgolion yma'n cyflawni'n well nag mewn ysgolion yn y categori mesurau arbennig. Ond, er hynny, mae diffygion pwysig yn y safonau ac yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Hefyd, nid yw'r ysgolion yma'n tueddu i'w hadnabod eu hunain yn dda ac nid ydyn nhw'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliant. Nid yw athrawon yn disgwyl digon gan eu disgyblion, ac nid ydyn nhw'n olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon da. Nid yw'r ysgolion yma bob amser yn rhoi sylw i'r prif faterion o'u hadroddiad arolygu blaenorol. Nid yw llywodraethwyr yn cymryd digon o ran mewn pennu cyfeiriad strategol yr ysgol, ac yn herio digon ar reolaeth yr ysgol er mwyn mynd i'r afael â pherfformiad gwael.
- 272 Pan fydd arolygwyr yn nodi ysgol fel un y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddi, neu lle mae angen gwelliant sylweddol, rhaid i'r corff llywodraethol a'r awdurdod lleol anfon cynlluniau gweithredu at Estyn. Rhaid i'r cynlluniau yma fynd i'r afael â'r argymhellion a'r canfyddiadau yn yr adroddiad arolygu. Mae arolygwyr Estyn wedyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro'i chynnydd. Maen nhw'n mynd ymhen blwyddyn i'r ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddyn nhw a'r rheini lle mae angen gwelliant sylweddol.
- 273 Yn 2007-2008, roedd arolygwyr Estyn yn monitro 20 o ysgolion. Roedd naw ysgol yn y categori mesurau arbennig ac roedd 11 yn y categori gwelliant sylweddol neu wendidau difrifol. Mae siart 34 yn dangos nifer yr ysgolion a oedd wedi gwneud digon o gynnydd i ni eu tynnu oddi ar y rhestr. Nid oes unrhyw ysgolion erbyn hyn yn y categori blaenorol, sef gwendidau difrifol. Caeodd un ysgol tra'r oedd yn y categori mesurau arbennig.

Siart 34: Ysgolion a gafodd eu tynnu o categori yn 2007-2008

Wedi'u tynnu o'r categori	2007-2008				
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	UCD	Cyfanswm
Mesurau arbennig	2	3	0	0	5
Gwelliant sylweddol	9	1	1	0	11
Cyfanswm	11	4	1	0	16

- 274 Roedd ysgolion a gafodd eu tynnu oddi ar y rhestr ysgolion sy'n peri pryder wedi gwneud cynnydd yn nifer o agweddau ar eu darpariaeth. Roedden nhw wedi llwyddo i godi safonau, wedi gwella presenoldeb ac ymddygiad, wedi cyflwyno dulliau mwy effeithiol o reoli ymddygiad a phresenoldeb, ac wedi gwella'r addysgu a'r dysgu.
- 275 Yn 2007-2008, gwelodd arolygwyr fod dwy ysgol a oedd yn y categorïau gwendidau difrifol neu welliant sylweddol heb wneud digon o gynnydd. Nid oedd yr ysgolion yma wedi mynd i'r afael â diffygion yn eu harweinyddiaeth a rheolaeth. O ganlyniad, nododd arolygwyr fod angen gweithredu mesurau arbennig yn y ddwy ysgol. Rydyn ni wedi tynnu un ysgol o'r categori yma erbyn hyn.
- 276 Yn ystod y tair blynedd diwethaf, dim ond dau awdurdod lleol sydd heb gael ysgol wedi'i rhestru fel un sy'n peri pryder. Dim ond un neu ddwy o ysgolion y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi'u gweld yn cael eu rhestru, ond mae tri awdurdod wedi cael pedair neu fwy.

277 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a gafodd eu tynnu oddi ar y rhestr o ysgolion sy'n peri pryder wedi cael cefnogaeth dda gan swyddogion awdurdodau lleol i'w helpu i wella. Er hynny, nid yw gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn ymyrryd yn ddigon cyflym bob tro nac yn defnyddio'u pwerau llawn i ymyrryd mewn ysgolion sy'n tanberfformio, gyda'r nod o atal yr ysgolion rhag peri pryder.

278 Nid yw'r awdurdodau lleol yma:

- ✗ yn ddigon effeithiol wrth rannu data ynglŷn â pherfformiad â'r ysgolion er mwyn helpu i adnabod meysydd lle mae perfformiad yn isel;
- ✗ yn mynd i'r afael ag arweinyddiaeth a rheolaeth wan mewn ysgolion; nac yn
- ✗ ddigon cadarn wrth herio ysgolion lle mae presenoldeb yn wael a nifer mawr o waharddiadau.


279 Nid yw'r holl awdurdodau lleol yn creu cynlluniau gweithredu manwl sy'n dangos sut maen nhw'n bwriadu helpu ysgolion sy'n tanberfformio i wella. Nid yw'r cynlluniau gweithredu'n esbonio'n effeithiol bob tro sut bydd y gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gyda gwasanaethau eraill, fel y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a'r gwasanaeth cynhwysiant, i fynd i'r afael â materion sy'n cael eu codi mewn adroddiadau arolygu ysgolion. Canlyniad hyn yw nad yw arweinyddiaeth a rheolaeth wael yn cael sylw'n ddigon cyflym, ac mae'r ysgolion yma'n aros yn destun pryder am rhy hir.

¹¹ Hyd at 2007, canran y disgyblion yn ennill pum neu fwy TGAU gradd A*-C neu gyfwerth â hynny oedd y dangosydd pennawd ar gyfer cyflawniad TGAU. O 2007, y dangosydd pennawd yw trothwy Lefel 2. I bwrpas cymharu fel hyn, mae canran y disgyblion yn ennill pum neu fwy TGAU gradd A*-C wedi'i defnyddio drwyddi draw. Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2008 ar gael eto.


Cymariaethau TGAU

280 Mae canlyniadau TGAU yng Nghymru wedi gwella bob blwyddyn ac wedi dangos cynnydd cyffredinol o dros wyth pwynt canran yn y deng mlynedd diwethaf. Er bod canlyniadau TGAU wedi gwella ym mhob awdurdod lleol, mae'r gyfradd gwella'n amrywio.

Siart 35: Canran y disgyblion yn ennill pum neu fwy TGAU gradd A*-C neu gyfwerth â hynny¹¹ yn 2007



Siart 36: Y cynnydd canran yn y gyfran o ddisgyblion yn ennill pump neu fwy TGAU gradd A*-C neu gyfwerth â hynny yn y deng mlynedd diwethaf¹²



¹² O 1998 i 2007 yn gynnwysedig


- 281 Mae'r canlyniadau TGAU yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi gwella rhwng pump a deg pwynt canran dros y deng mlynedd diwethaf. Ond mae'r awdurdod sy'n dangos y gwelliant mwyaf (Castell-nedd Port Talbot) wedi gwella dros bum gwaith yn well na'r awdurdod sy'n gwella'n fwyaf araf.
- 282 Mae'r gyfradd wella'n amrywio'n fawr rhwng y gwahanol awdurdodau, beth bynnag oedd eu man cychwyn 10 mlynedd yn ôl. Er enghraifft, 10 mlynedd yn ôl roedd gan Sir Ddinbych a Chastell-nedd Port Talbot yr un ganran o ddisgyblion yn ennill pump neu fwy TGAU gradd A*-C, ond mae Castell-nedd Port Talbot wedi cynyddu'i ganran o dros 15 pwynt.
- 283 Yr awdurdodau lleol a oedd yn cyflawni uchaf 10 mlynedd yn ôl, yn ôl y ganran o ddisgyblion yn cyflawni pump neu fwy TGAU gradd A*-C, oedd Ceredigion, Powys, Bro Morgannwg, Sir Gaerfyrddin a Gwynedd. Mae'r rhain i gyd wedi gwella ar gyfradd debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Y rhain yw'r awdurdodau sy'n cyflawni uchaf o hyd, er bod Castell-nedd Port Talbot wedi ymuno â nhw erbyn hyn.

Gwasanaethau cymorth ieuencid

284 Eleni, fe wnaethon ni arolygu gwasanaethau cymorth ieuencid mewn pedair ardal awdurdod lleol. Fe gynhalion ni un ailrolygiad hefyd.

Safonau

Siart 37: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae pobl ifanc yn eu cyflawni mewn gwasanaethau cymorth ieuencid (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi) 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

285 At ei gilydd, mae'r safonau sy'n cael eu cyflawni gan bobl ifanc sy'n gweithio gyda gwasanaethau cymorth ieuencid wedi parhau i wella. Cynyddodd cyfran y sesiynau a gafodd eu barnu'n radd tri neu'n well eleni o 99%, i fyny dau bwynt canran o gymharu â'r llynedd.

286 Mae'r bobl ifanc sy'n gweithio gyda gwasanaethau cymorth ieuencid yn llawn cymhelliant ac maen nhw'n cymryd rhan weithredol yn y sesiynau. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc yma'n datblygu ac yn gwella'u medrau personol, cymdeithasol ac allweddol yn dda. Mae eu hymddygiad yn dda, ac maen nhw'n datblygu perthnasoedd cefnogol a llawn parch gyda'u cyfoedion a gydag oedolion. Maen nhw'n mwynhau'r hyn maen nhw'n ei wneud ac yn gweithio'n galed.

287 Mae pobl ifanc yn cynnig arweinyddiaeth trwy ddefnyddio'u medrau eu hunain i helpu pobl eraill i ddysgu ac i ddatblygu. Maen nhw'n cyfrannu'n dda at gynllunio gwasanaethau yn eu hardal. Maen nhw'n siarad am faterion pwysig gyda rheolwyr ac aelodau cyngor lleol, ac yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

288 At ei gilydd, er hynny, nid oes digon o bobl yn ymwneud â gwasanaethau cymorth ieuencid. Nid yw Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn gwybod yn union faint o bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau yma, pa mor dda maen nhw'n cyflawni, y medrau y maen nhw'n eu dysgu na chyflymder eu cynnydd. Heb wybodaeth reoli glir am bobl ifanc, a pham maen nhw'n dewis defnyddio'r gwasanaethau yma neu beidio, nid yw partneriaethau'n gallu gwneud gwasanaethau'n fwy deniadol, perthnasol nac yn haws i bobl fynd atyn nhw.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 38: Ansawdd gwaith gyda phobl ifanc ac asesu mewn gwasanaethau cymorth ieuencid (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi)



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

- 289 At ei gilydd, mae ansawdd gwaith staff y gwasanaethau cymorth ieuencid yn dal i wella. Erbyn hyn mae 95% o'r gwaith yn dda neu'n well o gymharu ag 88% ar ddechrau'r cylch arolygu yn 2004-2005.
- 290 Mae gan y rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth ieuencid berthnasod gwaith da gyda phobl ifanc. Maen nhw'n defnyddio'r hyn maen nhw'n ei wybod am y bobl ifanc y maen nhw'n gweithio gyda nhw i gynllunio'n well ac i ofalu bod sesiynau'n herio ac yn ymestyn pobl ifanc. Er hynny, mae lleiafrif o'r staff yn cyflwyno sesiynau sydd wedi'u cynllunio'n wael. Nid yw'r staff yma'n canolbwyntio'u gwaith ar anghenion pobl ifanc nac yn herio pobl ifanc i ymestyn eu dysgu.
- 291 Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn gwybod mwy am y gwasanaethau cymorth ieuencid yn eu hardal nag yr oedden nhw yn y blynyddoedd blaenorol. Erbyn hyn maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth yma'n well i wella cydlynid, amrediad a dosbarthiad y gwasanaethau. Ond mae'n dal yn anodd i bobl ifanc gael gwybodaeth glir am yr hyn sydd ar gael iddyn nhw. Hefyd, nid yw pobl ifanc ag anabledau, y rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, neu'r rheini y mae angen Gwasanaethau Cymunedol Iechyd Meddwl y Glasoed (CAMHS) arnyn nhw, a'r rheini dros 19 oed, yn gallu mynd yn rhwydd at eu hawliau i gyd.
- 292 Nid yw partneriaethau'n cynllunio'n strategol i helpu pobl ifanc i ddatblygu'u [medrau sylfaenol](#) nac i ddefnyddio'u medrau iaith Gymraeg. Dim ond mewn ychydig iawn o leoliadau gwasanaethau cymorth ieuencid y mae pobl ifanc yn cael eu hannog i ddefnyddio'u medrau dwyieithog.

- 293 Mae trefniadau digonol gan yr holl wasanaethau cymorth ieuencid a gafodd eu harolygu ar gyfer [diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed](#). Er hynny, mewn dwy o'r pedair ardal a gafodd eu harolygu, mae achosion o hyd o weithwyr newydd yn dechrau'u cyflogaeth cyn bod archwiliadau'r [Swyddfa Cofnodion Troseddol](#) (CRB) wedi'u clirio.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 294 Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y partneriaethau a gafodd eu harolygu eleni wedi gwella ychydig, ond mae diffygion pwysig o hyd mewn cynllunio cyffredinol, sicrhau ansawdd a rheoli adnoddau.
- 295 Mae uwch reolwyr ac aelodau etholedig wedi ymrwymo'n gryf i wella gwasanaethau i bobl ifanc trwy weithio mewn partneriaethau. Erbyn hyn mae cysylltiadau cliriach rhwng cynlluniau strategol lleol pwysig, ac mae hyn yn helpu i wella'r cynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuencid. Ond nid yw partneriaethau'n dda iawn o hyd o ran gwneud yn siŵr bod y darparwyr i gyd yn chwarae rhan lawn yn y broses o gyflawni targedau ar y cyd.
- 296 Nid yw'r trefniadau sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn. Mae adroddiadau hunanasesu'n rhy ddisgrifiadol ac nid ydyn nhw'n cynnwys arfarnu manwl. Nid yw partneriaethau'n eu defnyddio'n ddigon effeithiol fel sail i welliant. Nid ydyn nhw'n casglu digon o ddata ynglŷn â'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth ieuencid, na data ynglŷn â rhesymau llawer o bobl ifanc dros beidio

â'u defnyddio. Nid ydyn nhw chwaith yn arfarnu'r gwahaniaethu y mae gwasanaethau'n ei wneud i'r bobl ifanc sy'n eu defnyddio.

- 297 Mae cyfathrebu yn y sector gwirfoddol yn gwella. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol y gwasanaethau gwirfoddol yn mynd ati cyn cyfarfodydd y partneriaethau i roi gwybodaeth lawn i'w cynrychiolwyr. Hefyd, mae ganddyn nhw ffyrdd effeithiol o gyfathrebu â sefydliadau gwirfoddol ac o roi gwybod iddyn nhw am y materion pwysig mae partneriaethau'n eu trafod.
- 298 Mae partneriaethau'n gwneud cynnydd da o ran datblygu'u rôl fel prynwyr gwasanaethau, gan gynnwys tynnu'n ôl rhywfaint o waith a gafodd ei ariannu'n flaenorol pan nad yw'n berthnasol i flaenoriaethau sydd wedi'u nodi.
- 299 Mae gan fwyafrif o'r partneriaid staff cymwys a phrofiadol iawn. Mae'r gwasanaethau cymorth ieuenctid yn dod at ei gilydd i gynnig llawer o gyfleoedd hyfforddi da. Er hynny, nid oes gwaith cyffredinol yn y partneriaethau o ran cynllunio i ddatblygu gweithlu'r gwasanaethau cymorth ieuenctid, er gwaethaf gofynion y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.
- 300 Mae llawer o wasanaethau cymorth ieuenctid yn dda neu'n dda iawn o ran dod â ffrydiau ariannu at ei gilydd i ychwanegu at eu hadnoddau ac i ddatblygu prosiectau ar y cyd.
- 301 Mewn tair o'r pum ardal awdurdod lleol a gafodd eu harolygu, mae gwasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol yn cael cyllid hael drwy [Asesiad Gwariant Safonol](#) (AGS) Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ond mae gwasanaethau ieuenctid y ddau awdurdod lleol arall yn cael llai o lawer. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol yma'n gorfod dibynnu gormod ar gyllid allanol

i gyflwyno gwasanaethau craidd, ac mae hyn yn golygu bod gwasanaethau pwysig mewn perygl o gael eu cau pan fydd y cyllid yn dod i ben.

- 302 O'r pedair partneriaeth a gafodd eu harolygu, mae'r gwerth am arian mae tair yn ei ddarparu'n foddhaol. Mae un yn darparu gwerth gwael am arian.
- 303 I ddarllen mwy am y gwasanaethau cymorth ieuenctid y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Y system cyfiawnder ieuenctid

- 304 Eleni fe gymeron ni ran mewn arolygiadau mewn pedwar tîm troseddau ieuenctid ac un arolygiad dilynol o leoliad diogel. Mae 18 o dimau troseddau ieuenctid yng Nghymru.

Safonau

- 305 Mae pobl ifanc yn y lleoliadau yma'n aml wedi colli llawer iawn o'u haddysg, ac nid ydyn nhw'n ymddwyn, yn darllen nac yn ysgrifennu'n dda. Maen nhw'n ei chael hi'n anodd gweithio gyda phobl eraill. Er hynny, prin iawn o hyd yw eu cyfleoedd i gael addysg amser llawn gydag athrawon sy'n gallu diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn wir yn yr holl dimau troseddau ieuenctid a gafodd eu harolygu, ac nid oes unrhyw welliant wedi bod ers y llynedd. Mae llawer o bobl ifanc yn gorfod aros am leoliadau mewn addysg, ac nid ydyn nhw'n cael y 25 o oriau sy'n cael eu hargymell. Nid yw gofynion ieithyddol a diwyllianol pobl ifanc y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw'n cael eu bodloni.

306 Er gwaethaf hyn, yn y timau troseddau ieuencid ac yn y lleoliad diogel, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn dewis helaeth o ymyriadau heriol y maen nhw'n eu mwynhau. Mae'r ymyriadau'n gwella'r ffordd y maen nhw'n gweithio gyda phobl eraill ac yn tynnu'u sylw oddi ar droseddu. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun Gwobr Dug Caeredin, prosiect ynglŷn â bod yn ddiogel ar y stryd, a gweithio ym maes camddefnyddio sylweddau gyda grŵp theatr. Yn gyffredinol mae pobl ifanc dros 16 oed yn cael cymorth da gan Gyrfa Cymru ac maen nhw'n gallu mynd yn rhwydd at hyfforddiant pellach.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

307 Yn yr holl dimau troseddau ieuencid a'r lleoliad diogel a gafodd eu harolygu eleni, nid yw staff yn ddigon gofalus wrth asesu a chofnodi anghenion addysg a hyfforddiant pobl ifanc. Ychydig iawn o staff sy'n defnyddio cynlluniau addysg unigol i arwain ac i fonitro pa mor dda maen nhw'n diwallu anghenion addysgol pobl ifanc. Nid yw staff yn rhoi digon o gymorth i'r holl bobl ifanc sydd â datganiadau o [anghenion addysgol arbennig](#).

308 Mae staff yn y lleoliad diogel a gafodd ei arolygu yn asesu medrau sylfaenol y bobl ifanc yn dda, ac yn rhoi adborth da iddyn nhw. Ond nid ydyn nhw'n defnyddio'r canlyniadau yma i gynllunio'u gwersi'n ddigon da i wneud yn siŵr bod y gwaith ar y lefel iawn i bawb. Heblaw yn un o'r timau troseddau ieuencid a gafodd eu harolygu eleni, nid yw staff y timau'n gallu mynd yn ddigon rhwydd at asesiadau a chymorth gan yr awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc â medrau sylfaenol gwael. Mae un tîm troseddau ieuencid yn darparu tiwtor medrau sylfaenol rhan-amser er mwyn gwneud iawn am ddiffyg darpariaeth yr awdurdod lleol. Mae hyn yn gweithio'n dda. Ond nid

i'r pwrpas yma y cafodd timau troseddau ieuencid eu sefydlu. Eu rôl yw gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau'r gwasanaethau gorau ar gyfer eu pobl ifanc, gan ddefnyddio adnoddau'r awdurdod lleol ac adnoddau eraill y mae gan bobl ifanc hawl iddyn nhw.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

309 Mae'r gwendid yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer pobl ifanc sy'n treulio cyfnod o ddedfryd yn y gymuned yn dal yn destun pryder. Canran y troseddwy'r ifanc yng Nghymru sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn yw 65%. Mae hyn ymhell islaw targed y [Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid](#), sef i 90% o droseddwy'r ifanc fod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn. Mae'r perfformiad ar draws yr 18 o dimau troseddau ieuencid yng Nghymru yn amrywio o 41% i bron i 80% o ddysgwyr mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn. Mae'r awdurdodau lleol sy'n cyflawni'r targedau uchaf yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ac yn darparu dewis o becynnau addysg unigol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion ac arddulliau dysgu penodol. Hefyd, mae cynrychiolaeth dda o faes addysg ar y lefel uchaf ar fwrdd rheoli TTI. Er hynny, mae'r data mae'r TTIau yn ei gaglu'n dal i ganolbwyntio ar eu presenoldeb yn hytrach na pha mor dda maen nhw'n gwneud pan fyddan nhw yno. Canlyniad hyn yw nad ydyn nhw'n gwybod pa mor dda mae pob unigolyn ifanc neu'r grŵp yma o bobl ifanc yn ei wneud.

310 Ym mhob un o'r timau troseddau ieuencid a gafodd eu harolygu eleni, ychydig iawn o bobl ifanc sy'n cael yr oriau a argymhellwyd o addysg y mae awdurdodau lleol i fod i'w darparu. Mewn un tîm troseddau ieuencid, mae cymaint â thraean o'r bobl ifanc dan

16 oed yn cael llai na 15 awr yr wythnos. Mae un tîm troseddau ieuencid yn gweithio'n agosach gyda swyddogion awdurdod lleol fel bod pobl ifanc yn cael mwy o addysg. Nid oes digon o wybodaeth gan bwyllgorau rheoli timau troseddau ieuencid bob amser, ac nid ydyn nhw'n gwneud digon i ddiwallu anghenion addysgol pobl ifanc. Nid ydyn nhw bob amser yn creu cynlluniau sy'n disgrifio sut y byddan nhw'n mynd ati i ddiwallu'r anghenion yma. Nid yw rheolwyr timau troseddau ieuencid bob amser yn cysylltu'n ddigon gofalus y cynlluniau cyfiawnder ieuencid â chynlluniau awdurdodau lleol.


- 311 I ddarllen mwy am y timau troseddau ieuencid a gafodd eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Dysgu oedolion yn y gymuned

- 312 Eleni, roedd pum arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned ac un ailarolygiad. Mae cyfanswm o 25 o ddarparwyr yng Nghymru¹³.

Safonau

Siart 39: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn dysgu oedolion yn y gymuned (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi) yn 2007-2008




¹³ Gwelwch atodiad 1 am y manylion.

- 313 Mae safonau mewn dysgu oedolion yn y gymuned yn dal i wella. Mae llawer o oedolion yn cyflawni safonau da neu dda iawn yn eu gwaith. Canran y gwaith lle mae'r safonau'n dda o leiaf yw 82%. Mae hyn bedwar pwynt canran yn uwch nag yn yr ardaloedd daearyddol a gafodd eu harolygu y llynedd, ac mae ychydig yn well na'r flwyddyn cyn hynny. Dim ond 3% o'r gwaith a gafodd ei arolygu eleni sy'n anfodhaol.
- 314 Er hynny, mae'r gyfran o ddysgwyr [Cymraeg i oedolion](#) sy'n cyflawni safonau da neu dda iawn bedwar pwynt canran yn is nag yn yr ardaloedd daearyddol a gafodd eu harolygu y llynedd.
- 315 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael gwybodaeth newydd ac yn dysgu amrywiaeth o fedrau. Mae'r rhain yn cynnwys rhianta, dinasyddiaeth, medrau busnes, a'r medrau allweddol ehangach o weithio gydag eraill a datrys problemau. Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau datblygu cymunedol yn defnyddio'u medrau newydd i gael swyddi neu i gael help gydag agweddau eraill ar eu bywydau.
- 316 Mae'r nodweddion sy'n cyfrannu at y safonau da a gafodd eu cyflawni eleni ar draws yr holl [feysydd dysgu](#) yn cynnwys:
- ✓ mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn llawn cymhelliant, yn frwdfrydig ac yn parchu eu cefndiroedd a'u diwylliant ei gilydd;
 - ✓ mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau grŵp; ac
 - ✓ mae llawer o ddysgwyr yn trefnu'u dysgu eu hunain y tu allan i sesiynau sy'n cael eu haddysgu, ac maen nhw'n dangos medrau dysgu annibynnol da.

- 317 Er hynny, mae cyfraddau cyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau'n amrywio gormod mewn Cymraeg i oedolion ac mewn Addysg Sylfaenol Oedolion (ASO) a [Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill](#) (SSIE). Nid yw darparwyr bob amser yn casglu neu'n dadansoddi data ynglŷn â pherfformiad dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod diffyg data dibynadwy ar draws Cymru. Canlyniad hyn yw nad yw tiwtoriaid a rheolwyr yn gallu canolbwyntio ar wneud gwelliannau lle mae eu hangen.
- 318 Mae arolygiadau eleni'n dal i nodi diffygion yn yr asesu, ac nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn gwybod pa mor dda y maen nhw'n gwneud cynnydd a'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud i wella. Nid yw llawer o ddysgwyr yn gwneud y defnydd gorau o'u [cynlluniau dysgu unigol](#) (CDUau) i gofnodi'u cynnydd.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 40: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer ansawdd addysgu ac asesu mewn dysgu oedolion yn y gymuned (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi) yn 2007-2008



- 319 Mae nodweddion da neu ragorol yn yr addysgu a'r asesu yn 74% o'r sesiynau a gafodd eu harolygu. Canran y sesiynau â diffygion eleni

oedd 26%, ac mae hynny'n welliant o wyth pwynt canran o gymharu â'r llynedd, ond mae'n is nag ar ddechrau'r cylch arolygu.

- 320 Tuedd tuag i lawr yn gyffredinol sydd wedi bod dros y tair blynedd yn yr holl feysydd dysgu mewn dysgu oedolion yn y gymuned. Mae safonau cyrhaeddiad yn amrywio gormod rhwng meysydd dysgu a rhwng ardaloedd daearyddol. Y rheswm am hyn yw nad yw safonau addysgu'n ddigon cyson ac nid yw rheolwyr yn gwneud digon i fonitro ac i wella safonau.
- 321 Roedd ansawdd yr addysgu a'r asesu'n well na'r llynedd yn yr holl feysydd dysgu ac eithrio Cymraeg i oedolion, a ddangosodd ostyngiad o ddau bwynt canran.
- 322 Er bod rhywfaint o welliant wedi bod ers y llynedd o ran defnyddio cynlluniau dysgu unigol, mae gormod o amrywiaeth yn y gwaith o ddefnyddio asesiadau a CDUau i helpu dysgwyr i wneud cynnydd.
- 323 Mae pryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth dysgu dwyieithog a dysgu cyfrwng Cymraeg. Y rheswm am hyn yw bod y darparwyr a gafodd eu harolygu eleni heb wneud digon o ymchwil i anghenion dysgu siaradwyr Cymraeg. Nid oes gan yr un o'r darparwyr yr ymwelon ni â nhw ddigon o diwtoriaid sy'n gallu cyflwyno cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hyn yn golygu bod bylchau yn y ddarpariaeth. Mae un darparwr wedi gwella'r defnydd o'r Gymraeg ar draws dewis helaeth o raglenni dwyieithog sydd wedi'u targedu. Ond nid yw'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn y rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio'r Gymraeg digon yn y dosbarth. Mae hyn yn golygu nad yw darparwyr bob amser yn diwallu anghenion dysgu dysgwyr Cymraeg eu hiaith.

- 324 Mae llawer o'r ysgolion bro y gwnaethon ni ymweld â nhw'n gweithio'n dda gyda'u cymunedau i gynnig gwell dewis o gyfleoedd dysgu i bawb. Er enghraifft, maen nhw'n cynnal diwrnodau o hwyl ar gyfer teuluoedd ac yn cynnig cynlluniau dysgu yn ystod y gwyliau.
- 325 Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio dewis addas o strategaethau ac adnoddau addysgu i gynnal diddordeb dysgwyr. Er hynny, nid yw darparwyr bob amser yn cynllunio cefnogaeth i ddysgwyr yn ddigon da, ac mewn ychydig o ddsbarthiadau, nid yw dysgwyr yn cael digon o gefnogaeth gan diwtoriaid a rheolwyr. Mewn ychydig o achosion, nid yw tiwtoriaid yn ymwybodol o bolisiau sy'n bodoli i helpu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw tiwtoriaid a rheolwyr bob amser yn adnabod anghenion dysgu'n ddigon da mewn asesiadau cychwynnol. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu mynd yn rhwydd at yr help a'r gefnogaeth y maen nhw eu hangen, er enghraifft, y gwasanaethau mae Gyrfa Cymru'n eu darparu. Mae ychydig o ddysgwyr wedi methu cael offer sydd wedi'i addasu i'w helpu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 326 Am y tro cyntaf, fe wnaeth y **rhwydweithiau dysgu oedolion** a gafodd eu harolygu eleni greu un adroddiad hunanasesu cynhwysfawr. Mae hwn wedi helpu arweinwyr a rheolwyr o wahanol ddarparwyr i barhau i wneud gwelliannau yn y ffordd y maen nhw'n cynllunio ac yn gweithio gyda'i gilydd. Er hynny, nid yw rhwydweithiau dysgu bob amser yn ystyried ac yn defnyddio cryfderau'r holl ddarparwyr yn eu hardal. Mae rhwydweithiau dysgu ym mhob ardal yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth ddarparu cyrsiau.

Mae'r partneriaethau yma wedi dechrau cyfrannu'n dda at yr agenda cynhwysiant cymdeithasol. Yn yr achosion gorau, mae rheolwyr yn gwneud cysylltiadau da â rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni adfywio. Mae darparwyr yn yr ardaloedd yma'n llwyddo i ddenu dysgwyr newydd, er nad yw llawer ohonyn nhw wedi bod yn gysylltiedig ag addysg ers tro. Ond mae angen i lawer o ddarparwyr unigol wneud mwy i ddweud wrth staff ar bob lefel am flaenoriaethau strategol.

- 327 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i drefnu gweithgareddau datblygu staff. Ond nid oes systemau digon cadarn ar waith gan ddarparwyr o hyd i adnabod a diwallu anghenion eu staff. Nid yw llawer o diwtoriaid yn defnyddio TGCh yn ddigon da i wneud dysgu'n ddiddorol i'w dysgwyr. Nid yw'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau sylfaenol dysgwyr yn eu haddysgu.
- 328 Nid yw hanner yr awdurdodau lleol yn yr ardaloedd a gafodd eu harolygu eleni'n adolygu cynlluniau strategol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned nac yn cydlynu'u rôl yn eu rhwydwaith dysgu lleol yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw rhwydweithiau dysgu'n gallu defnyddio digon ar gyfleusterau ac adnoddau'r awdurdod lleol.
- 329 Nid yw darparwyr yn defnyddio data'n systematig na'n ddigon da i'w helpu i osod targedau ar gyfer gwelliant nac yn adnabod yr angen am ddarpariaeth yn y dyfodol ac yn cynllunio ar ei gyfer. Nid yw darparwyr chwaith yn rhannu data o hyd ynglŷn â chofrestriadau a chyfraddau cwblhau gyda darparwyr eraill o fewn eu rhwydwaith. Mae hyn yn golygu nad yw darparwyr bob amser yn gwybod am yr anghenion yn eu hardal am addysg sylfaenol i oedolion.

- 330 Mae medrau llythrennedd chwarter o'r oedolion yng Nghymru'n isel neu'n isel iawn¹⁴. Mae hyn yn uwch nag yn Lloegr (16%) ac yn Ewrop (10%). Mae'r diffyg medrau sylfaenol yn amrywio ar draws ardaloedd Cymru. Gan ardaloedd y Cymoedd ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful, Caerffili, Tor-faen a Chastell-nedd Port Talbot y mae'r cyfrannau uchaf o bobl â lefelau isel o fedrau llythrennedd a/neu rifedd. Yma, mae pedwar o bob deg oedolyn yn methu darllen nac ysgrifennu'n iawn, ac mae oed darllen 11 neu is gan un o bob pedwar. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhieni yma'n gallu cynorthwyo'u plant gymaint gyda'u dysgu, ac mae hyn yn cyfrannu at y cylch o dangyflawni. Mae diffyg medrau sylfaenol mewn rhifedd gan 50% o'r boblogaeth o oed gweithio yng Nghymru.
- 331 Mae eu trefniadau sicrhau ansawdd eu hunain gan y rhan fwyaf o ddarparwyr unigol, ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n creu cynllun datblygu ansawdd. Ond nid yw darparwyr yn defnyddio'r systemau a'r cynlluniau yma'n ddigon effeithiol i gyfrannu at weithdrefnau sicrhau ansawdd ar y cyd ac i godi safonau.
- 332 Mae llawer o ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i rannu adnoddau ac i osgoi dyblygu. Ond nid yw lleiafrif o ddarparwyr yn adnabod nac yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddyn nhw ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Mewn dwy o'r ardaloedd y gwnaethon ni eu harolygu, does dim digon o athrawon wedi'u hyfforddi i ddiwallu'r angen sy'n tyfu am ddarpariaeth SSIE. Nid oes digon o staff o hyd sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 333 Dim ond gwerth boddhaol am arian y mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gafodd eu harolygu eleni'n ei ddarparu.
- 334 I ddarllen mwy am y darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).


¹⁴ Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol 2008

Addysg bellach

- 335 Eleni fe wnaethon ni arolygu pedwar coleg ac un sefydliad addysg uwch sy'n darparu addysg bellach. Mae 25 o ddarparwyr addysg bellach yng Nghymru.

Safonau

Siart 41: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn addysg bellach (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi)




- 336 Fe wnaethon ni arolygu rhyw hanner y meysydd dysgu yn y pedwar coleg, a'r unig un o feysydd dysgu'r sefydliad addysg uwch sydd mewn addysg bellach. Am y flwyddyn gyntaf yn y cylch arolygu presennol, nid oedd rhaid i ni ailarolygu unrhyw ddarparwr ar sail gwendidau a gafodd eu hadnabod yn arolygiadau'r flwyddyn flaenorol.
- 337 Mae safonau wedi gwella yn y darparwyr i gyd ers i ni eu harolygu nhw ddiwethaf. At ei gilydd, mae safonau'n dda neu'n dda iawn mewn 84% o'r sesiynau a gafodd eu harolygu. Mae hyn yn gyfran ychydig yn is na'r llynedd, ond mae'n dal uwchlaw'r targed o 80% mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i osod ar gyfer 2007.

- 338 Mae safonau'n dda neu'n dda iawn yn yr holl feysydd dysgu bron a gafodd eu harolygu. Mae safonau'n dda gyda nodweddion rhagorol mewn 10 o'r 29 o feysydd dysgu. Mewn un coleg, mae cyfran y meysydd dysgu sydd â gwaith rhagorol yn uchel iawn, ac mae nodweddion rhagorol gan bump o'r chwe maes dysgu a gafodd eu harolygu.
- 339 Mae nodweddion da yn y meysydd trin gwallt a harddwch mewn tri o'r colegau y gwnaethon ni eu harolygu. Mae dysgwyr yn dysgu medrau ymarferol da iawn ac yn gweithio'n dda iawn fel timau mewn salonau masnachol o safon.
- 340 Yn y colegau a gafodd eu harolygu, mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni'n dda ar y [cymhwyster Bagloriaeth Cymru](#) ar y lefel uwch. Mae dysgwyr mewn un coleg yn perfformio'n dda ar bob lefel. Ond yn y gweddill o'r colegau a gafodd eu harolygu, nid yw dysgwyr yn perfformio gystal at ei gilydd ar y lefel ganolradd a'r lefel sylfaen, a hynny'n bennaf am fod gormod o ddysgwyr yn methu ennill eu prif gymhwyster.
- 341 Mae'r dysgwyr ym mhob un o'r colegau a gafodd eu harolygu'n gwneud cynnydd da o ran dysgu medrau allweddol. Maen nhw'n gwneud hyn yn arbennig o dda pan fyddan nhw'n datblygu'r medrau trwy [faes dysgu](#) perthnasol. Er hynny, mae'r gyfran o ddysgwyr sy'n ennill dyfarniadau medrau allweddol yn amrywio gormod rhwng meysydd dysgu.
- 342 Mae mwyafrif o'r dysgwyr yn dangos cymhelliant ar lefel uchel ac mae llawer ohonyn nhw'n datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol. Er hynny, mewn ychydig o achosion, yn enwedig ar gyrsiau Safon Uwch, nid yw medrau dysgu annibynnol y dysgwyr yn ddigon da.

Yn yr achosion yma, nid yw dysgwyr yn gwneud digon o ymchwil nac yn darllen y tu hwnt i ofynion yr arholiad. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn bresennol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 42: Ansawdd yr addysgu a'r asesu mewn addysg bellach (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi)



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

- 343 Mae'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu'n dda neu'n dda iawn yn yr holl ddarparwyr a gafodd eu harolygu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i gynnal diddordeb dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio'u profiad diwydiannol a galwedigaethol yn dda iawn i ysgogi ac i herio dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn defnyddio TGCh yn dda i wneud gwersi'n fwy diddorol. Er hynny, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn trefnu gwersi digon amrywiol eu cynnwys i ddiwallu anghenion dysgwyr neu eu gwahanol ddulliau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith yn ofalus ac yn rhoi arweiniad clir i ddysgwyr ar yr hyn mae angen iddyn nhw ei wneud i wella safon eu gwaith.
- 344 Mae agweddau rhagorol ar eu darpariaeth gan yr holl ddarparwyr a gafodd eu harolygu eleni. Mae pob un ohonyn nhw'n rhoi ystyriaeth i bolisiau'r llywodraeth ar ehangu cyfranogiad. Maen nhw'n cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol iawn. Mae'r rhan fwyaf o golegau a gafodd

eu harolygu wedi ymestyn y dewis o wahanol gyrsiau maen nhw'n eu cynnig ar lefelau 1 a 2. Yn aml, mae cysylltiadau rhagorol â diwydiant gan y darparwyr a gafodd eu harolygu. Mae'r rhan fwyaf o'r colegau a gafodd eu harolygu'n cynnig cymhwyster Bagloriaeth Cymru i fwy a mwy o ddysgwyr ar bob lefel o'r diploma. Yn y rhan fwyaf o golegau, mae'r ddarpariaeth medrau allweddol wedi gwella'n fawr.

- 345 Mae gan dros hanner y colegau a gafodd eu harolygu bartneriaethau effeithiol ag ysgolion uwchradd. Mae'r colegau i gyd wedi gweithio'n dda i ymestyn eu gwahanol ddewisiadau galwedigaethol ar gyfer disgyblion ysgol yng nghyfnod allweddol 4. Mae pob un o'r colegau a gafodd eu harolygu wedi ymestyn eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn aml mae ganddyn nhw gysylltiadau da ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, ac maen nhw'n darparu cyrsiau dwyieithog mewn gofal plant ac mewn ychydig o feysydd galwedigaethol eraill.
- 346 Mae nodweddion rhagorol i ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth mewn dau o'r darparwyr a gafodd eu harolygu, ac mae'n dda yn y lleill. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys y cymorth llythrennedd a rhifedd mae dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol yn ei gael. Mae trefniadau da gan y rhan fwyaf o sefydliadau ar gyfer hyrwyddo lles pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae cynlluniau dysgu unigol da gan ddysgwyr yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, ac maen nhw'n cynnwys targedau priodol a heriol iddyn nhw weithio tuag atyn nhw.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 347 Mae'r rheolwyr yn y darparwyr a gafodd eu harolygu'n canolbwyntio'n dda ar wella safonau ac ansawdd. Mewn dau goleg, fe wellodd y rheolwyr y safonau a'r ansawdd mewn ffyrdd rhagorol. Mae eu disgwyliadau o'u dysgwyr yn uchel, ac maen nhw'n creu diwylliant o gyflawni ar lefel uchel.
- 348 Yn yr arolygwyr a gafodd eu harolygu, mae rheolwyr yn cyfathrebu'n dda iawn â staff. Mae uwch dimau rheoli'n arwain yn effeithiol, ac mae rheolwyr yn gwneud penderfyniadau clir ac yn eu gweithredu'n gyson. Mae gan y rhan fwyaf o'r darparwyr bartneriaethau strategol effeithiol gyda darparwyr eraill, ac maen nhw'n allweddol yn y gwaith o arwain y rhwydweithiau dysgu 14-19 lleol. Mae rheolwyr yn cydweddu blaenoriaethau colegau'n agos iawn â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer mentrau 14-19, ac â datblygu medrau ar lefel uchel yn y gweithlu.
- 349 I ddarllen mwy am Lwybrau Dysgu 14-19, [dilynwch y ddolen yma](#).
- 350 Mae'r llywodraethwyr ym mhob un o'r darparwyr a gafodd eu harolygu'n cyflawni'u rolau'n effeithiol. Mae rhai ohonyn nhw'n fedrus iawn ac yn llwyddo i roi cyfeiriad a chymorth i reolwyr colegau. Mae llywodraethwyr yn gwneud rheolwyr yn atebol mewn ffordd briodol am unrhyw ddiffygion yn eu perfformiad.
- 351 Mae gan yr holl ddarparwyr a gafodd eu harolygu systemau da iawn ar gyfer monitro a gwella ansawdd a safonau. Mae'r holl staff bron yn deall eu rôl yn nhrefniadau hunanasesu colegau ac maen nhw'n cyfrannu'n dda at hynny. Mae meysydd swyddogaethol darparwyr, fel adnoddau dynol a chyllid, yn cynhyrchu adolygiadau arfarnol o'u

perfformiad, ac mae ganddyn nhw gynlluniau da ar gyfer gwneud gwelliannau. Mae'r holl ddarparwyr a gafodd eu harolygu'n creu adroddiadau hunanasesu manwl ac arfarnol.

352 Mae systemau effeithiol gan staff i osod a monitro targedau ar gyfer pa mor dda mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill cymwysterau. Yn y rhan fwyaf o achosion, maen nhw'n defnyddio'r fewnrwyd yn dda i rannu data cywir ynglŷn â pherfformiad cyrsiau. Mae'r holl ddarparwyr a gafodd eu harolygu'n mynd ati i roi sylw i ddiffygion roedd eu hadroddiadau hunanasesu'n eu crybwyll.

353 Mae rheolwyr yn casglu barn dysgwyr, staff a chyflogwyr am ansawdd darpariaeth yn dda iawn. Maen nhw'n defnyddio holiaduron, arolygon a grwpiau ffocws yn dda. Maen nhw'n rheoli perfformiad staff yn dda drwy arsylwi addysgu a dysgu'n systematig. Mewn ychydig o ddarparwyr, mae'r adborth i staff ar ôl arsylwadau gwersi'n rhy gadarnhaol ac mae diffyg manylder. Yn yr achosion yma, nid yw tynnu sylw at arfer ragorol yn ddigonol nac yn helpu athrawon i wella'u gwaith.

354 Mae darparwyr yn cyflogi digon o staff â chymwysterau a phrofiad addas i gyflwyno'u cyrsiau. Mae profiad diwydiannol a masnachol da gan lawer o staff, ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cadw cysylltiad da â diwydiant. At ei gilydd, mae ansawdd yr adeiladau'n dda neu'n foddhaol, ond mae rhai mannau ac adeiladau anfoddhaol gan lawer o golegau. Mae pob un o'r sefydliadau a gafodd eu harolygu'n darparu gwerth da am arian.

355 I ddarllen mwy am y darparwyr a gafodd eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Dysgu yn y gwaith

356 Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni arolygu 16 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, ac ailarolygu dau. Mae 91 o ddarparwyr yng Nghymru ar hyn o bryd.

Safonau

Siart 43: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn dysgu yn y gwaith (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi) yn 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

357 Mae dysgwyr yn cyflawni safonau da neu well mewn 85% o'r sesiynau a gafodd eu harsylwi.

358 Fe wnaeth 38% o ddarparwyr gyflawni gradd 1 (da gyda nodweddion rhagorol) o gymharu â 9% yn 2005-2006 a 35% y llynedd. Mae'r ffigurau hyn yn dangos tuedd amlwg o wella. Fe wnaeth mwy o ddarparwyr gyflawni gradd 2 eleni na'r llynedd (o 35% i 50%).

359 Ym mhob un o'r chwe maes dysgu a gafodd eu harolygu, ar draws yr 16 o ddarparwyr, mae pob un ohonyn nhw'n foddhaol o leiaf neu'n well. Mae'r holl feysydd dysgu'n perfformio'n dda heb unrhyw wahaniaethau sylweddol rhyngddyn nhw. Mae tuedd gyffredinol o wella mewn perthynas â'r graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer Cwestiynau Allweddol 3 i 7, ond mae gormod o ddarparwyr yn dal i gael graddau boddhaol yn unig.

360 Mae'r safonau mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn meysydd dysgu unigol yn dangos cryn dipyn o welliant eleni. Mae rhyw 81% o feysydd dysgu, o gymharu â 68% y llynedd, yn dda neu'n dda gyda nodweddion rhagorol. O'r rhain, mae nodweddion da gan 44% ohonyn nhw. Nid yw'r meysydd iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal yn perfformio gystal â'r meysydd eraill, ond mae safonau'n gwella'n raddol.

361 Yn y mwyafrif o ddarparwyr, mae dysgwyr:

- ✓ yn datblygu medrau galwedigaethol da yn y gweithle;
- ✓ yn llawn cymhelliant ac yn bresennol yn rheolaidd mewn hyfforddiant;
- ✓ yn cwblhau pob un o'u cymwysterau medrau allweddol yn gynnar yn eu rhaglen hyfforddi;
- ✓ yn cynhyrchu portffolios sy'n llawn tystiolaeth dda; ac
- ✓ yn cael hyfforddiant da ac asesiadau rheolaidd mewn swydd gan gyflogwyr.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 44: Ansawdd yr hyfforddi a'r asesu mewn dysgu yn y gwaith (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi)



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

362 Mae ansawdd yr hyfforddi a'r asesu wedi dangos mwy o welliant eto eleni, ac mae nodweddion da neu ragorol gan 94% o sesiynau a gafodd eu harsylwi. Mae hyn yn cymharu â 71% y llynedd.

363 Mae nodweddion allweddol yn y rhan fwyaf o'r addysgu, y dysgu a'r asesu a gafodd eu harsylwi yn cynnwys:

- ✓ staff hyfforddi â medrau addysgu a gwybodaeth alwedigaethol dda;
- ✓ dysgwyr sy'n cael dewis helaeth o gyfleoedd asesu rheolaidd a phriodol;
- ✓ staff hyfforddi'n rhoi adborth adeiladol i ddysgwyr ar eu perfformiad; a
- ✓ chymorth da i ddysgwyr yn y gweithle.


364 Mae'r holl ddarparwyr bron yn cynnig dewis helaeth o raglenni hyfforddi priodol, o fewn y meysydd dysgu penodol y maen nhw'n eu cynnig, sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi sefydlu rhwydweithiau da o gyflogwyr sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddiant mewn swydd da i ddysgwyr.

- 365 Mae llawer o ddarparwyr yn gofalu eu bod yn adnabod ac yn diwallu gwahanol anghenion y dysgwyr o ran cefnogaeth. Mae staff hyfforddi yn y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cefnogi dysgwyr y tu allan i'r oriau gweithio arferol er mwyn bodloni patrymau gwaith afreolaidd y dysgwyr.
- 366 Mae cysylltiadau gwell na'r llynedd rhwng cyflogwyr lleol a chenedlaethol, [Cynghorau Sgiliau Sector](#) a chyrrff dyfarnu. Mae darparwyr yn defnyddio'r cysylltiadau yma'n dda i gael gwybodaeth ddiweddar am anghenion newidiol diwydiannau. Mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac mae hyn yn eu galluogi i rannu arfer dda ac i wella'r gwasanaeth i ddysgwyr. Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gysylltiadau da ag asiantaethau allanol sy'n cynnig cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr, er enghraifft, mewn perthynas â bod yn ddigartref, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a chyingor ac arweiniad ynglŷn â gyrfaeodd.
- 367 Mae dros hanner y darparwyr a gafodd eu harolygu'n gysylltiedig â Rhwydweithiau 14-19 lleol, ac yn aml yn rhan weithredol ohonyn nhw neu'n arwain wrth roi mentrau lleol ar brawf. Mae darparwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac, mewn llawer o achosion, gyda [Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru](#) i helpu i ehangu'r cwricwlwm 14-19 ac i ennyn diddordeb dysgwyr dan anfantais. Nid yw ychydig o Rwydweithiau 14-19 yn rhoi digon o sylw i ddysgu yn y gwaith, ac maen nhw'n methu cynnwys darparwyr dysgu yn y gwaith yn ddigonol. Er hynny, mae hyn yn gwella'n araf, diolch yn rhannol i ymdrechion Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.
- 368 Mae polisïau addas gan y rhan fwyaf o ddarparwyr i hybu lles dysgwyr. Mae gweithdrefnau effeithiol gan lawer o ddarparwyr i ddiogelu pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r cyfleoedd i staff ddysgu mwy am ddiogelu pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn gwella, ond mae angen mwy o gyfleoedd hyfforddi.
- 369 Mae llawer o ddarparwyr yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn diwallu anghenion gwahanol ddysgwyr yn dda. Mae lleiafrif bach o ddarparwyr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mewn llawer o ddarparwyr, nid oes digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac i ddysgu am ddiwylliant Cymru.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 370 Mae gwelliant sylweddol wedi bod yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth eleni. Roedd arweinyddiaeth a rheolaeth dda neu ragorol gan 76% o ddarparwyr, o gymharu â 64% y llynedd. Yn y darparwyr yma, mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad dysgwyr yn dda i osod targedau priodol ac i fonitro perfformiad dysgwyr a staff. Mewn dau ddarparwr (12%), mae diffygion mewn meysydd pwysig yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Mae hyn yn cymharu â 24% y llynedd a 46% yn 2005-2006, ac mae'n arwydd o duedd nodedig i wella (cyfeiriwch at siart 45 sy'n dilyn).

Siart 45: Canran y darparwyr â diffygion mewn meysydd pwysig mewn arweinyddiaeth a rheolaeth mewn dysgu yn y gwaith



- 371 Roedd y gwaith o reoli ansawdd yn dda neu'n well mewn dros hanner y darparwyr a gafodd eu harolygu. Mae hyn yn debyg i'r llynedd. Mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn adnabod eu cryfderau a'u gwendidau'n gywir, ac maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth yma'n dda i greu adroddiadau hunanasesu a chynlluniau gweithredu cadarn sy'n llawn gwybodaeth.
- 372 Mae ansawdd a rheolaeth adnoddau wedi gwella ychydig ers y llynedd. Yn gyffredinol, mae cymwysterau a phrofiad da gan staff yn eu meysydd dysgu. Mae gan lawer o ddarparwyr dewis da o adeiladau ac adnoddau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn

rhedeg rhaglenni datblygu staff addas, ac mae staff yn cymryd rhan mewn dewis helaeth o raglenni hyfforddi i wella'u perfformiad ac i ennill cymwysterau ychwanegol. O'r 16 o ddarparwyr a gafodd eu harolygu eleni, roedd 12 yn cynnig gwerth da neu dda iawn am arian, a phedwar yn cynnig gwerth boddhaol am arian. Mae hyn yn well na'r llynedd.

- 373 Fe wnaethon ni gynnal dau ailrolygiad eleni. Mewn un darparwr, fe wnaethon ni ailrolygu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Yn y llall, fe wnaethon ni ailrolygu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth a dau faes dysgu, sef Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith a Manwerthu a Menter Fasnachol. Yn y ddau ddarparwr, mae'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr bellach yn arwain y sefydliadau gyda phwyslais cadarn ar godi'r nifer sy'n ennill fframweithiau cymwysterau llawn. Maen nhw'n rhoi cyfeiriad clir mewn llawer o agweddau pwysig ar y busnes. Yn y ddau achos, mae'r darparwyr wedi mynd i'r afael â'r cynlluniau gweithredu o'u harolygiadau blaenorol yn dda, ac maen nhw wedi gwneud y gwelliannau gofynnol.
- 374 I ddarllen mwy am y darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

- 375 Eleni fe wnaethon ni arolygu wyth o ddarparwyr sy'n cyflwyno darpariaeth [Prif Gontract](#), [Canolfan Raglenni](#) a [Pharth Cyflogaeth](#) y Fargen Newydd y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n ei hariannu. Fe wnaethon ni hefyd ailrolygu dau ddarparwr am eu harweinyddiaeth a'u rheolaeth yn unig. Mae 39 o ddarparwyr yng Nghymru.

Safonau

- 376 At ei gilydd, mae safonau'n dda ym mhob un o'r darparwyr a gafodd eu harolygu. Mae 67% o'r darparwyr a gafodd eu harolygu'n dda gyda nodweddion rhagorol, neu nid oes ganddyn nhw unrhyw ddiffygion pwysig. Mae'r 33% arall yn foddhaol (gradd 3).
- 377 Yn y ddarpariaeth Parth Cyflogaeth, mae safonau'n dda iawn. Mae'r holl gleientiaid bron sy'n dechrau swydd yn ei chadw yn y tymor hir neu'r tymor byr. Mae canlyniadau swyddi'n dal i wella yn narpariaeth Prif Gontract a Chanolfan Raglenni'r Fargen Newydd, ond maen nhw'n dal islaw'r targedau mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi'u gosod.
- 378 At ei gilydd, mae llawer o gleientiaid yn ennill cymwysterau ychwanegol mewn meysydd fel hylendid bwyd, cymorth cyntaf a medrau sylfaenol. Mae hyn yn helpu cleientiaid i wella'u gobeithion o gael swydd a dileu rhai o'r pethau sy'n eu rhwystro rhag cael gwaith. Mae gan bron pob un o'r cleientiaid gynllun dysgu unigol sy'n cynnwys targedau personol ac sy'n cofnodi'u hanghenion dysgu penodol yn dda. Er hynny, mewn ychydig o achosion, nid yw staff hyfforddi bob amser yn cofnodi'n ddigon clir y targedau sydd gan gleientiaid wrth wneud ceisiadau am swyddi, a'u camau gweithredu.
- 379 Mae'r rhan fwyaf o gleientiaid yn ffurfio partneriaethau effeithiol gyda staff hyfforddi. Mae cleientiaid yn teimlo'u bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi, ac mae hyn yn cynyddu'u cymhelliant i ddod o hyd i swydd a'i chadw.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

- 380 Mae ansawdd hyfforddiant, cyngor, arweiniad a chymorth i alluogi cleientiaid i gael swydd neu i fynd i mewn i addysg neu hyfforddiant yn narparwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau a gafodd eu harolygu'n dda, ac mae'n dda iawn mewn ychydig o achosion. Mae bron yr holl sesiynau chwilio am swydd yn effeithiol ac yn helpu cleientiaid i ddeall pwysigrwydd curriculum vitae, ceisiadau am swyddi a thechnegau cyfweiliad. Mae darparwyr yn cynllunio ac yn cyflwyno sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith yn dda i ddiwallu anghenion cleientiaid eraill.
- 381 At ei gilydd, mae darparwyr yn diwallu anghenion dysgwyr yn dda. Yn yr achosion gorau, mae hyn yn cynnwys rhaglenni cymorth unigol priodol. Mae'r holl ddarparwyr yn gweithio gyda nifer o wahanol gyflogwyr lleol a chenedlaethol i roi'r profiad gwaith mwyaf addas i gleientiaid. Maen nhw'n gwneud defnydd da o weithio mewn partneriaethau i helpu cleientiaid dan anfantais i fynd yn ôl i'r gwaith.
- 382 Mae'r holl ddarparwyr yn rhoi llawer o ofal, arweiniad a chymorth i'w cleientiaid. Maen nhw'n gwneud cleientiaid yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael ac maen nhw'n gweithio gyda nhw i wneud yn siŵr eu bod nhw'n defnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw, fel tai neu gamddefnyddio cyffuriau. Mae ychydig o ddarparwyr yn cynnal gweithdai i gleientiaid ar sut i ddelio â materion ariannol, bwyta'n iach a choginio ar gyllideb.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 383 At ei gilydd, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well yn yr holl ddarparwyr a gafodd eu harolygu eleni. Fe wnaethon ni ailarolygu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn dau ddarparwr [Workstep](#). Roedd un darparwr wedi gwneud y gwelliannau oedd yn ofynnol. Ni wnaeth y darparwr arall wella digon, ac nid oes contract [Workstep](#) ganddo erbyn hyn.
- 384 Mae gan yr holl ddarparwyr ddatganiad clir o genhadaeth, sy'n gosod nodau ac amcanion strategol sy'n rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae darparwyr yn cyfleu eu gweledigaeth a'u gwerthoedd craidd yn dda i'r holl staff, i'r cleientiaid a'r rhanddeiliaid. Mae cyfathrebu'n dda yn yr holl ddarparwyr bron. Mae rheolwyr a staff yn cynnal cyfarfodydd cyson i drafod perfformiad contractau a materion yn ymwneud â chleientiaid.
- 385 At ei gilydd, mae darparwyr yn monitro ac yn arfarnu ansawdd a safonau yn eu darpariaeth yn briodol. Mae ymrwymiad cryf ymhlith bron pob un o'u rheolwyr a'u staff i ddatblygu diwylliant o welliant parhaus. Er bod safon dda i adroddiadau hunanasesu'r rhan fwyaf o ddarparwyr, nid yw llawer o ddarparwyr yn cynnwys y staff i gyd yn y broses. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn adnabod nodweddion a meysydd i'w gwella'n dda, ond mae gormod o'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio'n rhy gul ar faterion cydymffurfio'n unig, a dim digon ar safonau, addysgu a dysgu.
- 386 Mae staff yn gymwys yn gyffredinol i gyflwyno rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae profiad masnachol addas ganddyn

nhw. Mae systemau da ar waith gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ar gyfer rheoli perfformiad staff, ac maen nhw'n gosod targedau priodol ar gyfer staff. Mae llawer o staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddiweddarau'u gwybodaeth a'u medrau proffesiynol.

- 387 Mae safle darparwyr yn cynnig mynediad da i gleientiaid i ddarpariaeth, a hynny mewn lleoliadau cyfleus sydd yn aml yng nghanol tref. Mae'r adnoddau dysgu sydd ar gael i gleientiaid yn rhai o safon. Mae llawer o ddarparwyr wedi buddsoddi cryn dipyn i uwchraddio a gwella offer TGCh i gleientiaid.
- 388 I ddarllen mwy am y darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Dysgu oedolion sy'n troseddu

- 389 Fe wnaethon ni arolygu addysg a dysgu mewn dau garchar eleni, ac fe gynhalion ni un ailarolygiad. Hefyd, fe arolygon ni bob un o'r pedair ardal brawf.

Safonau

- 390 Yn y [ddalfa](#), mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni'n dda. Mae cyrhaeddiad yn dda mewn llawer o feysydd dysgu, ac mae'n dda iawn mewn ychydig ohonyn nhw. I lawer o'r dysgwyr yma, sy'n brin o hyder ac wedi cael profiadau gwael o ddysgu, mae hyn yn gyflawniad rhagorol. Mewn [hyfforddiant galwedigaethol](#) ac mewn [gweithdai carchardai](#), mae dysgwyr yn datblygu medrau ymarferol da sy'n codi eu hyder, a gallai hynny eu helpu i ddod o hyd i waith.

- 391 Mewn ardaloedd prawf, mae dysgwyr yn cyflawni'n dda. Mae ychydig ohonyn nhw'n gwneud cynnydd ac yn cyflawni medrau sylfaenol defnyddiol a chymwysterau galwedigaethol tra eu bod yn gwneud **gwaith di-dâl**. Mae hyn yn helpu i'w cymell ac yn gwella'u gobaiith o gael a chadw swydd.
- 392 Mae'r holl ddysgwyr bron yn dangos llawer o barch tuag at ei gilydd a'u tiwtoriaid. Maen nhw'n falch o'u cyflawniadau ac yn mwynhau siarad amdany'n nhw. Mae dysgwyr mewn sesiynau gwaith di-dâl yn teimlo'n dda ynglŷn â rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned. Maen nhw'n dysgu gweithio mewn timau ac yn gwella'u medrau cyfathrebu.
- 393 Nid yw dysgwyr ar raglenni medrau sylfaenol sy'n digwydd yn y gymuned yn gwneud gymaint o gynnydd ag y gallen nhw am nad ydyn nhw'n bresennol yn ddigon aml. Yn y ddalfa, nid yw prydlondeb dysgwyr yn ddigon da bob amser.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

- 394 Mae llawer o'r addysgu mewn carchardai'n dda, ond mae'n amrywio gormod mewn lleoliadau prawf. Yn y sesiynau gorau, mae tiwtoriaid yn cynllunio'n dda ac yn creu deunyddiau addysgu diddorol. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol dysgwyr yn dda.
- 395 Mewn carchardai a lleoliadau prawf, mae tiwtoriaid yn cynnig dewis eang o gymwysterau priodol sy'n helpu troseddwy'r i gael a chadw swydd. Er hynny, mewn dau garchar, does dim digon o gyfleoedd addysg a gwaith i ddysgwyr, ac mae rhestrau aros hir i ymuno

â dosbarthiadau. Yn aml, wrth i droseddwy'r symud o garchar i garchar, maen nhw'n colli eu lle ar y rhestr aros.

- 396 Yn yr holl garchardai bron, does dim digon o ddsbarthiadau medrau sylfaenol i ddiwallu anghenion dysgwyr. Nid yw llawer yn gallu mynd yn ddigon rhwydd at lyfrgell y carchar. Prin iawn hefyd yw'r lleoedd sydd ar gael mewn addysg a hyfforddiant.
- 397 Yn yr holl leoliadau, nid yw rheolwyr a thiwtoriaid yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru'n ddigon da.
- 398 Nid yw dysgwyr sy'n droseddwy'r yng Nghymru'n gallu mynd yn ddigon rhwydd at wasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o safon.
- 399 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn carchardai a lleoliadau prawf yn cael cyflwyniad defnyddiol i'w rhaglenni dysgu. Mae'r rhain yn esbonio'u hawliau a'u cyfrifoldebau'n glir. At ei gilydd, mae staff carchardai a staff prawf, a dysgwyr, yn rhoi sylw da iawn i faterion amrywiaeth a chyfle cyfartal fel un agwedd ar eu haddysg.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 400 Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda yn gyffredinol. Mewn carchardai a lleoliadau prawf, mae rheolwyr wedi gosod nodau clir ac mae cysylltiadau da â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r holl reolwyr bron yn rhagori ar eu targedau ar gyfer dysgwyr yn ennill dyfarniadau medrau sylfaenol a medrau gwaith, ac ar gyfer cael dysgwyr i swyddi y maen nhw'n eu cadw. Ond mae'r pwyslais ar fodloni targedau'n golygu nad yw darparwyr bob amser yn diwallu anghenion dysgu pob unigolyn.

- 401 Mae llawer o reolwyr yn defnyddio partneriaethau â darparwyr eraill i wella ansawdd ac amrywiaeth cyfleoedd dysgu. Er hynny, nid yw'r rheiny sy'n gyfrifol am reoli addysg a hyfforddiant bob amser yn arbenigwyr ar addysg a hyfforddiant. Felly, nid yw rheolwyr o hyd yn monitro'r cyfleoedd hyn yn ddigon da.
- 402 Mae strategaethau ar waith gan y rhan fwyaf o garchardai i wella ansawdd a safonau, gan gynnwys trefniadau hunanasesu da. Nid ydyn nhw wedi datblygu gystal mewn ardaloedd prawf. Er hynny, mae'r darparwyr i gyd yn aml yn mesur presenoldeb yn hytrach na'r canlyniadau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni. Yn y carchardai ac yn yr ardaloedd prawf, mae rheolwyr yn rhoi sylw teg i farn y dysgwyr.
- 403 Mae cymwysterau a phrofiad da gan llawer o staff. Mae'r pwyslais ar hyfforddiant a datblygiad staff yn dda iawn, gyda'r nod o ddiwallu anghenion dysgwyr.
- 404 Nid yw'r trefniadau i droseddwy'r barhau â'u dysgu rhwng eu hamser yn y ddalfa a dychwelyd i'r gymuned yn ddigon da. Mewn dosbarthiadau medrau sylfaenol yn y gymuned, nid yw staff prawf yn cyfeirio troseddwy'r yn ddigon rheolaidd ac nid yw presenoldeb troseddwy'r yn ddigon da. Mae hyn yn golygu nad yw adnoddau dosbarth yn cael eu defnyddio digon ar brydiau. At ei gilydd, mae adnoddau ar gyfer dysgu troseddwy'r mewn carchardai ac ardaloedd prawf yn rhoi gwerth digonol am arian.
- 405 I ddarllen mwy am y darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Cwmniau Gyrfa Cymru


- 406 Eleni, fe wnaethon ni arolygu Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin, sef un o chwe chwmni Gyrfa Cymru.

Safonau

- 407 Mae'r rhan fwyaf o gleientiaid yn gwneud cynnydd da neu dda iawn wrth fynd ati i roi cyngor ac arweiniad ynglŷn â gyrfaedd. Trwy gymryd rhan mewn cyfweiliadau a/neu waith grŵp, maen nhw'n gwybod mwy am gyfleoedd gyrfa a dysgu. Mae eu gallu i ganolbwyntio'n well ac maen nhw'n realistig ynglŷn â dewis gyrfa. Maen nhw'n gwella'u medrau cynllunio gyrfa gryn dipyn.
- 408 Mae llawer o gleientiaid yn dysgu defnyddio gwefan Gyrfa Cymru i gael gwybodaeth. Mae bron pob un o'r cleientiaid ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg yn gysylltiedig â gwaith yn gwella'u dealltwriaeth o'r medrau mae cyflogwyr yn chwilio amdany'n nhw. Mae cleientiaid ifanc sy'n ddi-waith yn gwybod am swyddi gwag. Maen nhw'n datblygu medrau sy'n eu helpu i fynd yn eu blaen yn y gweithle. Mae bron pob un o'r cleientiaid sy'n oedolion yn gliriach eu meddwl ynglŷn â'u nodau gyrfa. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n symud yn eu blaen yn dda i swydd newydd, addysg neu hyfforddiant.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 46: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer ansawdd cyngor, arweiniad a gwaith grŵp mewn Cwmnïau Gyrfa Cymru (canran y sesiynau a gafodd eu harsylwi) 2007-2008



409 Yng Ngyrfa Cymru Gogledd Orllewin, mae llawer o gyfweiliadau â chleientiaid yn rhagorol neu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o sesiynau gwaith grŵp yn rhagorol neu'n dda. Mae'r cwmni'n hyrwyddo dwyieithrwydd yn gryf. Mae staff yn gwneud yn siŵr bod cleientiaid yn cael gwasanaethau yn eu dewis iaith. Maen nhw'n cynnig dewis eang o wasanaethau da iawn i gleientiaid sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae eu cysylltiadau â chyflogwyr yn rhagorol. Mae'r cwmni'n gweithio gydag dewis eang o bartneriaid lleol i gynorthwyo cleientiaid. Mae staff yn cynnig gofal a chefnogaeth ragorol i'r cleientiaid i gyd. Mae hyn yn cynnwys y rheini ag anawsterau dysgu a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, fel y cleientiaid hynny sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r cwmni'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn rhagorol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth


- 410 Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol yng Nghyrfa Cymru Gogledd Orllewin. Mae rheolwyr yn datblygu pob aelod o staff i fod yn arweinwyr. Mae amrywiaeth dda o arbenigedd a phrofiad gan aelodau'r bwrdd. Mae perthnasoedd cynhyrchiol iawn gyda rheolwyr â staff ac undebau.
- 411 Mae rheolwyr yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer staff a chleientiaid. Mae gwasanaethau'r cwmni'n ymateb yn dda iawn i anghenion lleol. Mae rheolwyr yn chwarae rhan ddylanwadol mewn partneriaethau strategol ar draws ardal y cwmni. Mae rheolwyr wedi datblygu systemau da ar gyfer rheoli a sicrhau ansawdd. Maen nhw'n defnyddio'r rhain yn dda i godi safonau. Mae hunanasesu'n gynhwysfawr ac yn drylwyr. Mae pob aelod o staff a phartneriaid allweddol yn cymryd rhan yn y broses yma. Mae'r cwmni'n gwneud defnydd effeithlon iawn o'i holl adnoddau i wella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer cleientiaid. Drwy weithio'n dda gyda phartneriaid lleol, ar draws y pedwar awdurdod lleol, mae'r cwmni'n gallu crynhoi cyllid ac adnoddau. Mae'n cynnig gwerth rhagorol am arian.
- 412 I ddarllen yr adroddiad llawn, dilynwch y ddolen yma: http://www.estyn.gov.uk/inspection_reports/cy_Careers_Wales_North_West_Sept_Oct_2007.pdf

Ysgolion annibynnol (heb gynnwys ysgolion arbennig annibynnol)

413 Eleni, fe arolygon ni naw o'r 37 o ysgolion annibynnol yng Nghymru.


Safonau

Siart 47: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn ysgolion annibynnol (canran y gwersi a gafodd eu harsylwi) 2007-2008




■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

Siart 48: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn ysgolion annibynnol yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 (canran y gwersi a gafodd eu harsylwi) 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

Siart 49: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn ysgolion annibynnol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 (canran y gwersi a gafodd eu harsylwi) 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

Siart 50: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn ysgolion annibynnol yn y chweched dosbarth (canran y gwersi a gafodd eu harsylwi) 2007-2008



■ Gradd 1 ■ Gradd 2 ■ Gradd 3 ■ Gradd 4 ■ Gradd 5

414 Mewn chwech o'r naw o ysgolion annibynnol y gwnaethon ni eu harolygu eleni, mae safonau cyffredinol yn dda neu'n well. Mae nodweddion rhagorol yn y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn eu cyflawni mewn hanner o'r ysgolion uwchradd a gafodd eu harolygu, ac yn y safonau mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn eu cyflawni yn y mwyafrif o'r ysgolion sydd â darpariaeth ôl-16.

- 415 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn cyflawni safonau da mewn medrau allweddol. Mewn rhyw hanner yr ysgolion, mae nodweddion rhagorol i'r medrau allweddol. Er hynny, mewn rhyw draean o ysgolion, nid oes dealltwriaeth ddigon clir gan ddisgyblion o ba mor dda maen nhw'n gwneud a beth mae angen iddyn nhw ei wneud i wella. Nid ydyn nhw chwaith yn datblygu digon ar eu medrau dysgu annibynnol.
- 416 Mewn ysgolion uwchradd, mae canlyniadau arholiadau cyhoeddus yn cymharu'n dda â chyfartaleddau cenedlaethol. Yn hanner yr ysgolion yma, mae disgyblion yn cyflawni canlyniadau rhagorol sy'n unol â'r ysgolion â'r cyrhaeddiad uchaf yng Nghymru.
- 417 Yn yr holl ysgolion bron, mae disgyblion yn llawn cymhelliant, maen nhw'n ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch tuag at eraill. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae nodweddion rhagorol mewn medrau personol, cymdeithasol a dysgu disgyblion. Mae disgyblion yn dangos llawer o ddiddordeb ac ymroddiad, a'r gallu i ganolbwyntio ac i weithio gyda disgyblion eraill. Mewn tri chwarter yr ysgolion, mae presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn dda. Mewn un ysgol, mae cyfraddau presenoldeb is gan ddisgyblion iau yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. Mewn ysgol arall, mae rhyw hanner y disgyblion yn cyrraedd yn hwyr yn y bore ac mae lefelau presenoldeb yn rhy isel. Rhan o'r rheswm am hyn yw bod nifer bach o ddisgyblion yn cael cyfnodau hir o absenoldeb i fynd gyda'u teuluoedd ar ymweliadau estynedig i ffwrdd o'r cartref.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

- 418 Mae ansawdd addysgu ac asesu'n dda neu'n well mewn tri chwarter o'r gwersi a gafodd eu harolygu.

Siart 51: Dosbarthiad y graddau a gafodd eu dyfarnu ar gyfer ansawdd addysgu, dysgu ac asesu mewn ysgolion annibynnol (canran y gwersi) 2007-2008



- 419 Nodweddion rhagorol yr addysgu yw:
- ✓ disgwyliadau uchel gan ddisgyblion o bob gallu, sy'n hybu rhagoriaeth; a
 - ✓ chwestiynu medrus sy'n gofyn i ddisgyblion feddwl yn ofalus am eu gwaith a chynnig atebion estynedig.
- 420 Er hynny, mewn rhyw chwarter o wersi lle mae diffygion yn yr addysgu, mae cyflymder y gwersi'n rhy araf, ac nid yw'r cynllunio'n diwallu anghenion disgyblion. Yn y mwyafrif o ysgolion, nid yw athrawon yn esbonio'n ddigon da i'r disgyblion sut mae gwella. Nid yw athrawon yn eu cynnwys digon yn y broses o gynllunio'u cynnydd a'u gwelliant eu hunain.

- 421 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu profiadau dysgu da sy'n diwallu anghenion disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb. Mae'r rhain yn hybu eu datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae rhaglenni allgyrsiol da iawn sy'n ymestyn gwybodaeth disgyblion, yn meithrin agweddau cadarnhaol ynglŷn â ffyrdd gweithgar o fyw, ac yn helpu disgyblion i ddatblygu hunanhyder a medrau cymdeithasol.
- 422 Ond mewn rhyw hanner yr ysgolion, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu ac i gymhwyso'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.
- 423 Mae gweithdrefnau effeithiol gan lawer o ysgolion i ofalu bod disgyblion i gyd yn cael gofal, arweiniad a chefnogaeth dda. Er hynny, nid yw lleiafrif o ysgolion yn mynd ati'n ddigon da i asesu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ac i gydlynu'r gefnogaeth ar eu cyfer yn effeithiol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 424 Mewn traean o'r ysgolion y gwnaethon ni eu harolygu, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n well. Mewn llawer o ysgolion, mae perchnogion a phenaethiaid yn gosod cyfeiriad clir ac yn sefydlu gwerthoedd, nodau ac amcanion hawdd eu deall. Yn yr ysgolion yma, mae synnwyr cyffredin o ddiben sy'n cymell staff addysgu'n dda ac yn annog y disgyblion i ymddwyn yn dda ac i ddangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.
- 425 Mae arweinwyr a rheolwyr mewn ychydig o ysgolion yn gosod targedau priodol i staff a thimau ar gyfer codi safonau. Mae ganddyn nhw weithdrefnau â strwythur da ar gyfer arfarnu ac adolygiadau blynyddol. Er hynny, yn y mwyafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn gosod targedau ddigon heriol nac yn rheoli a gwella perfformiad staff unigol a thimau'n ddigon da. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae diffyg eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau strategol arweinwyr pwnc.
- 426 Mae ychydig o'r ysgolion yr arolygon ni eleni'n bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r lleill yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddio yma. Hefyd, fe wnaethon ni ailymweld ag wyth o ysgolion a gafodd eu harolygu yn 2006-2007 ac a oedd wedi methu cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio. Mae hanner yr ysgolion yma'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion yma erbyn hyn, ond roedd y lleill yn dal i fethu bodloni nifer o reoliadau penodol.
- 427 Mae trefniadau hunanarfarnu effeithiol gan ychydig o ysgolion. Yn yr ysgolion yma, mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod cryfderau a gwendidau'u hysgol yn dda iawn. Mae gan lawer o'r ysgolion a gafodd eu harolygu brosesau anffurfiol da sy'n galluogi arweinwyr a rheolwyr i adnabod llawer o flaenoriaethau allweddol, ond nid oes ganddyn nhw drefniadau hunanarfarnu sy'n gynhwysfawr nac yn ddigon cadarn. Canlyniad hyn yw nad yw cynlluniau datblygu'n ddigon cadarn i sicrhau gwelliannau yn ansawdd addysg ac i godi safonau.

428 Mewn llawer o ysgolion, mae perchnogion a phenaethiaid yn dyrannu adnoddau'n effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod digon o staff profiadol sydd â chymwysterau da, adnoddau priodol ac adeiladau addas i ategu'r dysgu. Mae mwyafrif o ysgolion yn gwneud defnydd da o gyfleusterau oddi ar y safle a'r amgylchedd lleol i wella profiadau dysgu disgyblion. Ond mewn bron hanner yr ysgolion, prin yw'r cyfleoedd i ddefnyddio offer TGCh. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddatblygu'r medrau yma ar draws y cwricwlwm.


429 I ddarllen mwy am yr arolygiadau y cynhalion ni eleni, [dilynwch y ddolen yma](#).

Hyfforddiant cychwynnol athrawon

430 Eleni fe wnaethon ni arolygu un darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon, sef Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Mae wyth o ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru.

Safonau

Siart 52: Y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon (canran y gwersi a gafodd eu harsylwi)



431 Mae'r addysgu i hyfforddeion yn dda neu'n dda iawn mewn 67% o wersi. Mae hyn 12 pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd o 55% ar gyfer hyfforddeion a gafodd eu gweld yn ystod y cylch diwethaf o arolygiadau hyfforddiant cychwynnol athrawon (1996-2002). Mae safonau hyfforddeion ar y cwrs Tystysgrif Ôl-radd Addysg uwchradd mewn gwybodaeth grefyddol yn dda gyda nodweddion rhagorol.

432 Mae gwybodaeth y rhan fwyaf o hyfforddeion cynradd ac uwchradd am eu pwnc yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cynllunio gwersi'n dda. Mae gwybodaeth llawer o hyfforddeion am y Cwricwlwm Cymreig yn dda. Ond mewn ychydig o achosion, mae hyfforddeion uwchradd yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r Cwricwlwm Cymreig mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n defnyddio dewis da o TGCh yn eu haddysgu, ac i gofnodi cynnydd yn nysgu'r disgyblion. Mae safonau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o hyfforddeion yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn asesu gwaith disgyblion yn dda. Er hynny, nid yw hyfforddeion bob amser yn esbonio'n ddigon clir i ddisgyblion beth allan nhw ei wneud i wella'u gwaith.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Siart 53: Ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu (canran y gwersi a gafodd eu harsylwi)



- 433 Mae ansawdd addysg a hyfforddiant yn dda iawn. Mae gwybodaeth tiwtoriaid prifysgol am eu pwnc yn dda iawn. Ar y cyrsiau cynradd ac uwchradd, mae tiwtoriaid yn defnyddio TGCh yn greadigol iawn i gyflwyno darlithoedd. Ar y cwrs Tystysgrif Ôl-radd Addysg uwchradd, mae tiwtoriaid yn defnyddio cwestiynau'n dda iawn i helpu hyfforddeion i drafod materion allweddol. Ar y cwrs Tystysgrif Ôl-radd Addysg uwchradd, mae tiwtoriaid yn fedrus iawn yn helpu hyfforddeion i esbonio syniadau anodd mewn addysg grefyddol.
- 434 Mae ansawdd cyffredinol yr asesu'n dda ac yn rhagorol yn aml. Mae tiwtoriaid yn marcio gwaith hyfforddeion yn ofalus. Mae'r targedau mae tiwtoriaid yn eu gosod ar gyfer hyfforddeion yn eu helpu i wella'u gwaith gyda disgyblion yn dda iawn.
- 435 Mae llawer o fentoriaid ysgol yn tynnu'n fedrus ar eu haddysgu eu hunain i helpu hyfforddeion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o addysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gwybodaeth mentoriaid am gryfderau a gwendidau hyfforddeion yn dda. Mae barnau mentoriaid yn deg fel arfer, ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Er hynny, mae ychydig o farnau'n rhy hael.
- 437 Mae rolau arweinyddiaeth yn glir, ac mae gan reolwyr canol rôl effeithiol yn monitro ac yn gwella'r ddarpariaeth. Mae aelod o gorff llywodraethol y coleg yn mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd cyfadranau. Mae hyn yn helpu uwch reolwyr i wneud penderfyniadau deallus am hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae hyfforddeion sy'n gynrychiolwyr cwrs yn mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd pwyllgorau cyfadranau a chyrtsiau. Mae uwch reolwyr ac undeb y myfyrwyr yn darparu hyfforddiant ar gyfer hyfforddeion ar gyfer y rôl. Canlyniad hyn yw bod hyfforddeion yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau a'r broses o wneud penderfyniadau. Mae arweinwyr a rheolwyr wedi gwneud gwelliannau sylweddol iawn i drefniadau partneriaeth gydag ysgolion ers yr arolygiad diwethaf. Mae tiwtoriaid prifysgol a mentoriaid ysgolion yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Maen nhw'n datrys problemau'n gyflym ac yn effeithiol.
- 438 I ddarllen yr adroddiad llawn, dilynwch y ddolen yma: http://www.estyn.gov.uk/inspection_reports/cy_initial_teacher_training_at_trinity_college_carmarthen_nov_07_june_08.pdf

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 436 Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae uwch reolwyr yn darparu synnwyr cyfeiriad clir iawn i diwtoriaid, ac maen nhw'n cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Adran 3: Addysg a hyfforddiant – a yw'n addas i'r diben? Canfyddiadau arolygon ar gyfer y flwyddyn

- 439 Mae'r adran yma o'r adroddiad yn dod â chanfyddiadau'r adroddiadau cylch gwaith y gwnaethon ni eu cyhoeddi eleni at ei gilydd. Rydyn ni'n tynnu sylw at arfer dda a'r prif faterion sy'n effeithio ar bolisiau. Rydyn ni hefyd yn disgrifio ffyrdd i ddarparwyr allu gweithio gyda'i gilydd er mwyn gofalu bod addysg a hyfforddiant yn 'addas i'r diben' ar gyfer dysgwyr ar ddechrau'r 21ain ganrif.
- 440 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn yn cytuno pa faterion penodol ym maes addysg a hyfforddiant y byddwn ni'n edrych arnyn nhw'n fanwl. Rydyn ni'n gwneud y gwaith arolygu yma ar wahân i'n harolygiadau o ddarparwyr. Rydyn ni wedyn yn rhoi ein cyngor annibynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail canfyddiadau ein gwaith.
- 441 Prif bwyntiau'r cyngor y gwnaethon ni ei roi eleni sydd yn y paragraffau sy'n dilyn. Os ydych chi'n awyddus i ddarllen yr adroddiadau llawn, dilynwch y dolenni sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
- 442 Rydyn ni'n cyflwyno'r adroddiadau'n uniongyrchol i Weinidogion, ac yn darparu argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae adroddiadau'n cynnwys argymhellion i ddarparwyr ac awdurdodau lleol hefyd. Yn yr adroddiadau llawn, fe welwch chi enghreifftiau o arfer dda a rhagorol hefyd, yn ogystal ag argymhellion ynglŷn â gwella. Mae hyn yn helpu arweinwyr, rheolwyr ac ymarferwyr i wella'r gwaith maen nhw'n ei wneud er budd dysgwyr yng Nghymru.
- 443 Eleni, fe edrychon ni ar ddulliau darparwyr o weithio gyda gwahanol grwpiau o ddysgwyr, ac ystyried pa mor dda mae darparwyr yn gweithredu mewn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cael sylw yn [Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith](#).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi dechrau gweithredu ar sail ein cyngor ni. Byddwn ni'n tynnu'ch sylw at feysydd gwaith lle mae hyn wedi digwydd.

Arfer orau mewn medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3

- 444 Mae safonau dysgu ac ysgrifennu wedi gwella yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 dros y deng mlynedd diwethaf, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Er 2004, mae'r gwelliant wedi arafu yn y ddau gyfnod allweddol. Mae safonau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd lefel uwch na'r safonau ysgrifennu. Mae'r bwlch rhwng safonau mewn darllen ac ysgrifennu, sy'n amlwg yng nghyfnod allweddol 1, yn cynyddu'n fawr yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae merched yn cyrraedd safonau uwch na bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi tyfu. Mewn safonau ysgrifennu mae'r bwlch mwyaf.
- 445 Mae disgyblion yn dysgu darllen ac ysgrifennu'n fwyaf llwyddiannus pan fydd ysgolion:
- ✓ yn cynllunio cynlluniau cyffredin o waith sy'n cwmpasu cyfnodau allweddol 2 a 3;
 - ✓ yn ystyried y gydberthynas rhwng gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu;
 - ✓ yn canolbwyntio ar wella ysgrifennu disgyblion, yn ogystal â'u darllen;

- ✓ yn ymateb i anghenion a diddordebau dysgu penodol bechgyn; ac
- ✓ yn defnyddio'r cwricwlwm cyfan i gyfrannu at ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion.

446 Mae gormod o ysgolion sydd heb fod yn rhoi digon o sylw i wella ansawdd a chywirdeb disgyblion wrth ysgrifennu.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_best_practice_in_the_reading_and_writing_of_pupils_aged_7_to_14_years.pdf

Cau'r bwch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion

447 Yn yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r bwch rhwng y canlyniadau mae bechgyn a merched yn eu cyflawni yn yr ysgol wedi ymestyn. Mae llawer o resymau am hyn, ond y rheswm pwysicaf yw bod llai o fechgyn na merched yn datblygu'r medrau iaith i gyflawni'n dda yn yr ysgol. Canlyniad hyn yw bod lleiafrif sylweddol o fechgyn yn datblygu synnwyr o fethiant a rhwystredigaeth. Mae hyn yn cynyddu wrth i fechgyn fynd yn hŷn. Mae ysgolion sy'n cael canlyniadau da gan fechgyn a merched yn dysgu mewn ffyrdd sy'n apelio at y ddau. Mae hyn weithiau'n cynnwys addysgu bechgyn a merched mewn ffordd wahanol. Mae'r ysgolion yma'n llwyddo i wella medrau llythrennedd disgyblion. Maen nhw'n defnyddio TGCh yn fedrus fel rhan o strategaethau penodol. Mae hyn yn helpu i godi hyder bechgyn ac yn cynyddu eu cymhelliant. Ond mae gormod o ysgolion yn defnyddio dewis rhy gul o ddulliau o ddarparu ar gyfer

merched a bechgyn o'r un oed, gan gofio am y gwahaniaethau rhyngddyn nhw. Rhaid cysylltu hyn â'u haeddfedrwydd, eu hyder a'u gallu fel dysgwyr.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Gender_Gap_Report_March_2008.pdf

Diwallu anghenion dysgu plant a phobl ifanc sy'n troseddu

- 448 At ei gilydd, nid yw awdurdodau lleol yn gwneud digon i sicrhau bod timau troseddau ieuenctid yng Nghymru'n sicrhau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn ar gyfer plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Nid yw awdurdodau addysg bob amser yn darparu digon o arweinyddiaeth a rheolaeth i TTIau nac yn gyfrannu at fwrdd rheoli'r TTI ar lefel ddigon uchel.
- 449 Rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007, dim ond 59% o droseddwyr ifanc yng Nghymru oedd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn. Mae hyn islaw'r targed o 90% mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i osod ar gyfer TTIau. Nid oes cynlluniau gan lawer o fyrdau TTI i wella'r lefel yma o berfformiad.
- 450 Nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gofalu eu bod yn cynnig y 25 awr o ddysgu bob wythnos sy'n cael eu hargymell i ddysgwyr. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn amharod i gynnig lleoedd i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, sydd wedi cael eu gwahardd a/neu sydd wedi bod yn y ddalfa.

- 451 Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gasglu data ynglŷn â chyrhaeddiad a chyflawniadau plant a phobl ifanc sydd dan oruchwyliaeth TTlau ac i wneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn bodloni gofynion Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_meeting_the_learning_needs_of_children_and_young_people_who_offend.pdf

Addysg mewn cartrefi plant

- 452 Mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr addysg sy'n cael ei darparu ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn cartrefi plant ar draws Cymru. Yn rhy aml, nid yw'r dysgwyr yma'n cael digon o addysg sy'n briodol i'w hanghenion. Mae'n bobl ifanc yma'n byw mewn cartrefi bach preifat ar gyfer plant, ac mae eu cofnodion presenoldeb yn wael. Efallai fod un athro'n darparu addysg i'r plant yma yn y cartref. Mewn ychydig o achosion, nid ydyn nhw'n cael unrhyw addysg o gwbl.
- 453 Ers cyflwyno Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, mae 20 o gartrefi preifat bach ar gyfer plant wedi cofrestru'u darpariaeth addysg fel ysgolion annibynnol.
- 454 Yn y rhai mwyaf effeithiol o'r ysgolion yma, mae profiad priodol a disgwyliadau clir gan athrawon. Maen nhw'n gweithio'n dda gyda staff gofal i gynllunio ac i gyflwyno tasgau addas ar gyfer dysgwyr. Yn rhy aml, er hynny, nid yw athrawon yn treulio digon o amser gyda

disgyblion, ac nid yw staff gofal bob amser yn gwybod sut mae helpu pobl ifanc i wneud gweithgareddau dilynol. Yn aml iawn yn yr ysgolion yma, mae dysgwyr yn colli diddordeb ac yn ymddwyn yn wael.

- 455 Mae awdurdodau lleoli ar draws y DU yn aml yn esgeuluso'u rôl fel rhieni corfforaethol. Maen nhw'n araf yn darparu cofnodion dysgwyr i ysgolion, ac nid ydyn nhw'n monitro cynnydd dysgwyr yn ddigon da. Nid ydyn nhw'n gofalu ym mhob achos bod ysgol yn gallu diwallu anghenion addysgol arbennig dysgwr.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Education_In_Childrens_Homes.pdf

Cymryd rhan – diwallu anghenion dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu cymedrol mewn canolfannau adnoddau sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd

- 456 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynllunio'n dda i ddiwallu anghenion disgyblion unigol mewn canolfannau adnoddau. Maen nhw'n asesu anghenion disgyblion yn ofalus ac yn monitro'u cynnydd. Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn casglu nac yn dadansoddi data am ba mor dda yw cyflawniad a chyrhaeddiad y disgyblion yma. Canlyniad hyn yw nad yw awdurdodau lleol yn gwybod a yw canolfannau adnoddau'n darparu gwasanaethau da i ddisgyblion ac yn cynnig gwerth am arian.

- 457 Ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd â meini prawf clir ar gyfer mynd â disgyblion i ganolfannau adnoddau a'u helpu nhw i symud ymlaen. Mae mynediad disgyblion i ganolfannau adnoddau'n anghyson ar draws Cymru.
- 458 Yn aml, mae llawer o wahanol anghenion gan y disgyblion yn y canolfannau adnoddau yma, ac mae angen help ar lawer un i ddysgu i reoli'u hymddygiad. Mae llawer o ddisgyblion canolfannau adnoddau'n cael cyfleoedd da i ymuno â dosbarthiadau gyda'u cyfoedion, ac maen nhw'n cael eu cynnwys yn llawn mewn gweithgareddau ysgol. Er hynny, mae ychydig o staff yn amharod i gynnwys y disgyblion yma yn eu dosbarthiadau, ac nid yw pob aelod o staff yn cael eu cynorthwyo'n ddigon da i reoli ymddygiad disgyblion yn dda.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_joining_in.pdf

Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE): effaith mwy o alw

- 459 I'r rhan fwyaf o ddarparwyr, mae'r galw am SSIE yn fwy o lawer na'r hyn sydd ar gael, ac mae rhestrau aros wedi cael eu cyflwyno mewn rhai ardaloedd. Mae'r cynnydd cyflym diweddar o bobl yng Nghymru sydd eisiau ymuno â dosbarthiadau SSIE wedi effeithio ar brofiad dysgu'r holl ddysgwyr SSIE. Mae bron i hanner yr holl arolygiadau'n nodi diffygion. Does dim digon o athrawon SSIE sydd wedi'u hyfforddi i lefel ddigon uchel. Yn y mwyafrif o arolygiadau, dim ond gwael i ddigonol yw'r cyfraddau presenoldeb a chwblhau. Er hynny, mae'r cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer SSIE yng Nghymru,

sef 70%, yn dal ymhell uwchlaw'r lefel cyrhaeddiad targed o 50%. Nid yw darparwyr yn gwneud digon i wella cyfraddau presenoldeb, cwblhau a chyrhaeddiad fel bod mwy o ddysgwyr yn llwyddo i gael eu hachredu'n llawn.

- 460 Mae'r holl ddarparwyr SSIE wedi cyflwyno SSIE yn y gweithle. Mae profiad dysgwyr yn amrywio, ond maen nhw i gyd yn gadarnhaol iawn ynglŷn â buddion gallu dysgu Saesneg yn y gwaith ac mewn amgylchedd cyfarwydd. Mae cyflogeion sy'n mynd i ddosbarthiadau yn y gwaith yn gwybod mwy ac mae eu perfformiad yn gwella.
- 461 Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r trefniadau ariannu ar gyfer SSIE ar frys, fel bod darparwyr yn gallu cynllunio'n well ac ymateb yn well i gynnydd yn y galw.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_english_for_speakers_of_other_languages.pdf

Defnyddio data perfformiad mewn awdurdodau lleol ac ysgolion

- 462 Un o rolau awdurdod lleol yw herio a chynorthwyo ysgolion i wella ansawdd addysgu a dysgu. Mae'r awdurdodau lleol i gyd yn defnyddio data ar gyflawniadau a chynnydd disgyblion, canlyniadau arolygiadau a thystiolaeth arall i arfarnu perfformiad ysgolion. Er hynny, nid yw ychydig o awdurdodau lleol yn dadansoddi'r data yma'n ddigon da i adnabod yn gywir yr ysgolion y mae angen eu gwella, ac i'w helpu nhw.

463 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu llawer o ddata i helpu ysgolion i gymharu perfformiad â pherfformiad ysgolion eraill ar draws Cymru. Ond mae'r data'n cyrraedd yn rhy hwyr i ysgolion osod targedau perfformiad ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Rydyn ni'n argymhell fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu data sydd wedi'i baratoi'n genedlaethol yn gynharach yn nhymor yr hydref i ysgolion ac awdurdodau lleol. Casglodd Llywodraeth Cynulliad Cymru asesiadau athrawon yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 ynghyd, a darparu data meincnod yn gynharach nag o'r blaen.

464 Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac ysgolion yn gwybod pa mor dda mae disgyblion mewn grwpiau penodol yn perfformio o gymharu â'u cyfoedion, fel y rheini â gwahanol gefndiroedd ethnig, y rheini sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y rheini sy'n ofalwyr ifanc neu'r rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig.

465 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn targedu adnoddau ychwanegol i helpu ysgolion sy'n perfformio'n wael i wella, ond nid yw'r meini prawf sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y targedu yma'n ddigon clir bob amser. Mae bron pob un o'r awdurdodau lleol yn gweithio'n dda gydag ysgolion y mae Estyn wedi'u pennu fel rhai sy'n peri pryder. Nid yw llywodraethwyr ac aelodau etholedig yn cael digon o wybodaeth i ddeall pa ysgolion sy'n perfformio'n wael a pham, nac i ddeall sut mae'r awdurdod lleol yn ymateb er mwyn gwneud gwelliannau.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Performance_Data_Report.pdf

Pobl ifanc, cyfranogiad a chynghorau ysgol

466 At ei gilydd, mae ysgolion uwchradd yn bodloni telerau Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005. Cyn cyflwyno'r rheoliadau, roedd cyngor ysgol gan bron pob un o'r ysgolion. Roedd y rheoliadau'n ffurfioli'r arferion diweddaraf, ac yn codi statws cynghorau ysgol. Mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar benderfyniadau disgyblion y rhan fwyaf o ysgolion. Er hynny, dim ond lleiafrif o ysgolion uwchradd sy'n cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ynglŷn â llywodraethwyr disgyblion cysylltiol. Mae'r rhain yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau ysgol gael y cyfle i enwebu cynrychiolwyr ar gorff llywodraethol yr ysgol.

467 Dim ond mewn ychydig o ysgolion y mae effaith cyngor yr ysgol yn sylweddol. Yn yr ysgolion yma, mae disgyblion yn cael eu cynnwys mewn cyfweiliadau i benodi uwch aelodau staff, ac maen nhw'n cael rhoi eu barn ynglŷn â chynigion i ddyrannu cyllideb ac ar bolisiau'r ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae cyngor yr ysgol wedi arwain at weld disgyblion yn arwain mwy o weithgareddau. Yn yr ysgolion yma, mae'r dull o gael disgyblion i gyfranogi wedi effeithio'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae adborth gan ddisgyblion wedi arwain at wella'r addysgu am fod athrawon wedi gwrandao ac wedi newid y ffordd maen nhw'n addysgu.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Having_your_say_young_people_participation_and_school_councils.pdf

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn lleoliadau dysgu oedolion yn y gymuned a lleoliadau gwaith ieuencid

- 468 Mae llawer o ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a darparwyr gwaith ieuencid yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF). Er hynny, does ganddyn nhw ddim dealltwriaeth glir a chyson o ddiffiniad na diben ADCDF.
- 469 Mae ychydig o ddarparwyr yn deall yn llawn y cysylltiadau rhwng datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Maen nhw'n cynllunio'u rhaglenni a'u polisiau'n dda i adlewyrchu'r cyswllt yma. Yn gyffredinol, mae darparwyr gwaith ieuencid yn cynnig gwell dewis ac ansawdd o ADCDF i ddysgwyr na darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned.
- 470 Nid yw darparwyr addysg uwch yn gwneud digon i ofalu bod cyrsiau sydd ar gael i diwtoriaid dysgu oedolion yn y gymuned a staff gwaith ieuencid yn cynnwys hyfforddiant i gyflwyno ADCDF.
- 471 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud digon drwy ei grŵp llywio ADCDF i drefnu bod gwybodaeth ac adnoddau o safon ar gael i staff dysgu oedolion yn y gymuned a staff gwaith ieuencid.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_education_for_sustainable_development_august_2008.pdf

Cynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion ar waith

- 472 Mae safonau mewn addysg gorfforol wedi gwella ym mhob un o'r ysgolion bron sy'n gysylltiedig â'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (AGChY). Mae ysgolion cynradd yn y canolfannau datblygu mwy newydd wedi elwa ar brofiad y canolfannau cynharaf, ac maen nhw wedi gwneud cynnydd da yn gyflym iawn.
- 473 Mae disgyblion yn datblygu'u medrau allweddol yn well hefyd, am fod athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n eu hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i fabwysiadu rôl fel arweinwyr. Hefyd, mae disgyblion yn trafod ac yn arfarnu ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae'r fenter wedi helpu disgyblion i ddod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol rheolaidd, iechyd a lles personol. Hefyd, mae AGChY wedi cyfrannu at welliannau sylweddol yn agweddau ac ymddygiad disgyblion.
- 474 Mae'r fenter yma wedi cael cryn effaith ar ansawdd addysgu a dysgu ar draws ysgolion partneriaeth. Mae niferoedd mawr o athrawon wedi elwa ar yr hyfforddiant helaeth a'r adnoddau addysgu da iawn y mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n eu darparu ar y cyd ag awdurdodau lleol a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_progress_in_implementing_pess_action_plan.pdf

Strategaethau effeithiol i weld dysgwyr yn cyflawni medrau allweddol o fewn fframweithiau cymwysterau

- 475 Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae Adroddiadau Blynyddol y Prif Arolygydd wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes digon o ddysgwyr yn y gwaith wedi dysgu'r medrau allweddol angenrheidiol i ennill y fframwaith cymhwyster llawn ar gyfer [Prentisiaeth Fodern Sylfaen](#) neu [Brentisiaeth Fodern](#).
- 476 Tynnodd Estyn sylw at y strategaethau'r oedd rheolwyr a staff yn eu defnyddio i fynd i'r afael â'r mater yma ac i adnabod arfer dda. Fe siaradodd arolygwyr gyda dysgwyr a chyflogwyr er mwyn cael gwybod pa mor dda'r oedden nhw'n deall gofynion medrau allweddol a sut yr oedd darparwyr yn datblygu ac yn asesu'r rhain yn ystod rhaglenni dysgu.
- 477 Ar yr un pryd ag yr oedd arolygwyr yn ymgymryd â'r arolwg, fe gymerodd yr holl ddarparwyr dysgu yn y gwaith ran mewn dewis helaeth o ddigwyddiadau hyfforddi da a chynadleddau dan ofal [Dysg](#). Helpodd y rhain i wella dealltwriaeth ac arbenigedd darparwyr mewn medrau allweddol, a'u galluogi i roi llawer o strategaethau effeithiol ar waith. Erbyn hyn, mae'r rhain wedi gwella cyraeddiadau a'r broses o gyflwyno medrau allweddol o fewn fframweithiau cymwysterau.
- 478 Mae darparwyr wedi gweithio'n galed i helpu dysgwyr a chyflogwyr i ddod i ddeall gwerth medrau allweddol, o'u rhan eu hunain ac o ran y cwmnïau maen nhw'n gweithio iddyn nhw. Maen nhw hefyd wedi gweithio'n agos gyda chyflogwyr i bennu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau allweddol yn eu gwaith o ddydd i ddydd, ac i gasglu tystiolaeth.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_strategaethau_effeithiol_i_ddysgwyr_ennill_medrau_allweddol_mewn_fframweithiau_cymhwyster.pdf

Bwyd a ffitrwydd – pa mor dda y mae ysgolion yn annog ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn iach ac yn weithgar

- 479 Mae arweinwyr ysgol wedi ymrwymo i iechyd a lles dysgwyr, ac mae ysgolion yn gyffredinol yn addysgu pa mor bwysig yw bwyta diet iach a bod yn weithgar yn gorfforol. Er hynny, nid yw profiad dysgwyr o fwyd a ffitrwydd yn yr ysgol yn gyson bob amser.
- 480 Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r ysgolion i gyd wedi cynnig mwy o ddewis o fwyd a diodydd iach. Erbyn hyn, mae bron pob un yn cynnig brechwast, byrbrydau a chinio iach. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o ysgolion hefyd yn gwerthu byrbrydau, fel creision a diodydd meddal sy'n llawn siwgr. Mae gwerth maeth y rhain yn isel iawn. Gallai ysgolion wneud mwy i annog disgyblion i fwyta pryd iach yn yr ysgol drwy ofalu, er enghraifft, fod bwyd yn cael ei baratoi'n ffres, nad yw ciwiau'n rhy hir, a bod y trefniadau bwyta'n galluogi dysgwyr i fwyta mewn lle cyfforddus. Nid yw'r cyfleusterau gan lawer o ysgolion i addysgu disgyblion sut mae coginio a pharatoi eu bwyd eu hunain. Mewn chwarter yr ysgolion cynradd a hanner yr ysgolion uwchradd, mae cyflwr y toiledau'n anfodhaol.

- 481 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn annog disgyblion i fod yn weithgar yn ystod cyfnodau egwyl ac mewn clybiau ar ôl oriau'r ysgol. Ond nid yw chwech o bob 10 ysgol yn darparu'r lleiafswm o ddwy awr yr wythnos o addysg gorfforol sy'n cael eu hargymell.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_food_and_fitness_in_schools.pdf

Uno'r ffiniau mewn dysgu oedolion yn y gymuned

- 482 Mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned wedi gwella'r ffordd maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau darparwyr unigol. Mewn rhyw hanner y darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gafodd eu harolygu eleni, roedd safon yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n well. Yn yr achosion yma, mae darparwyr ac uwch reolwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.
- 483 Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynllunio'n ddigon da ar lefel ardal. Nid yw partneriaethau'n rhoi digon o ystyriaeth i'r gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned mae sefydliadau addysg uwch a chymdeithasau gwirfoddol yn eu cynnig.
- 484 Anaml y mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhannu ystadegau â phartneriaid neu'n gweithio gyda nhw i gasglu ystadegau ar lefel ardal. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i wneud gwelliannau yn y ddarpariaeth i ddysgwyr yn eu hardal. Nid yw meincnodau wedi'u cytuno'n genedlaethol ar gaei i alluogi'r holl ddarparwyr i gymharu'u perfformiad mewn ffordd systematig a ffurfiol.

Rydyn ni'n argymhell fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn cynorthwyo darparwyr gyda'u cynllunio ac i wella'r trefniadau ariannu. Mae APADGOS nawr wedi cyhoeddi polisi drafft ynglŷn â dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn ymgynghori yn ei gylch (mis Medi 2008). Bydd hyn yn rhoi fframwaith strategol ar gyfer cynllunio, ariannu a chyflwyno'r maes darpariaeth yma.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_merging_the_boundaries_in_adult_community_based_learning.pdf

Effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ddatblygu'r cwricwlwm

- 485 Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn trefnu dewis helaeth o weithgareddau datblygu'r cwricwlwm sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau'r Gronfa Ysgolion Gwell. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant staff, cynadleddau a datblygu adnoddau.
- 486 Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyfuno'r Gronfa Ysgolion Gwell yn dda gyda chyllid Llwybrau Dysgu 14-19, cyllid RAISE a'r [grant trosglwyddo](#). Er hynny, mae'r systemau ar gyfer ariannu ar y cyd, y dewis eang o flaenoriaethau cenedlaethol a'r arfarnu prin o weithgareddau'r Gronfa Ysgolion Gwell yn golygu nad yw awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwybod sut mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn effeithio ar flaenoriaethau cenedlaethol penodol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm.

487 Hefyd, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn targedu cymorth cwricwlwm i'r ysgolion a'r dysgwyr hynny sydd fwyaf ei angen. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau gan awdurdodau lleol ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell yn cynnwys diffyg dadansoddiad o anghenion dysgwyr ac ysgolion. Nid ydyn nhw'n pennu'r blaenoriaethau allweddol na'r ffordd y mae disgwyl iddyn nhw effeithio ar ganlyniadau gwell i ddysgwyr. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi sylw i'r diffygion yma drwy'r broses ymgeisio.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_effaith_y_gronfa_ysgolion_gwell_ar_ddatblygur_cwricwlwm.pdf

Pontio'r bwlch – cynllunio'r cyfnod pontio

488 Yn 2006, fe gyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyniad bod ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd bwydo'n creu cynlluniau pontio ar y cyd. Y nod yw ei gwneud hi'n haws i ddisgyblion symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae llawer o ysgolion wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd am beth amser i helpu disgyblion i newid ysgolion yn hyderus.

489 Erbyn hyn mae pob ysgol yn gweithio ar gynlluniau gwaith ar y cyd sy'n cwmpasu cyfnodau allweddol 2 a 3. Hefyd, mae athrawon cynradd ac uwchradd yn rhannu technegau addysgu i wneud dysgu'n fwy diddorol. Mae'r gwaith yma'n helpu i gyflymu cynnydd disgyblion pan fyddan nhw'n symud i'r ysgol uwchradd. Er hynny, ychydig iawn o ysgolion uwchradd sy'n cynnig dull mwy integredig o

gyflwyno'r cwricwlwm sy'n adeiladu ar ddulliau dysgu disgyblion yn yr ysgol gynradd.

490 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyfnewid gwybodaeth asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn well nag o'r blaen. Mae athrawon cynradd ac uwchradd yn dechrau asesu gwaith disgyblion gyda'i gilydd. Ond nid yw cynlluniau pontio'n defnyddio'r wybodaeth yma'n ddigon da i gynllunio ar gyfer anghenion grwpiau dysgwyr penodol. Ym Mlwyddyn 7, nid yw rhai disgyblion llai galluog yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, ac mae disgyblion mwy galluog yn cael gwaith nad yw'n ddigon heriol.

491 Mae cynlluniau pontio wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion. Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau pontio'n dweud yn ddigon pendant sut bydd ysgolion yn mesur effaith gwelliannau wedi'u cynllunio ar y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_impact_of_transition_plans.pdf

Effaith RAISE ('Gwella cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg')

492 Yn genedlaethol, mae bwlch mawr rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill. Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o lawer o fod â lefelau cyrhaeddiad isel a chanlyniadau arholiadau gwael. Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r bwlch

yma mewn cyrhaeddiad, ac maen nhw wedi defnyddio cyllid RAISE i geisio mynd i'r afael â'r mater.

- 493 Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau RAISE mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith mewn dwy ran o dair o'r ysgolion yr ymwelon ni â nhw yn ystod ein harolwg. Mewn llawer o ysgolion, mae ymddygiad ac agwedd llawer o ddisgyblion wedi gwella hefyd.
- 494 Ond mae llawer gormod o amrywio o hyd yng nghyfradd gwella dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn gwahanol awdurdodau lleol ac ysgolion. Er enghraifft, mae'r gyfradd y mae dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ennill graddau A*-C mewn TGAU yn gwella mewn llawer o awdurdodau lleol, ond mae wedi stopio neu wedi mynd tuag yn ôl hyd yn oed dros y tair blynedd diwethaf mewn rhyw draean o awdurdodau.
- 495 Mae llawer o ysgolion yn fwy cyfforddus ynglŷn â mynd i'r afael â pherfformiad addysgol isel dysgwyr nac o ddelio â'u hanfantaes economaidd-gymdeithasol. Nid yw dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac sydd eisoes yn gwneud cynnydd cymedrol neu dda, yn enwedig merched, yn elwa digon ar gyllid RAISE i wella mwy byth ar eu perfformiad.
- 496 Nid yw llawer o ysgolion yn mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi perfformiad eu dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim. Dylai fod targed cenedlaethol i wella perfformiad y dysgwyr yma er mwyn gweld eu cyflawniadau'n dod yn agosach at rai dysgwyr eraill.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_the_impact_of_raise.pdf

Ysgolion sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau sy'n canolbwyntio ar gymunedau

- 497 Nid yw ysgolion ac awdurdodau lleol bob amser yn targedu'r grant ysgolion bro i wella gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y dysgwyr dan yr anfantais fwyaf.
- 498 Prif fantais y grant i gymunedau lleol yw gwella mynediad i safleoedd ac adnoddau ysgol, yn arbennig ym maes ymarfer corff a TGCh. Mae'r fenter yma wedi gwella'r berthynas rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol hefyd.
- 499 Wrth ddsbarthu'u cyfran nhw o'r grant, ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi rhoi blaenoriaeth i'r ysgolion yn eu hardaloedd sydd fwyaf dan anfantais. Er hynny, maen nhw fel arfer wedi targedu'u hymdrechion i sefydlu canolfannau yn y cymunedau yma sy'n cynnig gwasanaethau integredig. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi cysylltu'u strategaethau ysgolion bro â'u cynlluniau ad-drefnu ysgolion.
- 500 Agwedd gymharol gul tuag at weithio aml-asiantaeth sydd gan lawer o adrannau addysg awdurdodau lleol. Nid oes trefniadau effeithiol gan y rhan fwyaf ohonyn nhw ar gyfer gweithio mewn partneriaethau gyda gwasanaethau iechyd cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn arfarnu eu cynnydd wrth sefydlu ysgolion bro effeithiol. Canlyniad hyn yw nad ydyn nhw'n gallu gosod targedau ar gyfer gwella na chynllunio'n fwy effeithiol.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_darpariaeth_gwasanaethau_a_chyfleusterau_bro_gan_ysgolion.pdf

- 501 Eleni, fe aethon ni ati i wneud chwech o weithgareddau'r cylch gwaith sy'n gysylltiedig â Llwybrau Dysgu 14-19. Fe wnaethon ni adolygu'r graddau y mae'r polisi wedi:
- cynyddu dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14 i 19 oed;
 - sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19 oed;
 - gwella addysg gwyddoniaeth ar gyfer dysgwyr 14-19 oed;
 - cynorthwyo i ehangu'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru;
 - galluogi Gyrfa Cymru i gefnogi Llwybrau Dysgu; a
 - gwneud gwahaniaethu mewn ardal ddaearyddol benodol drwy arolygiad ardal o ddarpariaeth 14-19.

Dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14-19 oed

- 502 Mae'n rhy gyffredin o hyd i weld sefydliadau sy'n darparu addysg i ddysgwyr 16-19 yn cystadlu'n uniongyrchol. Gydag ambell i eithriad, nid yw cydweithredu'n effeithio ar batrymau astudio'r brif ffrwd. Ond mae nifer bach sy'n cynyddu o drefniadau cydweithredu sydd wedi cael eu datblygu'n dda.
- 503 Mae mwy o gyrsiau ar gael i ddysgwyr 14 i 19 oed wrth i ysgolion a cholegau weithio gyda'i gilydd i ddarparu cyrsiau galwedigaethol newydd. Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu dewis o'r holl wahanol gyrsiau sydd ar gael. Mae eu cyfleoedd yn dal i ddiybennu gormod ar y dewis sydd ar gael gan y darparwr lle maen nhw wedi cofrestru.

- 504 Nid yw gweledigaeth arweinwyr bob amser yn ddigon clir o ran ehangu dewis a hyblygrwydd astudio'r dysgwyr yn eu sefydliadau. Mae angen i lawer ohonyn nhw ddatblygu medrau newydd ar gyfer arwain ar y cyd.
- 505 Mae'n anodd i Rwydweithiau 14-19 lleol gynllunio gyda'i gilydd tra bod y trefniadau ariannu a llywodraethu'n canolbwyntio ar ddarparwyr unigol. Nid yw'n debygol y bydd mwy o ddewis i ddysgwyr heb weld y ddarpariaeth yn cael ei rhesymoli neu bartneriaethau'n cydweithio'n well. Ar hyn o bryd, nid oes systemau sicrhau ansawdd cadarn gan Rwydweithiau i farnu pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth yn eu hardal.

Rydyn ni'n argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi deddfwriaeth ar waith i gyfarwyddo darparwyr i gydweithredu. Mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) arfaethedig ar waith wrth i'r adroddiad yma gael ei ysgrifennu.

Arolygiadau ardal

- 506 Mae arolygiadau ardal yn edrych ar agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc 14 oed neu hŷn mewn ardal yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, mae'r arolygiadau'n edrych ar y ddarpariaeth mewn ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, ardal awdurdod lleol yw'r ardal.

- 507 Yn ardal un awdurdod lleol eleni, fe wnaethon ni arolygu ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed. Yng nghyfnod allweddol 4, nid yw dysgwyr yn yr ardal yn perfformio gystal ag y dylen nhw. Yn 18 oed, mae perfformiad dysgwyr yn dda yn y coleg addysg bellach, ac yn dda yn bennaf mewn darparwyr dysgu yn y gwaith. Er hynny, nid yw llawer o'r dysgwyr hynny sydd mewn ysgolion yn perfformio gystal ag y gallan nhw. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae cynnydd wedi bod yng nghanran y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- 508 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y grŵp o ddarparwyr yn yr ardal yn dda. Mae gweledigaeth glir gan y rheolwyr strategol allweddol ynglŷn â datblygiadau'r dyfodol, ac maen nhw'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Drwy weithio gyda'i gilydd, maen nhw wedi cynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr. Ond mae dewisiadau dysgwyr yn dibynnu gormod ar ba ddarparwr y maen nhw'n mynd iddo.
- 509 Mae'r ddarpariaeth mewn ysgolion yn cynnig gwerth digonol am arian, ond mae nodweddion aneffeithlon yn y ddarpariaeth chweched dosbarth. Mae'r ddarpariaeth ôl-16 yn cynnig gwerth da am arian yn y sector addysg bellach, a gwerth digonol am arian yn y sector dysgu yn y gwaith.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr 14-19 oed

- 510 Mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd yn well i gynnig mwy o ddewisiadau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr. Er hynny, mae gormod o amrywiaeth yn nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y gwahanol ardaloedd. Prin yw'r dewis hyd yn oed ymhlith awdurdodau lle mae llawer o Gymry Cymraeg rhugl.
- 511 Mae rhyw 17% o ddysgu yn y chweched dosbarth yn digwydd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ar y llaw arall, dim ond 2% o'r dysgu mewn addysg bellach a hyfforddiant yn y gwaith sydd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. At ei gilydd, nid yw dysgwyr mewn llawer o rannau o Gymru'n cael digon o gyfleoedd i barhau i ddysgu yn Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol.
- 512 Un o'r rhesymau am y dewis annigonol o gyrsiau cyfrwng Cymraeg yw prinder aseswyr, athrawon a darlithwyr sy'n gallu gweithio yn Gymraeg. Mae'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn rhwystr hefyd, er ei fod yn gwella.
- 513 Mae mwy o ddarparwyr yn addysgu dosbarthiadau lle mae rhai dysgwyr yn dilyn cwrs yn Gymraeg ochr yn ochr â dysgwyr eraill sy'n dysgu yn Saesneg. Ond mae addysgu'n ddwyieithog fel hyn yn anodd, ac mae'r ansawdd yn amrywio gormod.
- 514 Yn gyffredinol, nid yw colegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant, ysgolion a Rhwydweithiau 14-19 yn gweithio digon gyda'i gilydd i gynnig gwell dewis o gyrsiau yn Gymraeg.

Cefnogi Llwybrau Dysgu 14-19 – Gyrfa Cymru

- 515 Mae'r chwe chwmni Gyrfa Cymru'n cyfrannu'n dda at bartneriaethau strategol gyda sefydliadau eraill i wella cynllunio Llwybrau Dysgu 14-19 yn lleol. Mae pob un o'r cwmnïau yma'n cynorthwyo Rhwydweithiau Dysgu Lleol yn dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol, ac i helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â'u gyrfa. Maen nhw'n cyfrannu'n dda at ymestyn y ddarpariaeth a gwella ansawdd addysg sydd â phwyslais ar waith.
- 516 Mae'r cwmnïau gyrfa'n gweithio'n dda iawn gyda [Chymdeithas Gyrfa Cymru](#) i ddatblygu gwefan Gyrfa Cymru fel bod dysgwyr yn gallu chwilio am opsiynau 14+, opsiynau 16+ a lleoliadau profiad gwaith.
- 517 At ei gilydd, mae Gyrfa Cymru'n help garw yn y gwaith o ddatblygu hyfforddwyr dysgu. Ond nid yw rôl [hyfforddwyr dysgu](#) eto'n ddigon cyson nac wedi'i datblygu digon ym mhob rhan o Gymru. Nid yw staff partneriaid a dysgwyr yn deall yn ddigon clir eto sut mae rôl hyfforddwyr dysgu a rôl ymgynghorwyr gyrfa'n gorgyffwrdd.

Addysg gwyddoniaeth i ddysgwyr 14-19 oed

- 518 Mae arolygiadau ysgolion uwchradd yn dangos bod safonau'n is mewn gwyddoniaeth nag yn yr holl bynciau eraill bron. Ar y llaw arall, mae safonau gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd gyda'r gorau.
- 519 Mae'r addysgu mewn gwyddoniaeth yn waeth yn gyffredinol hefyd nag mewn pynciau eraill. Mae prinder athrawon ffiseg arbenigol yn golygu y gall athrawon â chefnidir mewn bioleg fod yn addysgu ffiseg i lawer o ddysgwyr. Nid yw hyn bob tro'n cymell dysgwyr i fynd ymlaen mewn gwyddoniaeth ffisegol. Mae ychydig o athrawon gwyddoniaeth sydd heb arbenigedd mewn ffiseg wedi cael hyfforddiant i wella'u gwybodaeth a'u medrau i addysgu ffiseg.
- 520 Mae'r cyrsiau TGAU newydd mewn gwyddoniaeth a'r cyrsiau gwyddoniaeth ychwanegol a gafodd eu cyflwyno ym mis Medi 2006 yn darparu'n well na'r cyrsiau blaenorol ar gyfer dysgwyr o wahanol lefelau o allu. Mae'r cyrsiau newydd yma'n helpu i ddatblygu medrau allweddol, ymwybyddiaeth amgylcheddol a gwybodaeth wyddonol.
- 521 Mae'r amrywiaeth o gyrsiau mewn gwyddoniaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yng Nghymru'n dal yn rhy gul. Nid yw Rhwydweithiau 14-19 yn gwneud digon i wella gwaith y partneriaethau o ddarparwyr er mwyn cynnig mwy o lawer o ddewisiadau i ddysgwyr o bob gallu a diddordeb.

Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4

- 522 Mae 21 o ysgolion yn cynnig y cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 fel rhan o gynllun peilot Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ysgolion sy'n addysgu Bagloriaeth Cymru i bob un o'r dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn gweld y gwaith o'i chynllunio a'i chyflwyno'n symlach na'r ysgolion sy'n dysgu'r cymhwyster i grwpiau dethol yn unig. Mae llawer o ysgolion yn gweld Bagloriaeth Cymru fel ffordd o fodloni gofynion cwricwlaidd eraill, fel cyflwyno'r [Craidd Dysgu 14-19](#), yn hytrach nag fel baich ychwanegol.
- 523 At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni safonau da, ac maen nhw'n gwneud cynnydd wrth ddatblygu'r medrau allweddol cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh. Mae cydlynu a threfnu'r elfen medrau allweddol yn hanfodol i gyflwyno Bagloriaeth Cymru'n llwyddiannus. Mae ysgolion sy'n cynllunio'n dda ar gyfer yr elfen yma'n tueddu i lwyddo.

Darllenwch yr adroddiadau llawn yn

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Learning_Pathways_Report.pdf

http://www.estyn.gov.uk/inspection_reports/cy_Wrexham_nov_2007.pdf

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Darpariaeth_Gymraeg_a_dwyieithog_ar_gyfer_dysgwyr_14_19_oed.pdf

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_supporting_learning_pathways.pdf

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_addysg_wyddoniaeth_ar_gyfer_dysgwyr_14_19_oed_Mai_2008.pdf

http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_the_welsh_baccalaureate_in_key_stage_4.pdf

Geirfa

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang	Mae ADCDF yn galluogi pobl i ddatblygu'r wybodaeth, y gwerthoedd a'r medrau i gyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â'r ffordd rydyn ni'n gwneud pethau fel unigolion a gyda'n gilydd, yn lleol ac ar draws y byd, a fydd yn gwella ansawdd bywyd nawr heb niweidio'r blaned i'r dyfodol.
addysg heblaw addysg yn yr ysgol	<p>Addysg yw hon sy'n cael ei darparu i ddisgyblion sy'n methu, am wahanol resymau, mynd i'r ysgol. Yn aml, disgyblion yw'r rhain y mae eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad wedi arwain at eu gwahardd o'r ysgol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys disgyblion sy'n methu mynd i'r ysgol am resymau iechyd. Mae'r ddarpariaeth addysgol y tu allan i leoliad yr ysgol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • unedau cyfeirio disgyblion sydd wedi'u cofrestru (mae esboniad o'r term ar ddiwedd yr eirfa); • addysg yn y cartref gan wasanaeth dysgu gartref yr awdurdod lleol; • addysg a hyfforddiant sy'n cael eu darparu gan asiantaethau allanol fel y tîm troseddau ieuencid, asiantaethau gwirfoddol neu ddarparwyr yn y gwaith; ac • unedau cyfeirio disgyblion sydd heb eu cofrestru ac felly ddim yn cael eu harolygu.
aelodau etholedig	Cynghorwyr yw'r rhain sydd wedi'u hethol gan ddinasyddion ardal i'w cynrychioli ar gyngor awdurdod lleol am gyfnod o bedair blynedd
AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn un o isadrannau Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru.
anghenion addysgol arbennig	Mae gan blant a phobl ifanc anghenion addysgol arbennig os oes ganddyn nhw anghenion dysgu sy'n galw am drefnu addysg arbennig ar gael ar eu cyfer.

anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	<p>Mae'r term yma'n ymwneud ag amrywiaeth eang iawn o anghenion. Rydyn ni'n defnyddio'r term ADY mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion sy'n wahanol am nifer o wahanol resymau i rai'r rhan fwyaf o'u cyfoedion yn y dosbarth, gan gynnwys dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ag anghenion addysgol arbennig (AAA), fel sy'n cael ei ddiffinio yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002); • anabl, fel sy'n cael ei ddiffinio yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995; • ag anghenion meddygol; • ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad; • mwy galluog a dawnus na'r rhan fwyaf o'u cyfoedion yn y dosbarth; a • sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.
anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad	<p>Gall disgyblion sydd â'r anawsterau yma ddangos ymddygiad encilgar, unig, aflonyddgar, gorfywrog, disylw, anaeddfed yn gymdeithasol neu heriol. Mae anawsterau cysylltiedig gan rai o'r disgyblion yma o ran iechyd meddwl neu iechyd corfforol, cyfathrebu a dysgu.</p>
Arolygiaeth Carchardai EM	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Prawf EM	Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
Asesiad o wariant safonol	<p>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dosbarthu'i Grant Cynnal Refeniw blynyddol i bob Cyngor drwy fformiwla o'r enw Asesiad o Wariant Safonol. Yr Asesiad o Wariant Safonol yw'r swm mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n asesu bod y cyngor ei angen i ddarparu lefel safonol o wasanaeth yn yr ardal, mewn termau cymharol. Mae elfen yng ngrant pob awdurdod lleol ar gyfer gwasanaeth ieuencid yr awdurdod lleol.</p>
awdurdod lleol	<p>Awdurdod neu gyngor sy'n gyfrifol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys addysg i ddisgyblion o oed ysgol mewn ardal benodol.</p>

Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr	Sefydliad cyhoeddus anadrannol yw hwn a gafodd ei sefydlu ym mis Medi 1998 i gydlynu'r system cyfiawnder ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr. Ei nod yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc drwy atal troseddu ac ofn troseddu, adnabod a delio â phobl ifanc sy'n troseddu, a mynd ati i leihau troseddu.
Cadw mewn cysylltiad (KIT)	Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i wasanaethau cymorth ieuencid ofalu bod cydlynu gwell yn eu gwaith o roi cymorth i bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. 'Cadw mewn Cysylltiad' ywr enw cyffredin ar y strategaeth. Mae'n rhoi manylion am helpu sefydliadau i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol er mwyn helpu pobl ifanc i fynd i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac i aros yno.
canolfan raglenni	Cymorth wedi'i deilwra i unigolion i helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i waith. Mae pwyslais penodol ar ddatblygu medrau meddal.
Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru	Mae data am ddysgwyr ar draws Cymru'n cael ei gasglu trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Cafodd y Cofnod ei ddatblygu fel dull cyffredin i ddarparwyr dysgu orfod cyflwyno data ariannu, monitro a dadansoddi'n electronig.
Craidd dysgu 14-19	<p>Mae'r craidd dysgu 14-19 yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • medrau allweddol; • medrau iaith Gymraeg; • medrau'n gysylltiedig â gwaith; • Cymru, Ewrop a'r byd; • materion personol, cymdeithasol, cynladwyedd ac iechyd; • materion gyrfaedd; • agweddau a gwerthoedd; • profiad â ffocws ar waith; • cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol; a • phrofiadau diwylliannol / chwaraeon / esthetig / creadigol.

Cronfa Ysgolion Gwell	Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn darparu cymorth grant wedi'i dargedu ar gyfer awdurdodau lleol i'w helpu i fod yn arloesol, i rannu arfer dda ac i ddatblygu mentrau newydd i wella addysgu, dysgu ac ehangder y cwricwlwm.
cwricwlwm cenedlaethol	Fframwaith yw'r cwricwlwm cenedlaethol mae'r holl ysgolion a gynhelir yn ei ddefnyddio i ofalu bod addysgu a dysgu'n gyson.
Cwricwlwm Cymreig	Mae hwn yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n helpu disgyblion i ddatblygu a defnyddio'u gwybodaeth am nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru, a dod i'w deall.
cyfnodau allweddol	Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn rhannu cyfnod addysg orfodol yn bedwar cyfnod allweddol: <ul style="list-style-type: none"> • cyfnod allweddol 1 i ddisgyblion 5 i 7 oed; • cyfnod allweddol 2 i ddisgyblion 7 i 11 oed; • cyfnod allweddol 3 i ddisgyblion 11 i 14 oed; a • chyfnod allweddol 4 i ddisgyblion 14 i 16 oed.
cyngor ysgol	Grŵp o ddisgyblion yw cyngor ysgol. Mae'r aelodau'n cael eu hethol gan ddisgyblion eraill i'w cynrychioli, i drafod agweddau ar eu haddysg ac i leisio'u pryderon wrth uwch reolwyr a llywodraethwyr eu hysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru fwynhau eu haddysg a theimlo bod eu hysgol yn ymateb i'w hanghenion. Dylai disgyblion gael y cyfle i fynegi eu teimladau ac i roi eu barn i oedolion ar y pethau sy'n effeithio arny'n nhw. Dylen nhw hefyd fod yn cael cyfle i leisio barn ar benderfyniadau ac i chwarae rôl weithredol yn y broses o wella'u hysgol.
Cyngorau Sgiliau Sector	Sefydliad annibynnol sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr yw Cyngor Sgiliau Sector. Mae'n rhoi sylw i fedrau galwedigaethol penodol. Ei rôl yw gwella cyfleoedd dysgu trwy Brentisiaethau Modern Sylfaen a Phrentisiaethau Modern, a lleihau unrhyw brinder o weithwyr medrus.

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru	<p>Fe gyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2003 fel prosiect peilot tair blynedd i ddysgwyr 16 oed a hŷn. Dim ond ar lefel 2 a lefel 3 yr oedd y cymhwyster peilot ar gael yn ystod y tair blynedd gyntaf. Ym mis Medi 2006, daeth y cymhwyster peilot lefel 2 ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion. Ar yr un pryd, cafodd y cymhwyster peilot lefel 1 ei gyflwyno hefyd i ddysgwyr 16 oed ac iau, a'r rheini dros 16 oed. Mae deg ysgol ac wyth o golegau'n cymryd rhan yn y prosiect peilot lefel 1.</p> <p>Ym mis Hydref 2006, ar ôl cwblhau'r prosiectau peilot lefel 2 a lefel 3 yn llwyddiannus, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n cael ei gyflwyno fesul cam o fis Medi 2007 ymlaen. Erbyn hyn mae'r cymhwyster newydd yma ar gael mewn 76 o ganolfannau ar draws Cymru.</p>
Cymraeg i oedolion	<p>Addysgu i oedolion sydd am ddysgu Cymraeg yw Cymraeg i oedolion. Fel arfer, mae dysgwyr yn dilyn y cyrsiau yma'n rhan-amser. Maen nhw'n mynd i sesiwn o leiaf unwaith yr wythnos. Mewn llawer o achosion, mae dechreuwyr yn mynd i ddosbarthiadau am bedair awr yr wythnos o leiaf.</p>
Cymru'n Un	<p>Mae Cymru'n Un yn gosod rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru. Mae'n gytundeb rhwng y Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol 2007.</p>
cynhwysiant	<p>Un o brosesau parhaus addysg yw cynhwysiant. Mae'n golygu chwalu'r pethau sy'n rhwystro dysgwyr rhag dysgu ac annog yr holl ddysgwyr mewn ysgolion lleol i gymryd rhan.</p>
Cynhwysiant a Chymorth Disgyblion	<p>Mae Cynhwysiant a Chymorth Disgyblion yn cynnig arweiniad ar gyfer cynnwys a chynorthwyo dysgwyr o oed ysgol gorfodol (er y bydd rhai elfennau'n gymwys i bob dysgwr). Mae'n rhoi cyngor ac yn rhestru'r cyfrifoldebau yn y gwaith o gynnal presenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion, a'r angen i gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael addysg addas, ac nad ydyn nhw'n ymddieithrio oddi wrth addysg. Mae hefyd yn ymwneud ag addysg sy'n cael ei darparu y tu allan i'r ysgol.</p>

cynllun dysgu unigol	Cynllun sy'n cynnwys canlyniadau asesiadau cychwynnol ac asesiadau diagnostig, nodau tymor hir, nodau y gellir eu mesur ar gyfer y rhaglen ddysgu, nodau personol a chymdeithasol eraill, targedau, dyddiadau ar gyfer adolygu cynnydd, lle i gofnodi cyflawniad yn erbyn y nodau a'r targedau dysgu, a chymwysterau neu unedau achrediad.
cynllun sabothol	Menter yw'r 'cynllun sabothol' i geisio helpu i gynyddu nifer yr athrawon a'r darlithwyr Cymraeg eu hiaith sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
cyrhaeddiad	Mesur o berfformiad dysgwyr mewn profion cenedlaethol ac yn y cymwysterau neu'r credydau y maen nhw'n eu hennill
Cymdeithas Gyrfa Cymru	Sefydliad ambarél ar gyfer cwmnïau Gyrfa Cymru
Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol	Cymhwyster sy'n gysylltiedig â gwaith yw'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae'n adlewyrchu'r medrau a'r wybodaeth mae rhywun eu hangen i wneud swydd yn effeithiol. Mae'r cymwysterau yma'n cael eu trefnu ar bum lefel ar sail y wybodaeth a'r medrau mae rhywun eu hangen ar gyfer swydd benodol.
Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc	Rhaid i awdurdodau addysg lleol greu Cynllun Plant a Phobl ifanc. Eu pwrpas yw cydlynu addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc o adeg eu geni hyd at eu pen-blwydd yn 25 oed.
dangosydd pwnc craidd	Mae'r dangosydd yma'n dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddyn nhw mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel mamiaith.
darparwr	Term cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio unrhyw sefydliad neu bartneriaeth sy'n darparu addysg a hyfforddiant, fel ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant yn y gwaith, darparwr gwaith ieuencid, darparwr gwasanaethau cymorth ieuencid, awdurdod lleol, sefydliad gwirfoddol, cwmni gyrfa neu sefydliad addysg uwch

data perfformiad	Mae data perfformiad yn golygu data ynglŷn â'r canlyniadau mae disgyblion unigol, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn ac ysgolion yn eu cyflawni. Mae data perfformiad yn cynnwys data ynglŷn â pherfformiad yng ngwahanol bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, yn ogystal â data cymharol sy'n helpu ysgol i gymharu ei pherfformiad ag ysgolion eraill.
Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed	Dyletswydd statudol dan adran 11 Deddf Plant 2004 ar ddarparwyr addysg a hyfforddiant i gadw plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel
Diwygio ar dair lefel	Diwygio ar dair lefel yw'r gymuned addysg gyfan (ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad) yn gweithio ar y cyd ac ochr yn ochr. Mae'r Fframwaith yn disgrifio'r nodweddion allweddol sy'n ofynnol i adeiladu ar arfer dda bresennol ac i wella dysgu a lles plant a phobl ifanc ar draws Cymru. Ac mae'n disgrifio cyfraniad pob un o'r partneriaid at y gwaith o wireddu hynny.
dwyieithrwydd	Mae hyn yn golygu bod â'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith. Yng Nghymru, mae dwyieithrwydd yn ymwneud â'r Gymraeg a'r Saesneg, fel ieithoedd swyddogol Cymru. Pan fyddwn ni'n arolygu dwyieithrwydd, rydyn ni'n edrych ar gyflawniad dysgwyr yn Gymraeg neu Saesneg, ac yn gofyn i ba raddau mae darparwyr yn hybu ac yn datblygu medrau dwyieithog disgyblion. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at ein canllawiau ar gyfer pob sector.
Dysg	Tan yn ddiweddar, roedd Dysg yn un o is-adrannau'r Adran Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd addysgu a dysgu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-14. Erbyn hyn mae Dysg wedi uno â'r Gangen Strategaethau Dysgu ac Addysgu newydd o fewn yr Is-adran Dysgu a Datblygiad Proffesiynol yn APADGOS.
dysgu oedolion yn y gymuned neu ddysgu oedolion	Y dewis o gyrsiau a dosbarthiadau sydd ar gael i oedolion mewn lleoliadau yn y gymuned, gan gynnwys addysg sylfaenol oedolion, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), Cymraeg i oedolion, a phynciau fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ieithoedd, celf a chrefft, datblygiad personol ac astudiaeth academaidd

dysgu yn y gwaith	Mae darparwyr dysgu yn y gwaith y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cynnig hyfforddiant ac asesu galwedigaethol, yn y gweithle'n bennaf.
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol (Cymru)	Ffederasiwn sy'n cynrychioli'r mwyafrif o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Mae aelodau'r sefydliad yma'n darparu rhaglenni i baratoi dysgwyr at waith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaeth yn y gweithle.
Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd	Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bwriad i ddatblygu fframwaith ar gyfer dysgu ôl-16 sy'n cyfateb i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3-7 oed yng Nghymru – Y Cyfnod Sylfaen	<p>Menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1 (plant rhwng tair a saith oed). O fis Medi 2004, mae 42 o leoliadau'n rhoi prawf ar y fframwaith. Ei nod yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol mewn saith maes dysgu sy'n diwallu anghenion datblygu gwahanol blant ifanc.</p> <p>Y Meysydd Dysgu statudol yn y Cyfnod Sylfaen yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu; • datblygiad mathemategol; • datblygiad iaith Gymraeg; • gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono; • datblygiad corfforol; a • datblygiad creadigol.
fframwaith cymhwyster	<p>Ym maes dysgu yn y gwaith, fframwaith cymhwyster yw'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol, y medrau allweddol penodol a'r tystysgrifau technegol mae'r sector galwedigaethol yn gofyn amdany'n nhw.</p> <p>Ym maes dysgu yn y gwaith ac er mwyn bodloni gofynion y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer pob sector dysgu, rhaid i ddysgwyr ennill un neu fwy o gymwysterau medrau allweddol neu dystysgrifau technegol yn ogystal â Chymhwyster Cenedlaethol i gyflawni fframwaith cymhwyster llawn.</p>

Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion	Cafodd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ei ddatblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol. Mae'n nodi'r weledigaeth a'r amserlen gweithredu ar gyfer rhoi'r Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith ar sail diwygio ar dair lefel.
grant trosglwyddo	Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trefnu bod cyllid ychwanegol o £5 miliwn ar gael i awdurdodau lleol (ALLau) yn 2006-2009 trwy'r grant trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2-3. Mae'r grant trosglwyddo'n cefnogi prosiectau arloesol a phatrymol sy'n canolbwyntio ar elfennau allweddol cynlluniau trosglwyddo.
gwahardd	Lle mae ysgol yn dweud wrth ddysgwyr am beidio â dod i'r ysgol naill ai am gyfnod penodol (er enghraifft, wythnos) neu'n barhaol
gwaith di-dâl	Gwasanaeth cymunedol yw'r hen enw ar waith di-dâl. Mae'n gosb mae llys yn ei dyfarnu yn y gymuned.
gwasanaethau cymorth ieuenctid	Gwasanaethau sy'n helpu pobl ifanc, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i: <ul style="list-style-type: none"> • gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant; • manteisio ar gyfleoedd swyddi; a • chymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau. <p>Mae amryw o ddarparwyr fel awdurdodau lleol (gan gynnwys y gwasanaeth ieuenctid statudol), darparwyr iechyd, a sefydliadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol yn rhedeg y gwasanaethau yma. Maen nhw'n cael eu hariannu o sawl ffynhonnell yn cynnwys nawdd awdurdodau lleol, cyllid cenedlaethol ac Ewropeaidd ac arian o'r sector gwirfoddol.</p>
gweithdai carchar	Lle mae troseddwr yn cael ei gyflogi i wneud gwaith am gyflog y mae'r carchar dan gcontract i'w gyflenwi i sefydliadau allanol a/neu'r Gwasanaeth Carchardai. Gallai'r gwaith gynnwys hyfforddiant neu gymwysterau, neu beidio.
gwelliant sylweddol	Mae angen i ysgol wneud gwelliant sylweddol os yw'n perfformio ar lefel llawer is nag y gallai ym mhob un o'r amgylchiadau lle y gall rhywun ddisgwyl yn rhesymol iddi berfformio.

gwendidau difrifol	Er bod ysgol yn cynnig addysg o safon dderbyniol i'w disgyblion, mae ganddi wendidau difrifol os oes gwendidau yn un neu fwy o'i meysydd gweithgareddau. Mae'r categori yma o ysgolion wedi'i ddisodli erbyn hyn gan welliant sylweddol (cyfeiriwch at 'gwelliant sylweddol').
gwerth am arian	Pa mor effeithiol ac effeithlon y mae adnoddau'n cael eu defnyddio
hyfforddiant galwedigaethol	Lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnig amgylchedd ar gyfer datblygu medrau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, ac ennill cymwysterau
hyfforddwyr dysgu	Mae hyfforddwyr dysgu'n rhoi cyfle rheolaidd i ddysgwyr drafod dysgu a chynnydd. Maen nhw'n helpu dysgwyr i ddatblygu medrau dysgu, i wneud y defnydd gorau o'u harddulliau dysgu a'u datblygu, ac i ddatblygu gymaint â phosib.
laith Pawb	'laith Pawb' yw'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog a gafodd ei lansio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003.
lleoedd heb eu llenwi	Lleoedd heb eu llenwi yw lle mae llai o blant mewn ardal na'r nifer o leoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Weithiau yr enw arnyn nhw yw lleoedd dros ben.
lleoliadau na chynhelir	Darpariaeth breifat fel cylchoedd chwarae i blant dan bump oed
Llwybrau Dysgu 14-19	Strategaethau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer datblygu a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant i ddisgyblion 14-19 oed sydd dan sylw yn Y Wlad Sy'n Dysgu (2001) ac Y Wlad Sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19 (2002)

maes dysgu	Mae hyn yn golygu rhywbeth gwahanol yn y gwahanol sectorau. Mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith, mae pynciau'n cael eu grwpio gyda'i gilydd yn 'feysydd dysgu' cyfarwydd. Rydyn ni'n dyfarnu graddau ac yn ysgrifennu adroddiadau arolygu dan benawdau'r meysydd dysgu yma. Mae dysgu troseddwr a dysgu oedolion yn y gymuned yn defnyddio'r term meysydd dysgu hefyd i grwpio gwahanol bynciau. Mewn carchardai, mae tri maes dysgu: llythrennedd, iaith a rhifedd, cyflogadwyedd a hyfforddiant galwedigaethol, a datblygiad personol a chymdeithasol.
maes galwedigaethol	Meysydd galwedigaethol yw'r gweithgareddau a'r profiadau hynny sy'n arwain at ddealltwriaeth a/neu fedrau sy'n berthnasol i amrywiaeth o amgylcheddau gweithio (gwirfoddol a di-dâl).
medrau allweddol	Medrau allweddol yw'r medrau mae rhywun eu hangen fel arfer i lwyddo i wneud llawer o weithgareddau mewn addysg, hyfforddiant, gwaith a bywyd yn gyffredinol.
medrau sylfaenol	Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac i ddefnyddio mathemateg ar lefel sy'n angenrheidiol i rywun weithredu mewn gwaith a chymdeithas
mesurau arbennig	Mae ysgol yn cael ei nodi fel un y mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddi: <ul style="list-style-type: none"> • pan fydd yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w phlant; ac • nid yw'r gallu gan y bobl sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol i wneud y gwelliannau angenrheidiol ynddi.
Mynediad	Un o wasanaethau awdurdod lleol sy'n delio â: <ul style="list-style-type: none"> • darparu amrediad a nifer priodol o leoedd ysgol; • derbyniadau i ysgolion; • cludiant o'r ysgol i'r cartref; a • rheoli cyflwr ac addasrwydd pob adeilad ysgol
NEET	Pobl ifanc 16 oed a hŷn sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Medrau
paratoi, cynllunio ac asesu (PCA)	Cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) 'Codi safonau a mynd i'r afael â llwyth gwaith: cytundeb cenedlaethol' ym mis Ionawr 2003. Fel rhan o'r cytundeb yma, o fis Medi 2005, mae pob athro'n cael o leiaf 10% o amser wedi'i warantu yn ystod y diwrnod ysgol i gynllunio, paratoi ac asesu.
Parth Cyflogaeth	Dull newydd o leihau diweithdra tymor hir drwy fodel gweithio'n gyntaf sy'n cyflwyno gwasanaethau cyflogaeth i bobl ddi-waith
Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau	Arweiniad statudol yw Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau dan adrannau 25(8), 26(5), a 27(4) o Ddeddf Plant 2004. Mae'r darpariaethau yma'n rhoi dyletswydd i gydweithredu'n lleol ar awdurdodau lleol yng Nghymru ac amrediad o bartneriaid, er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol. Maen nhw'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benodi cyfarwyddwr arwain ac i ddynodi aelod arwain ar gyfer plant a phobl ifanc.
plant sy'n derbyn gofal	Plant yw'r rhain y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb cyfreithiol drostyn nhw fel rhiant. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pob plentyn sydd wedi'i enwi mewn gorchymyn gofal, neu sy'n cael llety yn wirfoddol am dros 24 awr. 'Mewn gofal' yw'r hen enw arno.
prawf	Asiantaeth orfodi'r gyfraith yw'r gwasanaeth prawf, ac mae'n goruchwyllo troseddwr yn y gymuned.
Prentisiaeth Fodern	Mae'r rhain yn rhoi hyfforddiant i ddysgwyr sy'n cael eu cyflogi hyd at Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol lefel 3 neu uwch. Mae angen i ddysgwyr hefyd gwblhau tystysgrifau medrau allweddol a thystysgrifau technegol.
Prentisiaeth Fodern Sylfaen	Mae dysgwyr sy'n cael eu cyflogi yn gallu cael hyfforddiant hyd at CGC lefel 2. Mae angen iddyn nhw hefyd gwblhau tystysgrifau medrau allweddol a thystysgrifau technegol.

Prif Contract	Sefydliad dan contract gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i fynd ati'n uniongyrchol i ddarparu cyfran helaeth o ddarpariaeth, i is-gontractio peth o'r ddarpariaeth, ac i reoli a monitro perfformiad ac ansawdd yr isgontractwyr a'u darpariaeth eu hunain
RAISE	Mae'r rhaglen RAISE, (Gwella Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg yng Nghymru), yn targedu disgyblion dan anfantais, ac yn ceisio gwella'u perfformiad. Mae cyllid yn cael ei dargedu at ysgolion lle mae 20% neu fwy o'u disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (ac eithrio ysgolion â llai na 50 o ddisgyblion) ac i gael cymorth dysgu i blant sy'n derbyn gofal.
Rhaglen Ryngwladol Aseu Myfyrwyr	Prawf bob tair blynedd ledled y byd o berfformiad addysgol plant ysgol 15 oed yw'r Rhaglen Ryngwladol Aseu Myfyrwyr. Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) sy'n cydlynu gweithrediad y prawf. Nod yr astudiaeth yw profi a chymharu perfformiad plant ysgol ar draws y byd, gyda golwg ar wella dulliau a chanlyniadau addysgol.
rheolaeth strategol	Mae'r term yn cyfeirio at weledigaeth glir arweinwyr a rheolwyr o ran rôl addysg sy'n cael sylw trwy gynllunio o flaen llaw.
Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003	Amrediad o safonau mae ysgolion annibynnol yn cael eu barnu yn eu herbyn. Rhaid i ysgolion fodloni'r safonau yma cyn y gallan nhw gael eu cofrestru. I barhau fel ysgolion sydd wedi'u cofrestru, rhaid iddyn nhw barhau i fodloni'r safonau. Mae'r safonau wedi'u rhestru yn Rheoliadau Addysg (Safonau Ysgolion Annibynnol) 2003. Mae saith o safonau sydd wedi'u rhannu'n dros 100 o reoliadau.
Rhwydwaith 14-19	Grŵp strategol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal leol yw'r rhain. Fe'i sefydlwyd fel rhan o'r 'Llwybrau Dysgu 14-19' (cyfeiriwch at 'Llwybrau Dysgu 14-19').
rhwydweithiau dysgu oedolion	Rhwydweithiau lleol sy'n cydlynu dysgu i oedolion

safon uwch	Tystysgrif Addysg Gyffredinol ar safon uwch
seicolegwyr addysg	Gweithwyr proffesiynol sy'n helpu plant a phobl ifanc sy'n cael problemau mewn lleoliad addysgol i wella'u dysgu
Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE)	Mae'r cyrsiau yma ar gyfer oedolion sydd heb Saesneg fel mamiaith. Maen nhw'n dilyn y cyrsiau yma i wella'u medrau iaith Saesneg.
Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru	Ymateb cynhwysfawr o Gymru i Adolygiad Leitch o Sgiliau yn y DU yw Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, sef strategaeth ym maes medrau a chyflogaeth. Mae hefyd yn ymateb rhagarweiniol i'r Adolygiad annibynnol o Genhadaeth a Diben Addysg Bellach yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, dan gadeiryddiaeth Sir Adrian Webb.
Swyddfa Archwilio Cymru	Dan gyfarwyddyd Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnig gwasanaeth archwilio ac arolygu cynhwysfawr i Gymru ar draws dewis helaeth o wasanaethau cyhoeddus.
Swyddfa Cofnodion Troseddol	Dan ofal y Swyddfa Gartref, cafodd yr asiantaeth yma'i sefydlu i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau mwy diogel wrth recriwtio. Mae'n cynnig gwybodaeth am gofnodion troseddol.
TGCh	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
tîm troseddau ieuencid	Nod timau troseddau ieuencid yw atal pobl ifanc rhag torri'r gyfraith neu eu helpu i beidio â gwneud hynny eto. Mae gweithwyr proffesiynol lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn timau ac yn rhoi'r gwasanaethau angenrheidiol i bobl ifanc i'w helpu i oresgyn eu hanawsterau. Mae gweithwyr timau troseddau ieuencid yn gweld pobl ifanc yn gyson. Maen nhw'n helpu pobl ifanc i ddod i ddeall teimladau eu dioddefwyr, ac i feddwl beth a'u harweiniodd at droseddu. Mae gweithwyr timau'n datblygu rhaglen o gymorth hefyd, sy'n cynnwys cyngor ynglŷn â chyffuriau ac alcohol, a chymorth gydag addysg, iechyd a chartrefi. Hefyd, mae pobl ifanc yn cael helpu i reoli eu dicter.

troseddwy'r ifanc	Pobl ifanc dan 17 oed sydd wedi torri'r gyfraith
Trothwy	<p>Cafodd dangosyddion yn dangos cywertheddodd trothwy eu cyhoeddi (fel dangosyddion dros dro) am y tro cyntaf yn 2007, a'r rhain bellach yw'r prif ddangosyddion ar gyfer perfformiad mewn ysgolion uwchradd. Mae trothwyau'n cynrychioli nifer, neu 'faint' cymwysterau ar lefel benodol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Mae tri throthwy wedi'u sefydlu:</p> <p>Lefel 1 – nifer o gymwysterau ar Lefel 1 sy'n gywerth â 5 TGAU gradd D-G;</p> <p>Lefel 2 – nifer o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n gywerth â 5 TGAU gradd A*-C; a</p> <p>Lefel 3 – nifer o gymwysterau ar Lefel 3 sy'n gywerth â 2 dystysgrif safon uwch gradd A-E.</p>
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU)	Mae'r mwyafrif o bobl ifanc 16 oed yn ennill y cymhwyster yma.
uned cyfeirio disgyblion (UCD)	Ysgolion yw'r rhain sydd wedi'u sefydlu ac sy'n cael eu cynnal gan awdurdod lleol ar gyfer disgyblion o oed ysgol gorfodol. Mae disgyblion fel arfer yn mynd i unedau cyfeirio disgyblion am eu bod nhw wedi'u gwahardd o'r ysgol neu am eu bod nhw'n absennol dro ar ôl tro o'r ysgol. Fel arall, fyddai'r disgyblion ddim yn cael addysg addas.
Workstep	Rhaglen hyfforddi sy'n cael ei hariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (yr hen Ganolfan Byd Gwaith) yw hon. Mae'n cynnig cymorth i bobl ag anableddau sy'n wynebu rhwystrau wrth chwilio am swydd a'i chadw. Mae'n cynnig cyfleoedd i'r unigolion yma gael swyddi ac yn rhoi cymorth iddyn nhw yn y gwaith.
y ddalfa	Carchar lle mae troseddwy'r yn treulio cyfnodau dedfryd. Gall fod yn garchar yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat.
Y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion	Cafodd y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion ei chyflwyno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001. Ers i'r fenter ddechrau yn 2001, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cynorthwyo pob un o'r awdurdodau lleol i sefydlu 161 o bartneriaethau ar draws Cymru. Mae'n cynllunio i gyflwyno'r fenter yn raddol i bob ysgol yng Nghymru erbyn 2009, ar y cyd ag awdurdodau lleol a chydlynwyr y fenter.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd	<p>Mae'r sefydliad yma'n dod â llywodraethau gwledydd sy'n ymrwymo i ddemocratiaeth ac economi'r farchnad o bob rhan o'r byd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gynnal twf economaidd cynaliadwy; • hybu cyflogaeth; • codi safonau byw; • cynnal sefydlogrwydd ariannol; • cynorthwyo datblygiad economaidd gwledydd eraill; a • cyfrannau at dwf masnach y byd.
Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith	<p>Un o ddogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer addysg</p>
Ymestyn Hawliau	<p>Polisi canolog Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gafodd ei gyhoeddi yn 2001. Mae'n defnyddio hawliau'n sylfaen i ddull o gynnig cymorth a gwasanaethau i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae 10 o hawliau, gan gynnwys addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith.</p>
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	<p>Mae'n disodli'r Ganolfan Byd Gwaith. Hwn yw sefydliad y Llywodraeth sy'n delio â phobl ddi-waith ac sy'n eu helpu i ddod o hyd i waith.</p>
Ysgol Gymraeg	<p>Ysgol sy'n addysgu dros hanner ei phynciau yn Gymraeg yw ysgol Gymraeg</p>
ysgolion bro	<p>Mae ysgolion bro'n cynnig dewis helaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu allan i oriau'r ysgol. Eu nod yw helpu i ddiwallu anghenion eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.</p>

Atodiad 1: Darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
Darparwyr na chynhelir	Mae'r rhain yn cynnwys cylchoedd chwarae, a meithrinfeydd dydd preifat sy'n gymwys i gael cyllid gan Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Phlant neu Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc i ddarparu lleoedd addysg i blant 3 oed.	Mae bron pob un o'r lleoliadau'n cael eu harolygu gan arolygwyr annibynnol y Cyfnod Sylfaen. Nid yw lleoliadau'n cael eu harolygu gan ddefnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ar hyn o bryd. Mae safonau'n cael eu harolygu gan ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (o fis Medi 2008). Mae saith maes dysgu ar gyfer safonau mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, a chwe maes dysgu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Nid oes rhaid i leoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog addysgu datblygu'r iaith Gymraeg.	772	96
Ysgolion meithrin – Nodyn 1	Mae ysgolion meithrin yn darparu ar gyfer plant tair a phedair oed ac yn cael eu hariannu gan awdurdod lleol. Weithiau maen nhw'n gysylltiedig ag ysgolion babanod neu ysgolion cynradd.	Mae meithrinfeydd a gynhelir yn cael eu harolygu gan arolygwyr annibynnol y Cyfnod Sylfaen, ac maen nhw'n cael eu harolygu gan ddefnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae safonau'n cael eu harolygu gan ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (o fis Medi 2008).	28	5

Nodyn 1: Mae'r darparwyr yma'n cael eu cynnal dan reolaeth awdurdodau lleol.

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
Ysgolion cynradd – Nodyn 1	Mae'r ysgolion yma'n darparu ar gyfer plant o bedair i 11 oed (neu dair i 11 oed os oes meithrinfa ganddyn nhw). Mae modd eu rhannu'n ysgolion babanod neu ysgolion iau ar eu pennau eu hunain.	Yn y sector cynradd, mae Estyn yn arolygu sampl o ysgolion cynradd, ysgolion babanod ac ysgolion iau, a hefyd ysgolion meithrin a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae'r arolygiadau yma'n cael eu cynnal gan gontractwyr arolygu annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo. Mae Estyn yn hyfforddi, yn asesu ac yn monitro'r arolygwyr annibynnol yma i wneud yn siŵr bod yr holl arolygiadau'n bodloni safonau ansawdd Estyn.	1,509	255
Ysgolion uwchradd – Nodyn 1	Mae pob ysgol uwchradd yn cymryd disgyblion 11 i 16 oed. Mae dosbarthiadau chwech ar gyfer disgyblion 16 i 18 oed gan rai hefyd.	Rydyn ni'n arolygu sampl o ysgolion uwchradd bob blwyddyn. Mae'r arolygiadau yma'n cael eu cynnal gan gontractwyr arolygu annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n trefnu i dimau o arolygwyr annibynnol gynnal yr arolygiad, dan arweiniad arolygydd cofrestredig. Mae Estyn yn hyfforddi, yn asesu ac yn monitro'r arolygwyr annibynnol yma i wneud yn siŵr bod yr holl arolygiadau'n bodloni safonau ansawdd Estyn.	222	35

Nodyn 1: Mae'r darparwyr yma'n cael eu cynnal dan reolaeth awdurdodau lleol.

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
Ysgolion arbennig – Nodyn 1	Mae ysgolion arbennig yn cynnig addysg i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig na all ysgol y brif ffrwd eu diwallu'n effeithiol o'u hadnoddau eu hunain.	Rydyn ni'n arolygu sampl o ysgolion arbennig bob blwyddyn. Mae'r arolygiadau yma'n cael eu cynnal gan gontractwyr arolygu annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n trefnu i dimau o arolygwyr annibynnol gynnal yr arolygiad, dan arweiniad arolygydd cofrestredig. Mae Estyn yn hyfforddi, yn asesu ac yn monitro'r arolygwyr annibynnol yma i wneud yn siŵr bod yr holl arolygiadau'n bodloni safonau ansawdd Estyn.	44	7
Unedau cyfeirio disgyblion – Nodyn 1	Mae unedau cyfeirio disgyblion ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd neu sydd wedi bod yn absennol dro ar ôl tro o'r ysgol (heb reswm dilys, fel salwch), neu na fyddai'n cael addysg addas fel arall.	Rydyn ni'n arolygu sampl o unedau cyfeirio disgyblion bob blwyddyn. Mae'r arolygiadau yma'n cael eu cynnal gan gontractwyr arolygu annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n trefnu i dimau o arolygwyr annibynnol gynnal yr arolygiad, dan arweiniad arolygydd cofrestredig. Mae Estyn yn hyfforddi, yn asesu ac yn monitro'r arolygwyr annibynnol yma i wneud yn siŵr bod yr holl arolygiadau'n bodloni safonau ansawdd Estyn.	60 + (Nid ydyn nhw i gyd wedi'u cofrestru gyda LICC)	7

Nodyn 1: Mae'r darparwyr yma'n cael eu cynnal dan reolaeth awdurdodau lleol.

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
Ysgolion annibynnol – Nodyn 2	Ysgolion annibynnol yw'r rhai sy'n cael eu rhedeg neu eu hariannu'n breifat a heb eu cynnal gan awdurdod addysg. Rhaid i rieni disgyblion yr ysgolion yma dalu ffioedd fel arfer.	Hwn yw'r cylch cyntaf o arolygiadau dan adran 163 Deddf Addysg 2002 ar gyfer yr holl ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru. Prif ddiben arolygu dan yr adran yma yw adrodd ar gydymffurfio gyda Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol. AEM sy'n cynnal yr arolygiadau, ar y cyd arolygwyr ychwanegol mae Estyn wedi'u hyfforddi.	65	12

Nodyn 2: Mae ysgolion arbennig annibynnol yn cael eu rhedeg neu'u hariannu'n breifat ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
<p>Gwasanaethau cymorth ieuencid – Nodyn 3</p>	<p>Gwasanaethau yw'r rhain sy'n helpu pobl ifanc i gymryd rhan effeithiol mewn addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith. Mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc gan bob awdurdod lleol sy'n cydlynu'r ffordd y mae gwasanaethau cymorth ieuencid yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno.</p>	<p>Rydyn ni'n arolygu'r holl wasanaethau cymorth ieuencid mewn ardal awdurdod lleol yn ystod cylch arolygu chwe blynedd. Mae Estyn yn cynnal arolygiadau o wasanaethau cymorth ieuencid yn unol â gofynion Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. O fis Medi 2008, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yw'r mecanwaith ar gyfer gweld partneriaeth rhwng yr holl ddarparwyr yn cynllunio'r holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol yn bennaf am ddatblygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. AEM sy'n cynnal yr arolygiadau, ar y cyd ag arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid y mae Estyn wedi'u hyfforddi.</p>	<p>22</p>	<p>5</p>

Nodyn 3: Mae hyn yn cynnwys ailarolygiadau.

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
<p>System cyfiawnder ieuencid</p>	<p>Pan fydd pobl ifanc yn torri'r gyfraith neu mewn perygl o wneud hynny, maen nhw'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuencid. Maen nhw'n cael eu goruchwyllo gan dimau troseddau ieuencid ac yn treulio cyfnodau eu dedfryd mewn sefydliadau ar gyfer troseddwr ifanc neu yn un o gartrefi diogel yr awdurdod lleol i blant yn y gymuned.</p> <p>Pan fydd pobl ifanc o Gymru'n cael eu dedfrydu i garchar, maen nhw'n aml yn treulio cyfnod eu dedfryd mewn sefydliadau yn Lloegr ar gyfer troseddwr ifanc. Mae ein harolygwyr ni'n ymuno ag arolygiadau Ofsted (Swyddfa Safonau mewn Addysg) o sefydliadau troseddwr ifanc yn Lloegr, lle mae niferoedd sylweddol o bobl ifanc o Gymru.</p>	<p>Rydyn ni'n arolygu addysg yn y system cyfiawnder ieuencid trwy weithio mewn partneriaethau gydag arolygiaethau eraill. AEM sy'n cynnal yr arolygiadau, ar y cyd ag arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid y mae Estyn wedi'u hyfforddi.</p>	<p>18 o Dimau Troseddau Ieuencid yng Nghymru</p> <p>Un o gartrefi diogel yr awdurdod lleol ar gyfer plant ac un Sefydliad Troseddwr Ifanc</p>	<p>4</p> <p>1</p>

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
Colegau a sefydliadau addysg bellach	Mae colegau a sefydliadau addysg bellach ar gyfer pobl dros 16 oed yn gyffredinol. Maen nhw'n cynnig addysg a hyfforddiant mewn amrywiaeth eang o bynciau ar wahanol lefelau.	Rydyn ni'n arolygu'r sector addysg bellach drwy ymweld â sampl o sefydliadau bob blwyddyn. Yn ogystal ag arfarnu'r holl gwestiynau allweddol, rydyn ni hefyd yn arolygu cyfran o feysydd dysgu ym mhob darparwr. Mae nifer y meysydd dysgu sy'n cael eu harolygu yn dibynnu ar y canlyniadau arolygu a gyflawnir gan y darparwr yn ystod y cylch arolygu diwethaf. AEM sy'n cynnal yr arolygiadau, ar y cyd ag arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid y mae Estyn wedi'u hyfforddi.	25	5
Dysgu yn y gwaith – Nodyn 3	Mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cynnig hyfforddiant ac asesu galwedigaethol, yn y gweithle'n bennaf.	Rydyn ni'n arolygu holl ddarparwyr Dysgu yn y Gwaith yn ystod cylch arolygu chwe blynedd. Mae arolygu'n cynnwys ymweliadau â lleoliadau gwaith, yn ogystal â hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith i arsylwi dysgwyr ac i drafod eu hyfforddiant gyda staff y darparwr a'r cyflogwr. AEM sy'n cynnal yr arolygiadau, ar y cyd ag arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid y mae Estyn wedi'u hyfforddi.	91	16

Nodyn 3: Mae hyn yn cynnwys ailarolygiadau.

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
<p>Yr Adran Gwaith a Phensiynau</p>	<p>Rhaglen yr Adran Gwaith a Phensiynau (yr hen Ganolfan Byd Gwaith) (sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth y DU) yw Workstep. Mae'n helpu pobl ag anableddau i gael swyddi, a chyfleoedd iddyn nhw weithio mewn amgylchedd masnachol. Yn ogystal â rhaglenni Workstep, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n ariannu gwahanol fathau o ddarpariaeth i helpu pobl sy'n ddi-waith i fynd yn ôl i'r gwaith. Mae'r ddarpariaeth yma'n cynnwys Prif Gontract, Canolfannau Rhaglenni a Pharthau Cyflogaeth y Fargen Newydd.</p>	<p>Rydyn ni'n cynnal arolygiadau o raglenni hyfforddi sy'n cael eu hariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru trwy gytundeb gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r arolygu cael ei lunio i fodloni'r math o raglen sy'n cael ei chyflwyno, ond ym mhob achos mae'n canolbwyntio ar brofiad y cleientiaid a chanlyniadau rhaglen yr Adran Gwaith a Phensiynau.</p>	<p>39</p>	<p>10</p>
<p>Cwmnïau Gyrfa Cymru</p>	<p>Mae cwmnïau gyrfa (sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) yn cynnig gwybodaeth, cyngor a gwasanaeth arwain i bobl o bob oed. Mae hefyd yn bosib cael cyngor ar-lein drwy www.gyrfacymru.com</p>	<p>Rydyn ni'n arolygu cwmnïau gyrfa yng Nghymru trwy gytundeb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cylch arolygu chwe blynedd sydd fel arfer yn golygu arolygu un cwmni y flwyddyn. Mae'r broses yn canolbwyntio ar ansawdd y cyngor a'r arweiniad mae pob cwmni'n eu cynnig. AEM sy'n cynnal yr arolygiadau, ar y cyd ag arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid y mae Estyn wedi'u hyfforddi.</p>	<p>6</p>	<p>1</p>

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
Sefydliadau addysg a hyfforddiant athrawon	Rhaid i bobl sydd am fod yn athrawon ennill statws athro cymwys. I wneud hyn, rhaid iddyn nhw hyfforddi ar gwrs mewn sefydliad addysg uwch neu ysgol.	Mae timau o AEM ac aseswyr cymheiriaid yn asesu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon trwy farnu ansawdd yr addysgu a'r cyrsiau y maen nhw'n eu cynnig, a thrwy arsylwi sut mae athrawon dan hyfforddiant yn addysgu yn ystod eu lleoliadau addysgu. Maen nhw hefyd yn asesu ansawdd y cymorth mentora mae'r sefydliad a'r ysgol yn ei ddarparu.	8	1 ¹⁵
Dysgu oedolion yn y gymuned	Darpariaeth addysgol i oedolion sy'n cael ei chyflwyno mewn lleoliadau yn y gymuned ar hyd a lled Cymru yw dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r darparwyr yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol, colegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch.	Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn cael ei arolygu ar sail 'teithio i ddysgu', ac fel arfer mae'n ardal awdurdod lleol. AEM sy'n cynnal yr arolygiadau, ar y cyd ag arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid y mae Estyn wedi'u hyfforddi. Mae'r arolygiad yn ystyried y rhwydwaith sy'n datblygu o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn yr ardal.	25	5

¹⁵ Hefyd, fe gynhalion ni un ailarolygiad ac un ymweliad dilysu.

Darparwr	Ei ddarpariaeth	Sut rydyn ni'n arolygu	Nifer yng Nghymru	Y nifer y gwnaethon ni eu harolygu neu'u hailarolygu yn 2007-2008
